Holodd Adroddiad 'Coronafeirws a Fi' Comisiynydd Plant Cymru (2020) 23,488 o blant rhwng 3 a 18 oed i ddarganfod effeithiau'r pandemig ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant a'u haddysg. O'r 23,488 o gyfranogwyr a gymerodd ran, cwblhaodd 50% yr arolwg 7–11, cwblhaodd 47% arolwg 12–18 a chwblhaodd 3% yr arolwg hygyrch 7–8 (Comisiynydd Plant Cymru, 2020). Dywedodd dros hanner y plant a gafodd eu holi eu bod yn teimlo'n hapus y rhan fwyaf o'r amser yn ystod y pandemig (58%), gyda thros dri chwarter yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel y rhan fwyaf o'r amser (84%) (Comisiynydd Plant Cymru, 2020). Nododd y plant agweddau cadarnhaol ar eu profiadau gan gynnwys mwynhau treulio mwy o amser gyda'u teulu, dysgu sgiliau newydd a mwynhau manau awyr agored (Comisiynydd Plant Cymru, 2020), fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod profiadau plant yn ystod y pandemig wedi amrywio ar sail eu sefyllfa economaidd-gymdeithasol, ac ni fydd holl blant Cymru wedi mwynhau'r profiadau cadarnhaol hyn. Er hynny, pan ofynnwyd i blant beth sydd wedi cael effaith arnynt fwyaf, nodwyd mai 'methu treulio amser gyda ffrindiau' (725) a 'methu ymweld ag aelodau'r teulu' (59%) oedd wedi cael yr effaith fwyaf ar sut roeddent yn teimlo (Comisiynydd Plant Cymru, 2020).

O ran safbwyntiau plant ynghylch eu dysgu, dywedodd 51% o blant a arolygwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru (2020) ym mis Ionawr 2021 eu bod yn teimlo'n hyderus ynghylch eu dysgu, nododd 25% eu bod yn llai hyderus a dywedodd 10% nad oeddent yn teimlo'n hyderus o gwbl. Fodd bynnag, gwnaeth lefel hyder plant hyn godi pryderon gan mai dim ond

11% o bobl ifanc 12–18 oed a holwyd oedd yn nodi nad oedden nhw'n teimlo'n bryderus am eu haddysg, a'r pryder mwyaf cyffredin a nodwyd (54%) oedd cwmpo ar ei hôl hi yn addysgol (Comisiynydd Plant Cymru, 2020). Ar ben hynny, mae adroddiad *'Coronafeirws a fi: Beth mae plant yn ei ddweud'* yn manylu ymhellach ar brofiadau uniongyrchol plant 3–12-oed (Chamberlain, 2021). Er nad yw'r ymchwil yn canolbwyntio'n llwyr ar leisiau plant ifanc Cymru (n= 240) mae'r ymchwil yn casglu lleisiau plant o ystod o wledydd lle siaredir Saesneg, Islandeg, Norwyeg a Slofeneg, gyda 22.1% o'r ymatebion gan blant yn y DU (n= 53). Yn debyg i *'Coronafeirws a Fi'*, nododd y canfyddiadau fod plant wedi mynegi'r ffaith nad oeddent wedi mwynha llai o gysylltiadau cymdeithasol, eu bod wedi colli chwarae gyda'u ffrindiau a cholli eu cylch ehangach o anwyliaid (h.y., neiniau a theidiau). Roedd y manteision a nodwyd gan blant yn cynnwys bod gartref gyda'u teulu, treulio mwy o amser yn yr awyr agored a mwynhau'r hyblygrwydd cynyddol a oedd ynghlwm wrth ddysgu gartref (Chamberlain, 2021; gweler hefyd Waters–Davies et al 2021). Ar ben hynny, dangosodd plant rhwng 3 a 12 oed ddealltwriaeth o'r cyd-destun a luniodd eu profiadau gan fynegi ymwybyddiaeth o faterion a ffeithiau byd-eang a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig a'u gwybodaeth am y pandemig o fewn eu gwledydd eu hunain a gwledydd eraill (Chamberlain, 2021).

Yn ogystal, mae un darn o ymchwil wedi'i chynnal ynghylch effaith COVID-19 ar Addysg a Gofal Plentynod Cynnar a barn ymarferwyr ynghylch yr effaith ar eu hunain, eu lleoliad a'r plant yn y lleoliad yng Nghymru (Tyrie et al., 2021). Daeth y panel arbenigol i gonsensws y byddai pandemig COVID-19 yn cael yr effaith fwyaf ar bedwar grŵp demograffig; plant a oedd wedi dioddef profedigaeth, plant ag ADY/AAA/anabledau dysgu/anawsterau dysgu, plant mewn tlodi a phlant yr oedd eu rhieni wedi'u heintio gan COVID–19 a'r plant hyn fyddai angen y gefnogaeth fwyaf i liniaru'r effeithiau negyddol hyn (Tyrie et al., 2021). O ran effeithiau COVID–19 ar blant, cytunodd yr arbenigwyr hefyd fod pedwar maes effaith: datblygiad gwybyddol, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, datblygiad lleferydd ac iaith a datblygiad corfforol. Er bod yr ymchwil yn rhoi gwell dealltwriaeth o effeithiau COVID –19 ar blant a phobl ifanc, cafodd yr ymchwil ei chynnal o safbwynt oedolion ac felly nid yw'n ystyried lleisiau'r plant ifanc.

Mae adolygiad llenyddiaeth wedi cofnodi tystiolaeth sy'n tynnu sylw at brofiadau plant o ran COVID-19 yng Nghymru, ac mae nifer cyfyngedig o astudiaethau wedi ymwneud yn uniongyrchol â phlant i archwilio eu safbwyntiau. Fodd bynnag, mae prinder ymchwil bresennol sy'n archwilio profiadau plant blynyddoedd cynnar Cymru yn ystod y pandemig, a hynny drwy lygaid y plant ifanc hyn. Felly, nod yr ymchwil bresennol yw rhoi llwyfan i leisiau plant ifanc Cymru ac felly mae'n canolbwyntio ar y cwestiynau canlynol:

Cwestiynau'r ymchwil

1. Beth yw canfyddiadau plant ifanc o'u profiadau addysgol cyffredinol yn ystod y pandemig?
2. Beth yw canfyddiadau plant ifanc o'u profiadau o ddysgu ar-lein yn ystod y pandemig?
3. Beth yw canfyddiadau oedolion a rsn effaith COVID-19 ar blant ifanc a'r gwaith adfer dilynol? (Gall oedolion, er enghraifft, gynnwys staff ysgol a rhieni/gofalwyr).

Methodoleg

Roedd gan yr astudiaeth hon ddiddordeb ym mhrofiadau goddrychol a chanfyddiadau plant ifanc a'r oedolion sydd wedi eu cefnogi drwy gydol y pandemig, sef eu rhieni / gofalwyr ac athrawon. Bu'r astudiaeth yn archwilio sut y bu plant yn ymgysylltu â dysgu o fewn cyfyngiadau'r cyfnodau clo, y mesurau cadw pellter cymdeithasol a dyfodiad addysgu ar-lein ac o bell, yn ogystal â chynnig llwyfan i blant gyfathrebu eu hargymhellion ar gyfer y dyfodol. Yn unol â hynny, defnyddiwyd dull ansoddol a oedd yn cynnwys gweithgareddau creadigol, trafodaethau grŵp a chyfweliadau unigol â phlant (a oedd rhwng 5 ac 8 oed ar adeg casglu data a rhwng 3 a 6 oed ar ddechrau'r pandemig), eu rhieni / gofalwyr, a'u hathrawon. Mae'r adran hon yn amlinellu'r cynllun a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil, y dulliau casglu data a ddefnyddiwyd, ynghyd â manylion ynghylch recriwtio, mynediad a samplu cyfranogwyr.

Cynllunio'r ymchwil

Yn unol ag ymrwymiad ffurfiol Llywodraeth Cymru i hawliau plant a'r ymrwymiad i'w cynnwys mewn astudiaethau ymchwil (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004, Hawliau Plant Cymru 2021), roedd y gred bod plant yn arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain wrth wraidd gwaith cynllunio'r ymchwil. O'r herwydd cafodd y plant eu trin fel 'arbenigwyr drwy brofiad' (Staples et al., 2019). Yn unol â hynny, mabwysiadodd yr ymchwil dulliau creadigol cyfranogol ar gyfer casglu profiadau, canfyddiadau ac atgofion plant ifanc. Gan ddefnyddio'r dull Mosaig (Clark, 2001; Clark and Moss, 2011, 2017), a oedd yn seiliedig ar brofiad Reggio Emilia yn y blynyddoedd cynnar a'i ddull athronyddol o wrando ar blant (Fernández-Santín a Feliu-Torruella, 2020), cyflwynodd yr astudiaeth nifer o weithgareddau creadigol i sbarduno sgysiau a chyfweliadau. Er nad yw dulliau creadigol yn sicrhau cyfranogiad llawn a gweithredol, gallant ennyn mathau mwy cydweithredol o gynhyrchu data (Mannay, 2013, 2016). Mabwysiadwyd y dulliau cyfranogol hyn o gasglu data i ddarparu gofod lle gallai plant gael mwy o reolaeth wrth arwain y sgysiau a chyfarwyddo'r data a gasglwyd. Mae'r cyfweliadau gydag athrawon, ac oedolion arwyddocaol (rhieni a gofalwyr) hefyd wedi mabwysiadu dull lled-strwythuredig o alluogi lle i gyfranogwyr gyflwyno pynciau newydd a myfyrio ar eu rhyngweithio â phlant ifanc yn ystod y pandemig. Er mwyn ymgysylltu ag ystod o blant ifanc, eu hathrawon a'u rhieni / gofalwyr, defnyddiwyd astudiaethau achos aml-safle ansoddol (Mills, Durepos a Wiebe, 2010).

Dulliau Casglu Data

Y dulliau casglu data oedd 1) dulliau creadigol cyfranogol gyda phlant, 2) cyfweliadau ar-lein â phlant a'u rhieni/gofalwyr a 3) cyfweliadau wyneb yn wyneb ag athrawon. Casglwyd data gyda phlant ac athrawon o fewn manau cyhoeddus yr ysgolion a chynhaliwyd dulliau cyfweld o bell hefyd a oedd yn ennyn diddordeb rhieni a gofalwyr o fannau preifat y cartref.

Recriwtio a samplu

Yn unol â chynllun yr astudiaeth achos aml-safle, roedd y safleoedd ymchwil yn cynnwys pedair ysgol yn Ne Cymru. O ran cyfansoddiad economaidd-gymdeithasol yr ysgolion yn y sampl, cyfartaledd treigl tair blynedd data'r ysgolion am brydau ysgol am ddim oedd 25.1% sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol i ysgolion cynradd yng Nghymru (21.3%). Roedd canrannau'r ysgolion o ran prydau ysgol am ddim yn amrywio o 10.5%–38% gyda gwriad safonol o 9.8 yn dangos bod amrywiaeth yn y sampl ac felly'n golygu bod yr ymchwil yn cynnwys plant o ysgolion a oedd â chofansoddiadau economaidd-gymdeithasol gwahanol. Un o gyfyngiadau hysbys yr astudiaeth oedd diffyg ymwneud â lleoliad cyfrwng Cymraeg.

Cafodd y pedair ysgol eu recriwtio drwy e-bost ym mis Ionawr 2022. Cafodd yr ysgolion hyn eu dewis yn fwriadol i sicrhau sampl amrywiol o blant. O blith yr ysgolion hyn, cafodd dosbarthiadau eu dewis yn bragmatig gan yr ysgolion yn seiliedig ar oedran y plant a'r dosbarthiadau/athrawon a oedd ar gael. I gael eu cynnwys yn yr astudiaeth, roedd yn rhaid i blant fod rhwng 3 a 6 oed yn ystod y pandemig a bod wedi'u cofrestru mewn ysgol gynradd yng Nghymru adeg yr astudiaeth. Mae tystiolaeth ymchwil yn tynnu sylw at y ffaith bod y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar rai grwpiau penodol (Richards–Belle et al., 2020), gan gynnwys rhai Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (Platt a Warwick, 2020), rhai â statws economaidd-gymdeithasol is (Patel et al., 2020; Shoari et al., 2020; Waters–Davies et al., 2021), rhai sydd â phrofiad o'r system ofal (Roberts et al 2021), a rhai gydag anabledau neu gyflyrau meddygol isorweddol (Masi et al., 2021). Felly, roedd yn bwysig cynrychioli plant amrywiol a dod i ddeall gwahanol brofiadau addysgol plant yn ystod y pandemig. Yn unol â hynny, gofynnwyd i athrawon yn y pedair ysgol sampl 'ddewis saith o blant o ystod mor amrywiol â phosibl (e.e., rhai Ethnig, Asiaidd a Lleiafrifol, o gefndir economaidd-gymdeithasol is, gyda chyflyrau meddygol isorweddol hysbys, neu rai pwysau uwch), y gallai eu teuluoedd o bosibl gymryd rhan yn yr astudiaeth' (o ddogfennau prosiect ymchwil). Wedi hynny, gwahoddwyd athrawon o'r flwyddyn academiaidd bresennol a blaenorol, yn ogystal â rhieni/gofalwyr y plant a ddewiswyd yn fwriadol, i gymryd rhan mewn cyfweiliad. Gwahoddwyd yr athrawon dosbarth presennol a blaenorol er mwyn rhoi cyd-destun i brofiadau'r plant yn ystod dwy flynedd y pandemig, o fis Mawrth 2020 ymlaen.

Nod y ffrâm samplu bwriadol hon oedd hwyluso archwiliad o brofiadau amrywiol plant. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth asesu cynrychioldeb cyffredinol y canfyddiadau hyn, gan fod yr astudiaeth bresennol yn ansoddol a chafodd ei chynnal o fewn paradeim pragmatig. Er nad yw'r adroddiad hwn yn honni ei fod wedi dod o hyd i wirionedd cyffredinol (Kaushik and Walsh, 2019) ar gyfer pob plentyn yng Nghymru, mae'n cydnabod y bydd plant yn fwy na thebyg wedi cael rhai profiadau tebyg o ran eu haddysg yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r astudiaeth yn cydnabod felly bod rhoi llwyfan i lais plant ifanc o bosib yn ffordd o fynegi profiadau plant eraill ar draws system addysg Cymru.

Ar draws y pedair ysgol, cafodd 30 o blant (merched n = 14; bechgyn n = 16), a oedd rhwng 3 a 6 oed adeg y cyfnod clo cyntaf, (gweler Tabl 1 am nodweddion sampl) eu cynnwys. Yn ogystal, cafodd 6 o athrawon (benywaidd = 6, gwrywaidd = 0), a 20 o rieni/ gofalwyr (matau = 17, tadau = 1, arall = 2) a oedd wedi bod yn rhan o fywydau'r plant yn ystod pandemig COVID-19 eu cynnwys yn yr astudiaeth. Roedd anghydbwysedd clir o ran rhyw yr athrawon a'r rhieni / gofalwyr a oedd yn rhan o'r astudiaeth. Nid oedd hyn yn fwriadol ond mae'n bwysig nodi gan mai sylwadau gan fenywod yn bennaf yw'r sylwadau gan oedolion.

Tabl 1: Nodweddion Cyfranogwyr

	Plant	Athrawon	Rhieni/Gofalwyr	Cyfanswm
Benywaidd	14	6	19	39
Gwryrwaidd	16	0	1	17
Cyfanswm	30	6	20	

Dylid nodi y defnyddir rhif wrth gyfeirio at bob unigolyn yn yr adroddiad hwn, gellid ystyried bod hyn yn gwneud y sylwadau yn rhai amheronol, fodd bynnag oherwydd sensitifrwydd diwylliannol o roi ffugenwau i blant a allai gynrychioli eu cyd-destun diwylliannol neu beidio, roedd yn fwyaf moesegol defnyddio dull o gyfeirio at gyfranogwyr nad oedd ganddo unrhyw ystyr gymdeithasol-ddiwylliannol (e.e rhif).

Y broses o gasglu data

Cwblhawyd y broses o gynhyrchu data rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022. Roedd pum cam unigol.

- Yng Ngham 1, mynychodd yr ymchwilyr yr ysgolion i ymgyfarwyddo â'r plant a'r staff addysgu ac i weithio gydag athrawon i gasglu gwybodaeth ddemograffig am yr ysgol a'r plant a oedd yn rhan o'r astudiaeth.
- Roedd Camau 2, 3 a 4 yn cynnwys cyfres o ymweliadau â'r ysgolion fel y gallai'r ymchwilyr gynnal tri gweithgaredd creadigol gyda'r plant.
- Cafodd Cam 5 ei gynnal ar ôl y gweithgareddau gyda'r plant ac roedd yn cynnwys cyfweliadau ag athrawon a rhieni / gofalwyr.

Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb gyda'r athrawon, a chynhaliwyd y gweithgareddau creadigol gyda'r plant wyneb yn wyneb, tra cynhaliwyd cyfweliadau gyda'r teuluoedd (plentyn a gofalwr/rhiant) drwy alwad fideo neu dros y ffôn.

Derbyniodd pob ysgol a oedd yn rhan o'r astudiaeth yr un wybodaeth a deunyddiau. Crëwyd offer yr ymchwil ar y cyd gan y tîm ymchwil a oedd â phrofiad o gynllunio a hwyluso prosiectau a oedd yn defnyddio dulliau gweledol a chreadigol gyda phlant. Yr egwyddor arweiniol wrth gynllunio'r offer oedd rhoi sylw i blant fel arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain a chynnig ffyrdd creadigol i blant ifanc adrodd stori am eu profiadau addysgol. Felly, cynlluniwyd dulliau creadigol a chyfeillgar i blant o gynhyrchu data er mwyn galluogi plant i chwarae rhan weithredol mewn gwaith cyfnewid gwybodaeth yn ystod y broses ymchwil (Greene a Hogan, 2005; Kara, Lemon, Mannay a McPherson, 2021).

Gweithgareddau creadigol gyda phlant

Gan gyfeirio at astudiaethau cynharach gyda phlant yn ystod y pandemig (Boffey et al., 2021; Lomax et al., 2022), cafodd gweithgareddau drafft eu cynllunio a'u hadolygu gan y tîm ymchwil. Cafodd tri eu dewis ar gyfer y prosiect gan eu bod yn darparu dulliau creadigol amrywiol i blant, gan gynnwys arlunio ac adeiladu, yn ogystal â bodloni'r gofynion ar gyfer cwestiynau'r ymchwil. Datblygwyd yr holl weithgareddau i'w cwblhau yn yr ystafell ddosbarth, ond roeddent hefyd yn briodol i'w cludo adref a rhannu gyda rhieni/ gofalwyr. Mae Tabl 2 yn rhoi trosolwg o'r tri gweithgaredd terfynol. Ar ôl pob un o'r gweithgareddau cafodd plant gynnig cyfweliad un-i-un (sgwrs) gydag ymchwilydd. Cafodd sain y cyfweliadau hyn ei recordio a gwnaed trawsgrifiad ohonynt. Cafodd y trawsgrifiadau eu dadansoddi yn NVivo gan y tîm ymchwil ochr yn ochr â'r darluniau a grëwyd gan y plant yn ystod y gweithgareddau.

Tabl 2: Gweithgareddau terfynol

Gweithgaredd	Disgrifiad byr
1) Beth sydd yn fy mynd	Bwriad y gweithgaredd hwn yw cael cipolwg ar yr hyn sydd ym myd bob dydd plant a sut y gwnaeth y pandemig effeithio arnynt. Mae'r plant yn derbyn darn o bapur arlunio yr un. Byddai gan y ganolfan lun o'r plentyn. Gofynnir i'r plant arlunio'r bobl, y manau a'r pethau pwysig yn eu bywyd bob dydd, gydag ymchwilydd yn gofyn cwestiynau wrth i'r darluniau ddatblygu am yr hyn sy'n cael ei gynnwys. Yna rhoddir sticeri i blant eu gosod wrth ymyl y pethau y maent wedi'u harlunio nad oedd ganddynt fynediad atynt yn ystod y pandemig. Pan fydd y darluniau'n wedi'u cwblhau, byddai'r ymchwilydd yn siarad â'r plant (un-i-un) am y pethau nad oedd ganddyn nhw fynediad atynt yn ystod y pandemig - pa bethau nad oeddent bellach yn rhan o'u bywydau bob dydd.
2) Hedfan i ffwrdd a chreu ysgol newydd	Adeiladodd y plant a'r ymchwilydd awyren gyda'i gilydd. Ar ôl adeiladu'r awyrennau, maent yn cael eu hedfan i fyd newydd dychmygol (yr ochr arall i'r ystafell ddosbarth) lle nad oes pandemig a dim ysgolion, a gofynnir i'r plant greu eu hysgol berffaith. Mae'r ymchwilydd yn helpu'r plant i dynnu lluniau o'r holl bethau y bydd eu hangen ar y plant i ddysgu a mwynhau eu hunain yn yr ysgol. Cynhelir cyfweiliad (sgwrs) rhwng yr ymchwilydd a phlant unigol i drafod y deunydd a gynhyrchir.
3) Bocsys cadw a thafu	Mae'r ymchwilydd yn atgoffa'r plant o gyfnod clo'r pandemig, pan nad oedden nhw'n cael dod i'r ysgol ac roedd yn rhaid iddynt ddysgu ar-lein. Byddai plant yn cael eu gwahodd i addurno dau focs: un bocsy i gadw atgofion am y pethau yr oeddent yn hoffi eu gwneud pan oeddent dan glo ac un bocsy i roi'r holl bethau nad oeddent yn eu hoffi. Byddai ymchwilydd yn cynorthwyo gydag addurno'r bocsys a lle'r oedd gan blant syniadau am eiriau i'w cynnwys yn y bocsys, fe'u hanogir i ysgrifennu'r rhain ar bapur, wrth i sgysiau ddigwydd yn y broses wneud. Byddai ymchwilydd wedyn yn siarad â phob plentyn, un i un, i archwilio eu ffordd o feddwl.

Cyflwynir plentynod yn aml fel cyfnod datblygu ac mae'r camau datblygu bob dydd hyn yn creu hinsawdd lle mae polisiâu ac arferion yn aml yn hepgor profiadau byw goddrychol plant eu hunain (Mannay et al. 2019). Felly, roedd yn bwysig bod yr ymchwil yn cael ei chynnwys mewn modd a oedd yn rhoi lle canolog i safbwyntiau plant. Ar y cyfan, llwyddodd y gweithgareddau gyda'r plant i ennyn eu diddordeb yn y pynciau dan sylw ac fe wnaethant weithio'n dda gyda'r ymchwilydd i gyd-gynhyrchu data. Dywedodd y plant eu bod wedi mwynhau'r gweithgareddau a'u bod yn deall yn iawn beth oedd pwrpas yr ymchwil a'u cyfranogiad. Daeth hyn i'r amlwg mewn ymweliadau ag ysgolion lle'r oedd y plant yn awyddus i atgoffa'r tîm ymchwil bod angen 'adrodd wrth Lywodraeth Cymru' am yr hyn roedden nhw wedi ei ddweud. Roedd gan rai o'r plant oedd yn rhan o'r astudiaeth sgiliau llafar cyfyngedig ac roedd eraill yn ei chael hi'n anodd bod yn rhan o'r broses greu lle roedd angen sgiliau echddygol manwl. Felly, gan ddilyn yr arferion gorau o astudiaethau cynharach (gweler Pickering, 2021), addaswyd y gweithgareddau yn Nhabl 2 i sicrhau bod pob plentyn yn gallu cymryd rhan yn yr ymchwil. Golygai hyn na allai pob plentyn gymryd

rhan yn yr un ffordd nac i'r un graddau, ond roedd creu addasiadau a newidiadau yn ffordd o sicrhau bod safbwyntiau'r holl blant yn cael eu clywed a bod rhywun yn ymateb iddynt.

Cyfweliadau wedi'u strwythuro'n rhannol gydag athrawon a rhieni

Yn dilyn y gweithgareddau creadigol, cynhaliwyd cyfweliadau gydag athrawon wyneb yn wyneb a chynhaliwyd cyfweliadau â rhieni/gofalwyr ar-lein (cafodd plant hefyd eu gwahodd i ran gyntaf y cyfweliadau gyda rhieni a gofalwr). Cafodd y cyfweliadau hyn eu lled-strwythuro ac er i ganllaw cyfweliad gael ei ddatblygu i arwain y cyfweliad, roedd y cyfweliadau yn rhai hyblyg ac yn caniatáu i'r cyfranogwyr lywio'r sgwrs. Bu'r cyfweliadau'n archwilio safbwyntiau oedolion ar brofiadau plant o addysg yn ystod pandemig COVID-19 (gweler Atodiad 5: Amserlen Cyfweld Rhieni ac Atodiad 6: Amserlen Cyfweld Athrawon).

Cynhyrchodd y gweithgareddau creadigol a'r sgysiau gyda phlant, a'r cyfweliadau gydag athrawon, rhieni/gofalwyr a phlant, set ddata gyda mân amrywiadau, fel y dangosir yn Atodiad 2-4.

Ystyriaethau a phrosesau moesegol

Derbyniodd yr astudiaeth gymeradwyaeth foesegol lawn gan Bwyllgor Moeseg Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Abertawe ym mis Ionawr 2022. Gall heriau methodolegol a moesegol fod ynghlwm wrth ymchwil gyda phlant iau, megis ystyriaethau o ran cydsyniad ar sail gwybodaeth a chyfrinachedd (White, 2020). Fodd bynnag, mae plant iau yn ffynhonnell wybodaeth nas clywir yn aml am eu bywydau a'u profiadau eu hunain, a rhaid rhoi cydnabyddiaeth ddyledus i'r profiadau hyn (Einarsdóttir, 2007). Felly, ystyriwyd canllawiau moesegol gan Gymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA, 2018) yn ddiwyd a glynyd atynt, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt), parch at gyfranogwyr, gwybodaeth oedran-briodol i gyfranogwyr, cyfrinachedd, cydsyniad gwirfoddol a'r hawl i adael yr astudiaeth heb ganlyniad. Darparwyd gwybodaeth i ysgolion, athrawon, a rhieni/gofalwyr y plant a gafodd eu dewis ac roedd cydsyniad gan ysgolion a rhieni/gofalwyr yn ofynnol cyn i blant gael gwybod am yr astudiaeth.

Roedd gofyn i bob plentyn gydsynio i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd er mwyn gallu cymryd rhan ac fe'u hatgoffwyd y gallent roi'r gorau iddi ar unrhyw adeg, heb orfod rhoi rheswm. Gweithiodd y tîm ymchwil yn ofalus gyda phlant i gyfleu eu hawl i roi eu cydsyniad a'i dynnu yn ôl drwy gydol y broses. Roedd yr ymchwilwyr yn ymwybodol bod eu safle fel oedolion yn debygol o greu anghydbwysedd pŵer rhwng yr oedolion a'r plant ac o ganlyniad roedd yn hanfodol bod yr ymchwilwyr yn darllen iaith corff y plant a nodi pryd y gallai cydsyniad gael ei dynnu'n ôl. Amlygwyd dealltwriaeth y plant o'u hawliau a'u dewis gan un plentyn a oedd wedi cymryd rhan yn frwdfrydig yng ngweithgareddau'r ysgol. Er eu bod wedi sefydlu perthynas dda gyda'r ymchwilydd yn y cyfweliad o bell gyda'u rhiant fe wnaeth y plentyn ddiffodd y meicroffon yn barhaus. Esboniodd y plentyn wrth ei riant nad oedd am 'rannu popeth' gyda'r ymchwilydd. Roedd hyn yn dangos y ffyrdd yr oedd plant yn rhan o'r astudiaeth fel cyd-gynhyrchwyr data. Cynhyrchodd y plant ddata gyda'r ymchwilwyr ar eu telerau eu hunain a gwnaethant negodi eu lefel o gydsyniad a'u cyfranogiad yn barhaus, yn hytrach na chael eu trin fel gwrthrychau goddefol yn y broses.

Cofnodwyd sain gweithgareddau casglu data a chafodd trawsgrifiadau eu gwneud yn ddiennw, gyda rhifau'n disodli enwau a chafodd unrhyw wybodaeth bersonol ei dileu. Cafodd yr holl ddata eu storio'n ddiogel ar Microsoft Teams a dim ond y tîm ymchwil oedd yn gallu eu gweld. Yn unol â gofynion GDPR mae'r holl ddata'n cael eu storio'n ddiogel drwy gydol cyfnod yr ymchwil. Pan na fydd angen y data mwyach byddant yn cael eu gwaredu'n ddiogel.

Oherwydd natur y broses o gasglu data, a oedd yn cynnwys ffotograffau a recordiadau sain, roedd yn bwysig sicrhau mai dim ond y plant a gymerodd ran yn yr astudiaeth oedd wedi'u cynnwys. Er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw blant eraill yn cael eu cynnwys yn y broses o gasglu data, cwblhawyd gweithgareddau gydag ymchwilwyr mewn lle ar wahân o fewn yr ysgolion. Cafodd hyn ei drafod gyda'r ysgolion ymlaen llaw.

Cafodd y rhieni / gofalwyr ac athrawon y plant a oedd yn cymryd rhan e-bost gyda gwybodaeth ar wahân a ffurflen gydsyniad ar gyfer cymryd rhan mewn cyfweiliad. Anfonwyd gwahoddiad cychwynnol i rieni/gofalwyr a chysylltwyd â nhw ar ddau achlysur arall, naill ai dros y ffôn neu drwy e-bost, os na chydabuwyd y gwahoddiad cychwynnol. Os nad oedd y gwahoddedigion wedi ymateb erbyn y trydydd gwahoddiad, barnwyd nad oeddent yn dymuno cymryd rhan ac nid anfonwyd gwahoddiadau pellach. I'r rhai a ddewisodd gyfweiliad ac a roddodd gydsyniad, fe'u hatgoffwyd ar ddechrau'r cyfweiliad y gallent roi'r gorau i gymryd rhan ar unrhyw adeg a gallant wrthod ateb unrhyw gwestiynau os nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus wrth wneud hynny.

Nodiadau ar fethodoleg: Grwpiau wedi'u hymyleiddio a'r bobl y mae'r ymchwil yn eu cyrraedd

Hoffem nodi tri phwynt am y methodoleg a ddefnyddiwyd

- 1) Mae'r ymchwil hon o natur ansoddol ac nid yw'n anelu at fod yn gyffredinol i bob plentyn yng Nghymru, er ein bod yn disgwyl bod y canfyddiadau'n adlewyrchu'r sefyllfa ar gyfer nifer uchel iawn o blant. Mae gan bob un o'r 30 o blant sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth hon gyd-destun gwahanol lle bydd ffactorau gwahanol yn berthnasol. Effeithiodd ffactorau o ran cartrefi ar brofiadau plant, rhieni a gofalwyr yn ystod y cyfnod hwn; Bydd hyn yn wir am bob plentyn.
- 2) Yn foesebol, mae heriau ynghlwm wrth geisio sicrhau mynediad at leisiau ymylol o fewn grŵp nad yw'n cael ei glywed yn aml - nid oedd rhai disgyblion yn cael ymgysylltu oherwydd ymddygiad 'gwael' a chafodd rhai lleisiau eu monitro a'u gwanhau gan leoliadau pan ddywedon nhw bethau yr oedd oedolion yn eu canfod yn broblemus. Er i hyn ddigwydd yn anaml, er hynny, roedd yn debygol o fod wedi effeithio ar ba ddata a gasglwyd, yn benodol o ran plant y barnwyd bod eu hymddygiad yn heriol neu yr oedd ganddynt ADY.
- 3) Hoffem nodi hefyd nad oedd modd cynnwys plant a oedd yn mynychu lleoliadau nad oeddent yn cael eu cynnal. Teimlwn fod hyn wedi cyfyngu ar y data a gasglwyd a hoffem glywed eu lleisiau mewn astudiaeth yn y dyfodol.

Prif ganfyddiadau

Y chwe phrif thema a ddeilliodd o'r data oedd:

1. Colli ffrindiau ac ymdeimlad o golled
2. Pwysigrwydd y teulu a'r cartref
3. Pwysigrwydd yr ysgol a mwynhad o'r ysgol
4. Dysgu o bell gydol pandemig COVID-19
5. Heriau addysgu rhwng y cyfnodau clo
6. Yr effeithiau mwy hirdymor a'r gwersi a ddysgwyd

Trafodir pob un o'r themâu hyn yn eu tro. Dylid nodi, er mai bwriad yr ymchwil oedd casglu gwybodaeth am brofiadau eang yn ystod y pandemig, roedd llawer o'r cyfranogwyr, y plant a'r oedolion fel ei gilydd, wedi canolbwyntio ar y cyfnodau clo yn eu hymatebion. Y grŵp blwyddyn a ddangosir yw grŵp blwyddyn y plentyn adeg casglu'r data.

Thema 1: Colli ffrindiau ac ymdeimlad o golled

Y thema gychwynnol a ddeilliodd o'r data, a oedd yn gyffredin yn y data gan y plant, yr athrawon a'r rhieni/gofalwyr, oedd bod plant yn siarad am golli rhywbeth ac ymdeimlad o golled. Cafodd y thema hon ei rhannu ymhellach i golli pobl, colli lleoedd, colli gweithgareddau, a diffyg rhyddid/teimlo'n ynysig.

Colli pobl

Agwedd allweddol ar y thema o golli ac ymdeimlad o golled oedd colli pobl. Roedd yna bwyslais gwirioneddol ar fethu bod gyda chyfoedion a dywedodd nifer o blant: "Collais weld fy ffrind" (Plentyn 14, Blwyddyn 3). Yn ffigur 1 mae plentyn wedi tynnu llun o rai o'r pethau roedd yn eu colli, ac mae hyn yn cynnwys athrawon a ffrindiau o'r ysgol (gweler ffigur 1).



Ffigur 1: Colli ffrindiau (Plentyn 16, Blwyddyn 3).

Wrth drafod dysgu ar-lein, dywedodd un plentyn (Plentyn 14, Blwyddyn 3) "Ie, nid ydych yn cael chwarae gyda nhw. Y cyfan rydych chi'n ei wneud yw dangos iddyn nhw ar-lein, chwarae'r gêm ac yna allwch chi ddim [eu gweld] nhw. Dydych chi ddim yn gallu gweld pawb ar yr un pryd".

Roedd un arall yn cymharu dysgu ar-lein gyda'r ysgol o ran y bobl maen nhw'n eu gweld:

"Pan fyddwch ar Zoom ni allwch weld eich ffrindiau ond pan fyddwch yn yr ysgol mae'n wahanol iawn oherwydd gallwch weld eich ffrindiau wyneb yn wyneb."

(Plentyn 12, Blwyddyn 1)

Siaradodd rhieni ac athrawon hefyd am effaith y diffyg cymdeithasu ar eu plant "Rwy'n meddwl ei bod wedi colli cymdeithasu gyda'i ffrindiau fwyaf" (Rhiant/Gofalwr Plentyn 16, Blwyddyn 3). Dywedodd athro bod plant wedi colli eu ffrindiau a dywedodd ei bod yn beth da iddyn nhw "weld eu ffrindiau am eu bod nhw wir wedi colli eu ffrindiau. Felly hyd yn oed os oedd hi'n gipolwg bach arnyn nhw ar y sgrin, roedden nhw'n mwynhau hynny'n fawr" (Athro 3, Blwyddyn 3).

Gwnaeth y plant hefyd siarad am golli eu hathrawon "Roeddech chi'n gallu gweld eich mam a'ch tad ond doeddech chi ddim yn gweld yr athro, roedd hynny'n beth drwg, roeddwn i'n gweld ei eisiau" (Plentyn 14, Blwyddyn 3) a methu gweld aelodau ehangach o'r teulu:

Ymchwilydd: "Beth arall oeddet ti'n ei golli?"

Plentyn 14, Blwyddyn 3: "Fy nheulu."

Ymchwilydd: "Mae dy teulu'n byw yn Lloegr, onid ydyn nhw? A sut deimlad oedd hynny?"

Plentyn 14, Blwyddyn 3: "Trist, achos ro'n i'n gweld eisiau nhw."

Teimlo'n ynysig a diffyg rhyddid

Agwedd ganolog ar y thema o golli ac ymdeimlad o golled, oedd diffyg rhyddid a phrofiadau plant o ynysu cymdeithasol ac unigrwydd. Mae'n anochel bod y cyfyngiadau a osodwyd gan gyfnodau clo cenedlaethol wedi effeithio ar ryddid plant. Dywedodd y plant nad oedden nhw'n gallu gwneud y pethau roedden nhw'n eu mwynhau y tu allan i'r cartref fel mynd i'r ysgol, gwneud gweithgareddau cyfoethogi, na gweld eu ffrindiau. Er enghraifft, nododd plant "Pan oeddwn i yn y cyfnod clo, doeddwn i ddim yn hoffi'r ffaith nad oedden ni'n gallu mynd i'r ysgol. Roeddwn i'n gweld eisiau'r ysgol" (Plentyn 3, Blwyddyn 1) a "Ro'n i'n colli'r theatr... oherwydd doeddwn i ddim yn gallu mynd yno" (Plentyn 27, Blwyddyn Derbyn).

Gwnaeth plentyn arall drafod natur heintus y feirws a dangosodd ddealltwriaeth o fwriad y cyfyngiadau a osodwyd yn genedlaethol.

"A hefyd, doedd holl bobl y byd ddim yn cael mynd allan chwaith, a doedd gan rai pobl ac eraill ddim COVID am eu bod nhw'n aros yn y tŷ".

(Plentyn 22, Blwyddyn 1)

Siaradodd y plant am brofi teimladau negyddol o ganlyniad i beidio â gweld eraill, a gwnaethant nodi eu bod wedi teimlo'n "drist" (Plentyn 23, Blwyddyn 1) am beidio â gallu chwarae gyda'u ffrindiau a "theimlo ychydig bach yn drist achos do'n i ddim yn cael gweld fy athro a fy ffrindiau" (Plentyn 15, Blwyddyn 3).

Nododd athro hefyd fod plant wedi profi ynysu cymdeithasol yn sgil cau ysgolion gydag un athro yn datgan, "Caeodd fy nosbarth am bythefnos, wyddoch chi, mae'n lot, ac yna roedd plant wedi'u hynysu" (Athro 1, Blwyddyn 1). Codwyd pryderon pellach gan rieni ac athrawon ynghylch unigrwydd plant nad oes ganddynt frodyr a chworydd i ryngweithio â nhw yn gymdeithasol yn y cartref.

"Dyna'r unigrwydd eto oherwydd mae hi'n unig blentyn ac nad oes ganddi felly frodyr a chworydd i chwarae gyda nhw gartref na phlant eraill i redeg o gwmpas gyda hi".

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 1, Blwyddyn 1)

"Rwy'n meddwl bod llawer wedi'i chael hi'n anodd, chi'n gwybod, roedd gen ti rai fyddai'n mynd allan a thorri'r rheolau a bydden nhw'n mynd i gwrdd â phobl. Ond roedd 'na blant oedd yn sownd gartref os nad oedd ganddyn nhw frodyr a chworydd neu hyd

yn oed os oedd ganddyn nhw frodyr a chwiorydd roedd y dadlau'n elfen gymdeithasol. Roedd hyn yn anodd iawn i fi".
(Athro 1, Blwyddyn 1)

Colli mynd i leoedd a gwneud pethau

Siaradodd y plant am golli mynd i leoedd a gwneud pethau yn ystod pandemig COVID-19:

"Doeddwn i ddim yn cael mynd i ddawnsio achos doeddwn i ddim yn cael mynd i leoedd oherwydd y feirws". (Plentyn 21, Blwyddyn 1)

Dyweddodd y plant "nad oeddent yn cael mynd i unman" (Plentyn 11, Blwyddyn 1) a'u bod wedi "cholli mynd i rywle" (Plentyn 26, Blwyddyn Derbyn) yn ystod pandemig COVID-19. ac yn arbennig roedd y lleoedd hyn yn fannau lle byddai'r plant yn ymgymryd â gweithgareddau cyfoethogi. Er enghraifft, nododd y plant "Collais y ganolfan chwarae" (Plentyn 29, Blwyddyn 1), "Collais y traeth" (Plentyn 29, Blwyddyn 1) ac roeddent wedi colli "mynd i leoedd, fel canolfan laser" (Plentyn 5, Blwyddyn 1). Gellir gweld enghraifft o hyn yn ffigur 2 lle mae plentyn blwyddyn 3 wedi tynnu llun o'r campau (pêl-fasged) yr oedd yn eu colli.



Ffigur 2: Colli gwneud chwaraeon yn ystod y cyfnod clo (Plentyn 15, Blwyddyn 3).

Roedd llawer o'r pethau roedd plant wedi colli eu gwneud neu'r lleoedd roedd plant wedi colli mynd iddynt yn gysylltiedig â chwaraeon neu'n cynnwys ymarfer corff, gyda'r rhain yn cynnwys dawns, pêl-droed, criced a phêl-fasged. Siaradodd plant hefyd am sut maen nhw bellach wedi aildechrau gwneud y gweithgareddau hyn.

"Chi'n gwybod hyfforddiant pêl-droed, rwy'n chwarae i [tîm chwaraeon] ar ddydd Sul. Rwy'n codi am 9 o'r gloch y bore i chwarae gyda sawl tîm gwahanol a heddiw rwy'n mynd i ddysgu sut i wneud triciau pêl-droed fel fflic enfys a beic a rheiny i gyd".
(Plentyn 29, Blwyddyn 1)

Soniodd rhiant hefyd am y ffordd y profodd plant ddiflastod gan nad oeddent wedi gallu mynd i leoedd na gwneud pethau, gan nodi, "maen nhw wedi diflasu chi'n gwybod.

Doedden nhw ddim yn gallu mynd i unman. Ac roedden nhw eisiau rhywbeth i'w hysgogi" (Rhiant/Gofalwr Plentyn 12, Blwyddyn 1). Yn ogystal â gweithgareddau cyfoethogi neu corfforol, siaradodd plant ymhellach am golli mynd i'r ysgol.

"Ro'n i'n colli mynd i'r ysgol ym Mlwyddyn Un. Ac roedd rhaid i chi wneud y cyfan ar y cyfrifiadur yn lle mynd i mewn i'r ysgol".
(Plentyn 18, Blwyddyn 3)

"Ro'n i'n colli'r ysgol".
(Plentyn 14, Blwyddyn 3)

Nododd y plant fod rhai gweithgareddau penodol yn gysylltiedig ag addysg yn yr ysgol yr oedden nhw wedi colli eu gwneud neu ymwneud â nhw. Er enghraifft, darllen gyda'u hathro neu "y gwobrau seren" (Plentyn 16, Blwyddyn 3) lle byddai plant yn cael gwobr am gyflawniad neu nod arbennig yn yr ysgol.

Plentyn 16, Blwyddyn 3: "Roedd 'na wobrau dwy seren... Os ydych chi'n gweithio'n dda iawn efallai y byddwch chi'n cael gwobr seren."
Ymchwilydd: "Felly, roeddech chi'n dal i gael gwobrau sêr er eich bod chi'n gweithio ar-lein?"
Plentyn 16, Blwyddyn 3: "[Na] doedden ni ddim yn gallu cynnal gwobrau'r sêr ar-lein a dyna pam rwy'n ei roi yn fy mocs trist" [Yn y Gweithgaredd Bocs Cadw a Thafllu].

Roedd y ffaith bod y plant yn colli allan ar y gweithgareddau addysgol hyn yn yr ysgol neu'n colli'r cyfle i fynd ar deithiau addysgol hefyd yn destun pryder i riant a oedd yn poeni bod y plentyn wedi colli allan ar brofiadau addysgol a cherrig milltir oherwydd cau ysgolion a chyfyngiadau COVID-19.

"Y ffaith eu bod nhw wedi colli allan ar gymaint, chi'n gwybod, bydd fy mhentyn hynaf yn mynd i'r ysgol uwchradd ym mis Medi ac mae e wedi colli allan ar ddwy flynedd o addysg. Dyw fy ieuengaf ddim wedi cael blwyddyn iawn yn yr ysgol. Wyddoch chi, felly mae'r ffaith eu bod nhw wedi colli allan ar gymaint, chi'n gwybod, tripliau ysgol, ac o ran fy mhentyn hynaf y tripliau preswyl, chi'n gwybod, stwff fel 'na".
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 8, Blwyddyn 1)

Colli mwynhau cyfnodau dathlu

Yn y gweithgaredd 'Beth yw fy mynd' gwnaeth y plant dynnu lluniau a thrafod pwysigrwydd a mwynhad o'r Nadolig, y Pasg, Calan Gaeaf a phen-blwyddi, a thrafodwyd hefyd sut nad oedd y digwyddiadau/gweithgareddau hyn yr un fath yn ystod pandemig COVID-19. Dangosodd hyn fod y plant yn cydnabod sut y gwnaeth y cyfyngiadau a osodwyd effeithio ar sut roedden nhw'n gallu dathlu adegau penodol o'r flwyddyn ac ar bwy roedden nhw'n gallu dathlu'r amseroedd gyda nhw:

Ymchwilydd: "Felly, aros gartref wnest ti?"
Plentyn 21, Blwyddyn 1: "Ie, doedden ni ond yn cael aros yn y tŷ, doedden ni ddim yn cael mynd i leoedd. Doedden ni ond yn cael yn y tŷ dros y Nadolig."



Ffigur 3: Llun plentyn o bwysigrwydd y Nadolig (Plentyn 21, Blwyddyn 1).

Ar yr un pryd, nododd y plant hefyd sut roedd technoleg ar-lein yn cefnogi rhyngweithio cymdeithasol a thrafodwyd sut y cafodd technoleg ei defnyddio i ddathlu digwyddiadau Nadoligaidd. Er i blentyn ddweud nad oedd yn mwynhau dymuno pen-blwydd hapus i bobl ar-lein a'i fod yn colli mynd i bartïon, roedd yn cydnabod bod technoleg o leiaf yn caniatáu iddyn nhw ddweud pen-blwydd hapus.

Plentyn 14, Blwyddyn 3: "Roedd rhaid i fi dymuno pen-blwydd hapus i bobl ar-lein."
Ymchwilydd: "Ydy hynny'n beth da?"

Plentyn 14, Blwyddyn 3: "Doedd o ddim yn beth da. Doeddech chi ddim yn gallu mynd i bartïon, ond roeddech chi'n gallu dweud pen-blwydd hapus ar-lein."

Yn gyffredinol, roedd y data a gasglwyd gan y plant yn ymwneud â'r ffaith nad oeddent wedi gallu treulio'r Nadolig gyda theulu neu ffrindiau o'r tu allan i'w haelwyd. Fodd bynnag, siaradodd un plentyn am sut y gwelon nhw eu teuluoedd estynedig dros gyfnod y Nadolig gan ddweud, "Mewn gwirionedd, dros y Nadolig, aethon ni i'w gweld [yn cyfeirio at ei gefndryd yn Llundain]" (Plentyn 3, Blwyddyn 1).

Thema 2: Pwysigrwydd y teulu a'r cartref

Roedd yr ail thema yn seiliedig yn bennaf ar ddata gan blant a rhieni; roedd hyn yn dangos bod y cyfnodau clo wedi arwain at weld teuluoedd yn treulio amser gyda'i gilydd ac yn defnyddio'r amser cynyddol hwn gyda'i gilydd i ymgysylltu â'r awyr agored, dysgu, a gweithgareddau a oedd ar gael mewn ffordd fwy personol, a oedd yn canolbwyntio ar lesiant a mwynhad y plant. I'r gwrthwyneb, roedd y data ynghylch y thema hon hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y teulu estynedig, byw y tu allan i gartrefi cyfranogwyr, gan nad oedd plant naill ai'n gallu eu gweld yn ystod y cyfnod clo, neu'n ddibynnol arnynt am ofal plant neu gefnogaeth gyda dysgu ar-lein.

Amlygodd y data bwysigrwydd y teulu, y teulu estynedig ac anifeiliaid anwes i blant, drwy fwynhau mwy o amser gyda'i gilydd a'r gofid a achoswyd yn sgil methu treulio amser gyda'i

gilydd. Yn ogystal, daeth yn amlwg bod aelodau'r teulu yn bwysig o ran llwyddiant plant i gael mynediad at ddysgu ar-lein. Yn gysylltiedig â hyn roedd data a oedd yn pwysleisio'r gallu cynyddol i dreulio amser y tu allan a chyda natur, yn ogystal ag amser i blant wneud pethau roeddent yn eu mwynhau, ochr yn ochr â'u dysgu.

Mwy o amser gyda'r teulu a mwynhau aros gartref

Mynegodd plant lawer o werthfawrogiad am gael mwy o amser gyda'u teuluoedd. Roedd y cynnydd hwn mewn amser gyda rhieni, gofalwyr a brodyr a chwiorydd yn tueddu i gael ei gyfleu fel canlyniad positif o'r cyfnodau clo.

"Ro'n i'n hoffi, ro'n i wrth fy modd yn treulio amser gyda fy mam".
(Plentyn 26, Blwyddyn Derbyn)

"Rwy'n hoffi bod gartref oherwydd eich bod yn treulio mwy o amser gyda'ch teulu. Mae fy mrawd yn fach ac mae e'n bedair. Ac rwy'n hoffi chwarae gyda fe achos mae e'n ddoniol iawn."
(Plentyn 18, Blwyddyn 3)

"Ac yn y cyfnod clo o'n i'n eitha hoffi e achos o'n i'n cael treulio amser gyda fy [mhlentyn]".
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 12, Blwyddyn 1)

Cafodd budd y cyfnod hwn gyda'i gilydd ei gydnabod gan athrawon hefyd, a chydabuwyd bod y ffaith bod plant wedi treulio mwy o amser gyda'u teuluoedd mewn gwirionedd wedi creu profiadau a rennir unigryw.

"Ymunodd llawer o'r brodyr a chwiorydd â'r gwersi. Brodyr a chwiorydd iau a hŷn. ie, hŷn, a bydden i'n cael lot o'r plant o'r adran iau yn ymuno yn fy ngwersi, oedd yn hyfryd, achos roedd o'n amlwg yn brofiad cyffredin ac roedd hynny'n rhywbeth y dylwn i fod wedi sôn amdano'n gynharach, roedd hynny'n bositif mawr bod teuluoedd yn cymryd llawer mwy o ran yn yr addysg. Roedd hynny'n neis."
(Athro 1, Blwyddyn 1)

Roedd aros gartref hefyd wedi rhoi mwynhad penodol i blant fel aros yn y gwely, cael eu teganau a chysuron cartref eraill wrth law, a chael bod yn eu pyjamas.

Ymchwilydd: "Beth fyddet ti'n ei gymryd o'r ysgol hon i dy ysgol newydd?"
Plentyn 10, Blwyddyn 1: "Fy neinosoriaid a'm deinosoriaid Lego. Dim ond fy mhobl Lego a'm deinosoriaid a'm gobennydd."
Ymchwilydd: "Byddet yn mynd â dy obennydd. Rwy'ti'n hoffi dy gobennydd, dwyt?"
Plentyn 10, Blwyddyn 1: "Ydw. Ro'n i'n hoffi gorwedd yn y gwely a gwyllo'r teledu".
(Plentyn 23, Blwyddyn 1)

Pwysigrwydd y teulu a'r teulu estynedig

Un o'r ffyrdd y dangosodd y data bwysigrwydd y teulu oedd y ffaith bod blant wedi nodi eu bod yn colli rhai aelodau o'r teulu oherwydd eu bod yn byw yn bell i ffwrdd, ac felly nid oedden nhw wedi teithio i ymweld â nhw yn ystod cyfnodau o'r pandemig.

Plentyn 9, Blwyddyn 1: "Dyna fy nain mae'n byw yn Sbaen."
Ymchwilydd: "O mae e'n Sbaen, yw e?"
Plentyn 9, Blwyddyn 1: "Ie"
Ymchwilydd: "Oeddech chi'n arfer mynd i weld eich taid?"

Plentyn 9, Blwyddyn 1: "Uh, es i Sbaen o'r blaen ond dydw i ddim yn cofio achos roedd e'n amser maith yn ôl."

Fodd bynnag, i rai plant, gwnaeth technoleg helpu i wneud iawn am absenoldeb corfforol aelodau'r teulu.

Ymchwilydd: "A beth am dy deulu?"

Plentyn 13, Blwyddyn 3: "Nes i golli fy nheulu."

Ymchwilydd: "Gallai gredu hynny."

Plentyn 13, Blwyddyn 3: "Dywedodd fy nhad fy mod i'n gallu gweld fy nheulu ar fy nhabled a'm ffôn."

Ymchwilydd: "Felly roeddech chi mewn cysylltiad ar eich tabled a'ch ffôn."

Plentyn 13, Blwyddyn 3: "Ie."

Ymchwilydd: "Oeddet ti'n gallu eu gweld ar Zoom a..."

Plentyn 13, Blwyddyn 3: "Ie. Roedden nhw'n defnyddio sgriniau a fideo."

Ymchwilydd: "Sut oeddech chi'n teimlo wrth eu gweld ar y sgrin?"

Plentyn 13, Blwyddyn 3: "Ychydig bach yn hapus."

Roedd rhieni, gofalwyr ac athrawon hefyd wedi nodi pwysigrwydd y teulu estynedig o ran gofal plant a chymorth gyda dysgu ac addysg yn ystod y pandemig.

"Roedd y bechgyn yn yr hyb chi'n gwybod o hanner awr wedi naw i hanner awr wedi dau ac wedyn roedd gyda ni wahanol neiniau a theidiau i edrych ar eu holau nhw ... roedd gennym ni (hefyd) fy rhieni yng nghyfraith oedd yn gofalu amdany'n nhw ar ddydd Gwener, felly y rhan fwyaf o'r amser, fydden nhw ddim yn gwneud unrhyw ddysgu ar ddydd Gwener gyda fy nheulu yng nghyfraith, yn fwy na thebyg."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 22, Blwyddyn 1).

Pwysigrwydd anifeiliaid anwes

Fe wnaeth un athro gydnabod bod datblygiad dysgu ar-lein wedi golygu bod plant yn gallu dangos eu hanifeiliaid anwes i'w ffrindiau.

"Jyst dweud pethau wrthon ni am y tŷ neu gael pethau oedd yn bersonol iddyn nhw ac oedd pethe'n cael eu dangos ar y sgrin. Ac rwy'n gwybod bod fy nghi wedi ymddangos, a gwnaeth y disgyblion fwynhau hynny".
(Athro 3, Blwyddyn 1/2)

Roedd plant yn aml yn siarad am eu hanifeiliaid anwes fel aelodau pwysig o'u teuluoedd. Roedd rhai plant hefyd wedi nodi'r ffaith bod gallu chwarae mwy gyda'u hanifeiliaid anwes yn un o'r agweddau positif ar y cyfnod clo a dysgu gartref.

Ymchwilydd: "A phwy ydyn nhw?"

Plentyn 20, Blwyddyn 2: "Roxy, butch, sipsi, ci bach ydy sipsi, ac fe allai ffitio yn fy nwylo"

Ymchwilydd: "Felly roeddet ti'n chwarae gyda nhw neu'n mynd allan gyda nhw yn ystod COVID neu beidio?"

Plentyn 20, Blwyddyn 2: "Oeddwn"




Ffigur 4: Llun plentyn o'i anifeiliaid anwes (Plentyn 20, Blwyddyn 2).

Treulio amser yn yr awyr agored a chyda natur

Dyweddodd llawer o rieni a rhoddwyr gofal eu bod wedi treulio amser y tu allan yn yr amgylchedd naturiol yn ystod y cyfnod hwn:

Ymchwilydd: "Oes unrhyw beth yn yr ysgol hon efallai, achos yn yr ysgol hon does dim pandemig, dim COVID, nad ydych chi wedi gallu ei wneud oherwydd y pandemig yr hoffech chi ei wneud yma yn yr ysgol hon, oherwydd ni fydd pandemig?"

Plentyn 21, Blwyddyn 1: "Ni'n chwarae y tu allan".



Ffigur 5: llun plentyn o chwarae yn yr agored gyda beic a siglen

Gwnaeth nifer o'r plant gynnwys agweddau amrywiol ar fyd natur a'r awyr agored yn eu darluniau gydol y gweithgareddau. Rhannwyd pwysigrwydd hyn yn fras yn ddau fater: colli gallu cael mynediad at rai pethau fel meysydd chwarae; a mwynhau'r amser ychwanegol a dreuliodd y tu allan ac ym myd natur yn ystod y cyfnodau clo. Roedd coed, anifeiliaid, a'r tywydd yn nodweddion cyffredin o luniau'r plant:

"Rwy wedi tynnu llun o gwningen ar ben yr ysgol gyda moron a rhyw laswellt a blodau a choeden gyda nythod ac aderyn a hefyd seren sgleiniog iawn a haul yn yr awyr."

(Plentyn 2, Blwyddyn 1)

Nododd un rhiant fod y cyfyngiadau a osodwyd ar gymunedau o ganlyniad i gyfnodau clo wedi arwain at lawer mwy o ymgysylltu â byd natur a mwy o amser y tu allan.

Ymchwilydd: "Oes yna unrhyw ganlyniadau cadarnhaol eraill a brofodd [Plentyn 24] o ganlyniad i ddysgu ar-lein?"

Rhiant/Gofalwr Plentyn 24, Blwyddyn Derbyn: "Mae'n debyg, fel mwy o ymarfer corff. Ni'n mynd allan i gerdded tipyn, mae ganddon ni lot o goedwigoedd o'n cwmpas ni yma o gwmpas y tŷ a [maen nhw'n hoffi] mynd mewn i'r goedwig. Felly, ry'n ni'n cerdded ac yn gwneud pethau trwy'r amser."

Yn ogystal, cydnabuwyd y gwahaniaethau rhwng y cyfnod clo cyntaf a'r ail gyfnod clo. Gan fod y cyfnod clo cyntaf wedi digwydd ar ddechrau'r Gwanwyn, roedd yn ymddangos fod y tywydd braf wedi cynyddu awydd plant i dreulio amser yn yr awyr agored:

"Roedd yr haul yn tywynnu, ym mis Mawrth, roedd y pwll allan yn yr ardd, y trampolîn allan. Beth arall oedd ei angen? Ac roedd hi'n wyliau."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 11, Blwyddyn 1)

"Yn amlwg, roedd hi'n dywydd braf, felly roedd o eisiau bod allan yn yr ardd."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 15, Blwyddyn 3)

Thema 3: Pwysigrwydd yr ysgol a mwynhad o'r ysgol

Thema a amlygwyd ar draws y data a gasglwyd gan y plant, y rhieni a'r athrawon oedd pwysigrwydd yr ysgol a mwynhad o'r ysgol ac amgylchedd yr ysgol, yn ogystal â mwynhad cyfnodau dathlu a gwyliau arbennig.

Rhodddwyd llu o resymau pam yr oedd plant a rhieni yn gwerthfawrogi ysgolion ac athrawon penodol ac yn eu hystyried yn bwysig. Roedd y rhain yn cynnwys y ffaith bod athrawon yn cael eu hystyried yn rhan gwbl allweddol o'r broses ddysgu, plant yn colli'r ysgol a gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth yn ystod y pandemig, a phlant yn colli rhyngweithio cymdeithasol wyneb yn wyneb ag athrawon.

Pwysigrwydd amgylchedd yr ysgol

Dangosodd y canfyddiadau fod plant fel petaent yn mwynhau'r ysgol, a dywedodd rhai plant, "Rwy'n hoffi'r ysgol" (Plentyn, 28, Blwyddyn 1) a honnodd rhiant "ei fod wrth ei fodd yn mynd i'r ysgol" (Rhiant/Gofalwr Plentyn 30, Blwyddyn 1). Agwedd ganolog ar bwysigrwydd a mwynhad y thema ysgol oedd pwysigrwydd amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Roedd amgylchedd yr ystafell ddosbarth yn cael ei ystyried yn allweddol i gefnogi dysgu plant, boed o ran yr amgylchedd ffisegol ei hun, neu'r gefnogaeth wyneb yn wyneb gan athrawon o fewn amgylchedd yr ystafell ddosbarth.

"Rwy'n meddwl bod peidio â bod yn yr amgylchedd dosbarth yna gyda chefnogaeth gan yr athrawon, a chi'n gwybod, ei ffrindiau, fe jyst, doedd ganddo e ddim cymhelliant. Felly, roedd rhaid i ni roi llawer o gymhellion i'w ddarbwylllo i wneud y gwaith. Ond mae'n ddigon galluog i wneud yr hyn a ddywedwyd. Dwi'n meddwl mai diffyg diddordeb oedd e oherwydd yr amgylchedd."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 15, Blwyddyn 3)

Roedd rhieni'n gweld bod eu plant yn llai parod i gymryd rhan mewn dysgu o fewn amgylchedd y cartref o'i gymharu ag amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Roedd diffyg diddordeb mewn dysgu o fewn amgylchedd y cartref, anesmwythyd gyda dysgu ar-lein a oedd yn defnyddio meddalwedd fideo ac absenoldeb athrawon a phlant ysgol eraill oll yn ffactorau a briodolir i heriau i blant sy'n ymgysylltu â dysgu o fewn y cartref.

Siaradodd y plant hefyd am golli cael gwneud gweithgareddau addysgol o fewn amgylchedd yr ystafell ddosbarth.

Ymchwilydd: "Beth wyt ti'n ei olygu pan fyddi di'n dweud y bydd hon [yr ysgol mae'r plentyn wedi tynnu llun ohoni lle nad oes pandemig COVID] yn ysgol hapusach?"

Plentyn 14, Blwyddyn 3: "Does dim rhaid dysgu gartref."

Ymchwilydd: "Felly, fydden nhw ddim yn gorfod dysgu popeth gartref. Ble fyddai'n well gennyt ti ddysgu?"

Plentyn 14, Blwyddyn 3: "Yn yr ystafell ddosbarth."

Ymchwilydd: "Pam hynny?"

Plentyn 14, Blwyddyn 3: "Oherwydd ti'n gallu gwneud pethau gwahanol."

Pwysigrwydd athrawon

Nododd canfyddiadau cynharach [Adran 1.1 ac ati] fod plant wedi profi colli eu hathrawon tra bo'r ysgolion ar gau yn ystod pandemig COVID-19. Nododd rhai o'r plant "Rwy'n colli'r athrawon" (Plentyn 23, Blwyddyn 1) a "Collais rai o'm hathrawon" (Plentyn 3, Blwyddyn 1).



Ffigur 6: Plentyn yn colli ei hathro (Plentyn 20, Blwyddyn 2).

Mae'r pwyslais hwn ar blant sy'n colli pobl yn ystod pandemig COVID-19, ac yn yr achos hwn athrawon, yn ganfyddiad allweddol yn yr ymchwil hon. Gwelwyd bod absenoldeb corfforol athrawon yn yr amgylchedd dysgu hefyd yn cael effaith niweidiol ar ymgysylltiad plant â chyfleoedd dysgu.

Ymchwilydd: "Plentyn 16, pan oeddet ti adre, yn y cyfnod clo, sut oedd hi'n wahanol pan nad oeddet ti'n mynd i'r ysgol, a dy fod yn aros gartref gyda dy fam i ddysgu?"

Plentyn 16, Blwyddyn 3: "Doeddwn i ddim yn gallu gweld fy athro. A doeddwn i ddim yn gallu dysgu'n iawn achos mae gen i lawer o bethau i'w gwneud pan o'n i'n styc gartref."

Gwnaeth y rhieni hefyd drafod y ffaith nad oedd eu plant yn ymgysylltu â'u dysgu oherwydd absenoldeb athro a bod y plant yn anfodlon gwrandao ar eu rhieni.

"I fod yn onest, dydy'r rhan fwyaf o blant ddim yn gwrandao ar y rhieni nhw nac ydy?... Y sefyllfa yw'r peth, achos ein problem ni oedd absenoldeb athro." (Rhiant/Gofalwr Plentyn 3, Blwyddyn 1).

Nododd y rhieni pa mor heriol oedd cydbwysu eu rôl fel rhiant a'r ffaith y bu'n rhaid iddynt hefyd chwarae rhan fwy amlwg o fewn eu haddysg. Gwthiodd y pandemig rai rhieni i gynyddu eu lefelau o ymgysylltu â dysgu o fewn y cartref ac arweiniodd at well dealltwriaeth ymysg rhieni ynghylch natur heriol dysgu.

Ymchwilydd: "A beth yw'r gwersi pwysig a ddysgwyd o effaith COVID-19 ar addysg Plentyn 16?"

Rhiant/Gofalwr Plentyn 16, Blwyddyn 3: "Rwy'n meddwl, wel, dysgu am y gwaith da y mae athrawon yn ei wneud. Doeddwn i ddim yn sylweddoli pa mor anodd yw hi i wneud eu gwaith. Rwy hefyd wedi gweld faint y mae'n elwa ar yr ysgol."

Thema 4: Dysgu o bell gydol pandemig COVID-19

Nod yr ymchwil oedd rhoi sylw i brofiadau plant ifanc a chanfyddiadau o ddysgu ar-lein yn ystod y pandemig. O ran dysgu o bell, nododd y data: y newid i ddysgu ar-lein; gwneud gweithgareddau ar-lein yn lle wyneb yn wyneb; y defnydd cynyddol o dechnoleg a dyfeisiau digidol; a'r ffaith bod disgyblion yn ffafrio dysgu wyneb yn wyneb. Teimlai rhai fod pandemig COVID wedi arwain at fwy o reolaeth gan blant dros eu dysgu a gwelliant o ran rhai sgiliau plant. Roedd y ffin rhwng bywyd ysgol a bywyd y cartref yn llai eglur. Cymysg oedd y darlun o ran sut y cefnogwyd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a byddai angen gwaith pellach i archwilio hyn yn well.

Newid i ddysgu ar-lein

Roedd canfyddiadau gwahanol grwpiau o gyfranogwyr mewn perthynas â'r newid i ddysgu ar-lein yn amrywio. Roedd ymatebion y plant yn canolbwyntio ar y mwynhad – neu'r diffyg mwynhad – o weithgareddau dysgu ar-lein; roedd ymatebion y rhieni a'r gofalwyr yn adlewyrchu anawsterau o ran addasu i arferion a phrosesau newydd, yn ogystal ag ymarferoldeb y broses o newid; ac roedd sylwadau athrawon yn canolbwyntio mwy ar y gwahaniaeth o ran ansawdd y canlyniadau a ddeilliodd o ddysgu ar-lein.

Dywedodd Athro 2 (Blwyddyn Derbyn) nad oedd yr ymgysylltu â dysgu ar-lein ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf " yn wych". Roedd hyn yn cyd-fynd â sylwadau gan rieni yn esbonio bod addasu i'r drefn newydd, yn ogystal â mynd i'r afael â'r ffiniau aneglur rhwng y cartref a'r ysgol, yn golygu bod dysgu ar-lein yn "gryn frwydr y rhan fwyaf o ddiwrnodau" (Rhiant/Gofalwr Plentyn 15, Blwyddyn 3).

Cafodd rhai anawsterau o ran y newid eu rhannu gan blant a rhieni fel ei gilydd. Disgrifiodd Plentyn 29 (Blwyddyn 1) yr agwedd gymdeithasol ar y profiad fel un "brawychus" gan fod 'menyw' ar y sgrin nad oedden nhw'n ei hadnabod. Dywedodd Plentyn 29 (Blwyddyn 1) hefyd bod "gweithio ar y cyfrifiadur... yn cymryd amser hir". (Rhiant/Gofalwr Plentyn 20, Blwyddyn 2)

Roedd Plentyn 7 (Blwyddyn 1) yn teimlo bod "llawer o siarad a llawer o ysgrifennu" o'i gymharu â dysgu yn yr ysgol. Unwaith eto, ategwyd y syniad hwn gan Riant/Gofalwr Plentyn 11 (Blwyddyn 1), a ddywedodd 'Nid wyf yn credu ei fod yn ddigon ysgogol', pan ofynnwyd iddo am brofiad Plentyn 11 (Blwyddyn 1) o ddysgu ar-lein.

Beirniadwyd yn ogystal yr anawsterau gyda sain. Dywedodd Plentyn 12 (Blwyddyn 1) ei bod hi'n "anodd clywed yr athro" yn ystod gwersi ar-lein. Ategwyd pa mor rwystredig oedd hyn gan Riant/Gofalwr Plentyn 1 (Blwyddyn 1) wrth esbonio sut cafodd ansawdd sain - ac fellya ansawdd y dysgu – ei lesteirio wrth i "30 o blant oll siarad ar yr un pryd".

Aeth Athro 1 (Blwyddyn 1) i'r afael â'r ffaith bod ansawdd y gwaith gorffenedig yn is o'i gymharu â'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig o ddysgu yn yr ysgol "hefyd wedi canfod fy mod yn gadael neu'n gwneud gwers gan eu gadael yn gweithio ar-lein. Nid dyma'r safon a fyddai'n cael ei chynnal yn yr ysgol". Ar ben hynny, nododd rhiant rwystredigaethau tebyg gyda'r rhyngwyd a'r ffaith bod eu plentyn yn casáu defnyddio meddalwedd fideo-gynadledda a gyfrannodd at y sefyllfa lle na wnaeth y plentyn ymuno â gwersi byw.

"Wel, dydy ein rhyngwyd ni ddim yn wych. Felly weithiau, wyddoch chi, fyddai'r rhyngwyd ddim yn gweithio, a doedden ni methu ei gysylltu a dydy o ddim yn hoffi bod ar gamera beth bynnag. Felly, ni fyddai'n ymuno â'r sesiynau byw, oherwydd doedd e ddim yn hoffi bod yno. Os yw'n brysur yn gwneud rhywbeth arall ar y pryd, mae'n casáu bod rhywun neu rywbeth yn torri ar ei draws".
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 8, Blwyddyn 1)

Cafodd rhiant arall brofiadau heriol wrth geisio ennyn diddordeb eu plant mewn dysgu os oedden nhw'n profi annifyrrwch neu mewn hwyliau negyddol.

"Os a phan wnaethon nhw ddeffro o'r diwedd a doedd hi ddim mewn hwyliau da, chi'n gwybod..., doeddech chi byth yn mynd i gael canlyniad positif a doedd dim pwynt".
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 13, Blwyddyn 3)

Er gwaethaf y teimlad negyddol a ddeilliodd o drafodaethau'n ymwneud â newid i ddysgu ar-lein, nododd rhieni o bob un o'r ysgolion sut oedd y profiad wedi gwella ar ôl i'r plant gyfarwyddo â'r drefn newydd.

"Ond oedd, roedd hi'n anodd i ddechrau. Ond llwyddon ni i sefydlu rhyw fath o drefn. Yn y diwedd roedden ni'n ei wneud o ddydd Llun i ddydd Gwener, ond ddim ar amser penodol, rwy'n meddwl."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 16, Blwyddyn 3)

Nododd un rhiant fod eu plant wedi ymgysylltu gymaint â'u trefn newydd o ddysgu ar-lein nes eu bod yn amharod i ddychwelyd i'r ysgol:

"Wel, fe ddechreuon nhw fwynhau'n fawr. Ac wedyn roedden nhw'n deall eu bod yn cael mynd nôl i'r ysgol nawr. Ond doedden nhw ddim eisiau gwneud hynny."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 8, Blwyddyn 1)

Adnoddau dysgu

"Braidd yn ddiflas gan na allwch wneud y pethau y gallwch eu gwneud yn yr ysgol gartref. Mae'r holl bethau sydd eu hangen arnoch yn yr ysgol ond ddim gartref"
(Plentyn 18, Blwyddyn 3)

O ran adnoddau dysgu, gwnaeth y data ynghylch plant, athrawon a rhieni ddangos yn glir nad oedd gan rai plant fynediad at yr adnoddau yr oedd eu hangen arnynt ar gyfer dysgu o fewn y cartref. Pan ofynnwyd i riant pa ffactorau eraill allai fod wedi effeithio ar addysg eu plentyn fe nododd "ar wahân i'r rhyngwyd, diffyg adnoddau yn y cartref" (Rhiant/Gofalwr Plentyn 8, Blwyddyn 1). Dywedodd athro hefyd " yn ein dalgylch, mae gennym ni dipyn o deuluoedd nad oes ganddynt fynediad at bethau" (Athro 3, Blwyddyn 3).

Arweiniodd pryderon am fynediad at adnoddau ar gyfer dysgu at ysgolion yn dosbarthu amrywiaeth o adnoddau deuluoedd.

"Os nad oedd ganddyn nhw ddyfeisiau gartref i ddysgu, fe wnaethon ni ddweud y bydden ni'n darparu papur, copïau o lyfrau gwaith a phensiliau iddyn nhw. Felly, roedd wedi trefnu'r cyfan yn y swyddfa. Felly, fe wnaethon nhw lyfrynau. Darparwyd casau pensil a llyfrau gwaith iddynt, ac ar gyfer y cyfnod sylfaen yn benodol fe wnaethon ni argraffu llwythi o daflenni gwaith a gwahanol ddarnau ychwanegol os oedden nhw eisiau hynny hefyd."

(Athro 1, Blwyddyn 1)

Siaradodd yr athrawon hefyd am ddysgu i wneud tasgau y gallai pob plentyn eu gwneud er mwyn sicrhau y gallai pob plentyn elwa ar gyfleoedd dysgu.

"Ond hefyd mae'n dibynnu ar y tasgau rydych yn eu gosod, chi'n gwybod, os ti angen llwyth o adnoddau, a phethau fel'na, ni fydd plant yn gallu cwblhau gweithgareddau a phethau fel'na, mae'n rhyw fath o ddibynnu ynde, mae'n dibynnu be' ydy o, ac a oes angen i'r gweithgareddau gael eu cyflwyno i chi, mae modd gwneud hynny a dyna oedden nhw eisiau. Felly, rwy'n credu bod angen i unrhyw dasgau fod yn eang iddyn nhw, fel arall, dydyn nhw ddim yn rhai sydd ar gael i bawb".

(Athro 4, Blwyddyn 3)

I fynd i'r afael â heriau anghydraddoldebau o ran mynediad at gyfleoedd ac adnoddau dysgu, awgrymodd un rhiant y gallai ysgolion gydweithio â rhanddeiliaid addysgol eraill i gynllunio a dosbarthu pecynnau dysgu gartref a all gynnig cyfleoedd cyfartal i holl blant Cymru.

"Yn y rhanbarth mae pob athro ac ysgol yn dod ynghyd i gynllunio math o addysg debyg, addysg. Hynny yw, pecynnau Dysgu Cartref neu rywbeth tebyg. Ac fel hyn gall pawb gael cyfle cyfartal i wella eu sgiliau drwy Gymru gyfan, o bosibl. Felly os gall un awdurdod wneud hynny, byddai hynny'n helpu holl blant Cymru. Yn yr un modd, maen nhw'n gallu gwella eu sgiliau, ni fyddan nhw'n hepgpr unrhyw beth ac ni fyddan nhw yn wahanol i ysgol arall neu rywbeth fel 'na".

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 17, Blwyddyn 3)

Defnydd cynyddol o dechnoleg a dyfeisiau digidol

Un o'r materion y tynnwyd sylw ato o ran dysgu o bell oedd yr angen i sicrhau bod gan bob plentyn a theulu fynediad at y rhyngwrwyd drwy ddyfeisiau addas. Nododd Athro 1 fod "sicrhau bod gan bawb ddyfeisiau a rhyngwrwyd" yn un o'r agweddau mwyaf hanfodol ar y newid i ddysgu ar-lein. Heb y rhain byddai plant yn cael eu hynysu, heb unrhyw fynediad at ddysgu, oni bai fod hawl ganddynt i fynychu darpariaeth hyb. Rhannodd un plentyn ei werthfawrogiad o'r ysgol am gael menthyg dyfeisiau:

Plentyn 11, Blwyddyn 1: "Roeddwn i'n hoffi iPad yr ysgol"
Ymchwilydd: "Ie, gwnaeth yr ysgol fenthyg iPad i ti, do?"

Roedd rhai plant yn casáu'r defnydd cynyddol o dechnoleg:

Athro 8, Blwyddyn Derbyn/1: "Oeddet ti'n hoffi'r cyfrifiaduron?"
Plentyn 30, Blwyddyn 1: [Ysgwyd pen]

Gwnaeth plentyn arall fynegi rhwystredigaeth ynghylch ansawdd llwyfannau cyfathrebu ar-lein ar sawl achlysur, mewn perthynas â dysgu gyda'i athro a chymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol:

Plentyn 12, Blwyddyn 1: "Do'n i ddim yn hoffi'r darllen ar-lein"

Ymchwilydd: "Na? Pam ddim?"

Plentyn 12, Blwyddyn 1: "Oherwydd doedd y cyswllt ddim yn gweithio pan oedd hi'n darllen y stori ac felly o'n i methu clywed yn iawn".

Er gwaethaf yr agweddau negyddol a rannwyd gan y plant mewn perthynas â'r cynnydd sydyn mewn defnyddio technoleg i gael mynediad at ddysgu a gweithgareddau eraill, roedd y rhieni a'r gofalwyr yn fwy cadarnhaol am effeithiau'r newid. Rhannodd Athro 3 (Blwyddyn Derbyn) fod plant, sydd bellach yn ôl yn yr ysgol, yn fwy tebygol o ddefnyddio TG mewn gwersi oherwydd eu gallu cynyddol, eu bod yn fwy cyfarwydd gyda thechnoleg a'u bod yn fwy hyderus gyda'r dechnoleg. Ategwyd hyn gan riant:

"Rwy'n meddwl y bydd y genhedlaeth hon yn fwy medrus, gyda'r holl stwff TG a'r math rhithiol o, chi'n gwybod, stwff ar-lein? ... mae wedi ein gorfodi ni a nhw ... i hynny gael ei normaleiddio dwi'n meddwl, i beidio bod yn gyfarwydd. Dydw i ddim yn meddwl y byddai hynny wedi digwydd fel arall."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 18, Blwyddyn 3)

Fodd bynnag, siaradodd rhiant arall am y manteision posib ehangach o ran y byddai plant yn fwy hyderus wrth ddefnyddio technoleg:

"Mewn gwirionedd, rwy'n credu y gall dysgu digidol ddatblygu galluoedd cymdeithasol plant neu eu cymwyseddau dysgu, rwy'n credu hynny."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 3, Blwyddyn 1)

Ffario dysgu wyneb yn wyneb

Mynegwyd rhai o'r anawsterau mewn perthynas â'r newid i ddysgu ar-lein a'r cynnydd yn y defnydd o dechnoleg mewn sylwadau a oedd yn dangos bod dysgwyr yn ffario dysgu wyneb yn wyneb. Rhannwyd y teimlad hwn ar draws yr holl grwpiau a oedd yn rhan o'r astudiaeth.

"Hmm do'n i ddim yn hoffi bod ar y cyfarfodydd [Zoom], o'n i eisiau mynd i'r ysgol".
(Plentyn 21, Blwyddyn 1)

Roedd yr angen i blant gael trefn glir o ran eu haddysg yn rheswm allweddol dros ffario dysgu wyneb yn wyneb.

"Roedd weithiau'n gwrthod cymryd rhan yn ei wersi ar-lein, oherwydd doedd o ddim yn gallu deall sut i eistedd yn llonydd ac yn dawel a gwranddo ar ei athrawon, roedd yn anodd iawn, yn enwedig bryd hynny, dim ond pum mlwydd oedd e."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 3, Blwyddyn 1)

"Ym, dwi'n meddwl bod angen y drefn achos pan oeddech chi yn yr ysgol rydych chi'n gwybod ein bod ni wedi cael trafferth gyda'r peth, ond doedd o ddim wedi'i strwythuro yna fel yn yr ysgol felly mae'n bendant yn bositif ei fod e nôl mewn amgylchedd dosbarth"
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 7, Blwyddyn 1)

Gwnaeth un plentyn feirniadu'r gweithgareddau a ddarparwyd yn ystod dysgu o bell am ei fod yn teimlo eu bod yn rhy hawdd. Mae'n bosibl fod y ffiniau aneglur rhwng y cartref a'r ysgol hefyd wedi ychwanegu at ei sylw dilynol:

Ymchwilydd: "Ok, ok a sut oeddet ti'n teimlo yn y cyfnod clo pan nad oedd gen ti ysgol?"

Plentyn 2, Blwyddyn 1: "Trist."

Ymchwilydd: "Pam hynny felly?"

Plentyn 2, Blwyddyn 1: "Achos rwy'n hoffi dysgu."

Er hynny, ailadroddodd Plentyn 12 (Blwyddyn 1) rwystredigaeth Plentyn 2 (Blwyddyn 1) ynghylch dysgu a'r ffaith ei fod yn ffafrio bod yn yr ysgol:

Plentyn 12, Blwyddyn 1: "Doeddwn i ddim yn hoff iawn o'r cyfnod clo (chwerthin)"

Ymchwilydd: "Na. Pam nad oeddet ti'n ei hoffi?"

Plentyn 12, Blwyddyn 1: "Roedd e'n ofnadwy. Rwy'n hoffi, ro'n i eisiau bod nôl yn yr ysgol."

Ymchwilydd: "Felly'r diwrnod hwnnw pan fyddwch chi'n cerdded yn ôl i'r ysgol brydferth hon, sut rwy'ti'n teimlo?"

Plentyn 12, Blwyddyn 1: "Dw i mor hapus"

Roedd y data a gasglwyd gan athrawon hefyd yn ategu'r ffaith bod dysgu wyneb yn wyneb yn cael ei ffafrio. Yn benodol, roedd yr anawsterau o ran gwahaniaethu adborth a chefnogaeth ac anawsterau wrth geisio ymateb i anghenion plant yn broblematic:

"Ac rwy'n ceisio eu helpu nhw dros y sgrin, ond heb fod yno yn gorfforol. Ac roeddwn i'n gweld hynny'n anodd iawn, iawn. Pan oedd y plant ifanc yn y dosbarth, byddwn i, yn eu gweld nhw'n cael trafferth gyda llythyren a bydden ni'n eistedd i lawr, byddech chi'n eu helpu nhw a dangos iddyn nhw. Doeddwn i ddim yn gallu gwneud hynny dros y sgrin."

(Athro 2, Blwyddyn Derby)

Wrth bwysu a mesur y ffaith bod plant wedi mabwysiadu ac wedi cyfarwyddo â threfn newydd wrth ddysgu o bell, soniodd Athro 1 (Blwyddyn 1) am y ffaith y gallai plant fod wedi bod yn amharod i ddychwelyd i'r ysgol pan oedd cyfle i wneud hynny, fodd bynnag:

"Rwy'n meddwl bod nhw'n meddw. na, byddai'n well gen i fod yn yr ysgol, gobeithio".
(Athro 1, Blwyddyn 1)

Er hynny, trafododd un plentyn un fantais o ddysgu o fewn y cartref o ran mwy o gefnogaeth gan oedolion yn ystod y cyfnod clo; Roedden nhw'n cydnabod bod y gymhareb oedolyn i blant yn yr ysgol yn llawer uwch o'i gymharu â'r cartref ac yn dangos gwerthfawrogiad o ran y gefnogaeth gynyddol a gafwyd wrth ddysgu gartref.

"Gan mai dim ond plant yn y dosbarth doeddwn i ddim yn gallu cael llawer o help achos dim ond dau athro oedd yna, ond mae un wedi gadael nawr felly mae'n debyg ei fod hyd yn oed yn anoddach. Ond pan rwy' adre dim ond dau ohonon ni sydd yna felly mae Mam yn gallu helpu fi ychydig mwy."

(Plentyn 16, Blwyddyn 3)

Rhagor o reolaeth gan blant dros eu dysgu

Un o'r themâu cadarnhaol a ddeilliodd o'r data yn ymwneud â dysgu o bell oedd y cynnydd mewn rheolaeth gan blant dros eu dysgu. Npdodd Rhiant/Gofalwr Plentyn 11 (Blwyddyn 1) sut roedd Plentyn 11 (Blwyddyn 1) yn chwilfrydig am y coronafeirws ac felly defnyddiodd amser dysgu o bell i ymchwilio'n annibynnol gan "ymchwilio i'r holl feirysau". Rhannodd

Rhiant/Gofalwr Plentyn 8 (Blwyddyn 1) bod eu plentyn "wedi datblygu mwy o sgiliau yn y cartref nag y byddai wedi gwneud yn yr ysgol."

Tra, roedd Rhiant/Gofalwr Plentyn 12 (Blwyddyn 1) yn teimlo eu bod yn "gwthio [Plentyn 12] lawer gormod" o ganlyniad i'r rheolaeth gynyddol dros ddysgu eu plentyn; roedden nhw'n teimlo eu bod nhw, ar ôl myfyrio, yn gallu cefnogi eu plentyn drwy lefelau cynyddol anodd o waith, efallai oherwydd bod y gefnogaeth un-i-un yn golygu y gallen nhw symud ymlaen yn gyflymach.

Roedd llawer o blant yn cofio'n annwyl am fwynhau "creu pethau" (Plentyn 8, Blwyddyn 1) a gwnaeth Plentyn 8 (Blwyddyn 1) hefyd baru'r atgof hwn gyda'r ffaith eu bod nhw'n "hoffi pan recordiwyd [gwersi]"; mae'r rheolaeth dros pryd y byddai dysgu'n digwydd, pryd y byddai cyfarwyddiadau'n cael eu cyrchu a pha mor aml, yn cyfeirio at ddull personol o ddysgu nad yw mor hawdd ei ddarparu o fewn amgylchedd byw yr ystafell ddosbarth.

O ran rhagor o reolaeth a'r cysylltiadau â phrofiad dysgu mwy personol, dywedodd Athro 4 (Blwyddyn 3):

"Rwy'n meddwl bod dysgu ar-lein yn rhoi cyfle iddyn nhw ddatblygu yn eu ffordd eu hunain. Ar sail y dosbarthiadau rwy wedi bod ynddyn nhw, lot ohonyn nhw, maen nhw'n cymharu eu hunain gyda'r plant yn y dosbarth. Felly, gartref, roedd hi'n bositif iddyn nhw ganolbwyntio ar eu dysgu eu hunain, a gallen nhw archwilio mewn unrhyw ffordd maen nhw eisiau. . Ac yna o ganlyniad, maen nhw'n mynd i ddatblygu eu sgiliau yn fwy effeithiol. Ac felly, rwy'n meddwl bod hynny'n bositif, efallai ei fod yn gweddu ychydig mwy i'w dysgu eu hunain."

Gwella sgiliau

Awgrymodd y data bod sgiliau TG wedi gwella o ganlyniad i ddysgu ac addysg yn ystod y pandemig. Roedd un rhiant/gofalwr yn cymharu sgiliau'r plant a fu'n dysgu ar-lein gyda rhai carfannau blaenorol o blant:

"Fel arfer ni fuaswn wedi disgwyl i unrhyw blentyn chwech/saith oed allu mewngofnodi i Teams".
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 7, Blwyddyn 1).

Cydnabuwyd y gwelliant hwn mewn sgiliau TG gan un athro hefyd, a nododd hefyd effaith hirdymor gadarnhaol posibl hyn:

"Rydyn ni athrawon yn llawer mwy agored i dechnoleg ac i wneud pethau ar-lein. Ac rwy'n meddwl, ie, jyst dwi'n meddwl bod cael y profiad yna wedi newid y ffordd maen nhw'n gweld technoleg a'r dysgu nawr".
(Athro 2, Blwyddyn Derbyn)

Yn ogystal â uwchsgilio o ran y defnydd o dechnoleg, mynegodd plant fwynhad o ymgysylltu â gweithgareddau celf, crefft a choginio amrywiol a gynyddodd eu sgiliau creadigol:

Ymchwilydd: "Felly pa fath o bethau oeddet t'n eu hoffi am ddysgu gartref?"

Plentyn 21, Blwyddyn 1: "Ie, lliwio, darllen, a lliwio, darllen a"

Ymchwilydd: "Na, mae hynny'n iawn."

Rhiant/Gofalwr Plentyn 21, Blwyddyn 1: "Dysgodd ddarllen yn y cyfnod clo cyntaf"

Ymchwilydd: "ie, o waw wnest ti"

Rhiant/Gofalwr Plentyn 21, Blwyddyn 1: "Fe ddysgon ni adre yndo, achos dim ond yn y dosbarth meithrin oedd hi, felly dyna sut wnaeth hi ddysgu darllen"

Gwanhau'r ffiniau rhwng bywyd yr ysgol a bywyd y cartref

Mae'r diffyg eglurder rhwng bywyd yr ysgol a bywyd y cartref yn thema a ddeilliodd o'r data mewn amryw o ffyrdd. Roedd y ffaith bod disgwyl i blant gwblhau gwaith ysgol tra'u bod gartref weithiau'n peri dryswch i blant. Roedd y ffaith bod plant yn teimlo dryswch ynglŷn â'r sefyllfa o gael eu eu dysgu gan eu rhieni yn gwaethygu'r sefyllfa.

"Ac felly, roedd ei annog i eistedd i lawr a gwneud unrhyw dasg am unrhyw hyd o amser yn gwbl amhosib, oherwydd dyw e, chi'n gwybod, dyw e ddim yn gwneud ysgol gartref, felly pam oedd yn rhaid iddo wneud e gartref doedd e ddim yn gallu deall hynny. Felly, ffin aneglur iawn... Doedd e ddim yn deall pam ei fod yn gwneud gwaith ysgol gartref."

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 30, Blwyddyn 1)

"Nid yw'n mynegi ei hun yn dda iawn. Weithiau bydde fe'n dweud, Mama ti ddim yn athrawes, ac mae athrawes yn gallu fy nysgu i felly doedd o ddim yn deall bod angen i Mama fod yn Mama ac angen i athrawes fod yn athrawes a pham oedd angen iddo wneud gwaith caled gartref. Weithiau roedd hi'n heriol iawn eu gorfodi i weithio."

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 4, Blwyddyn 1)

Mynegodd un gofalwr rwystredigaeth o ganlyniad i'r ffiniau aneglur rhwng y cartref a'r ysgol ac y byddai dysgu, ar adegau, yn amharu ar amser teuluol:

"Rwy eisiau amser i ymlacio oherwydd gwnaeth dysgu o bell amharu ar hyn yn y tŷ hwn."

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 11, Blwyddyn 1)

Dyweddodd un rhiant bod gormod o bethau yn y cartref i dynnu sylw'r plentyn oddi ar ei waith ysgol – roedd eu holl deganau gerllaw:

"Pan oedd gormod o waith ysgrifenedig yna mae'n debyg os oedd o'n eistedd yma am gyfnod mor hir, roedd yna ormod o bethau i dynnu ei sylw adre. Hynny yw, mae'n hawdd wedyn iddo ddweud rhywbeth fel O, wel, wyddoch chi, beth am hyn? Beth am hynny gartref? Rwy'n gwybod ei fod yn hoffi bod yn yr ysgol, ond gartref roedd llawer o bethau i dynnu ei sylw."

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 24, Blwyddyn Derbyn)

Roedd y cynnydd yn amser sgrîn pan oedd plant yn dysgu ar-lein yn peri anhawster iddyn nhw o ran canolbwyntio am gyfnodau estynedig:

"Roedd dysgu dros y we yn rhyfedd yn y dechrau, ac roedd cael y rhieni i ddarbwyllio eu plant i eistedd ac mewn gwirionedd aros o flaen y sgrin yn eithaf anodd ei wneud weithiau, wyddoch chi, roedden nhw eisiau mynd i ffwrdd a gwneud pethau eraill."

(Athro 3, Blwyddyn Derbyn)

Crybwyllodd un rhiant broblemau cymdeithasol yn ogystal; Mae cymdeithasu ac ymgysylltu â dysgu ar-lein yn wahanol iawn i gymdeithasu a dysgu yn yr ysgol.

"Felly dwi'n meddwl mewn amgylchedd athro ac ystafell ddosbarth byddai hynny'n gweithio ond pan oedd o yn y tŷ, roedd o dipyn bach yn swil i fod wyneb yn wyneb, roedd o'n meddwl nad oedd yn hoffi i bawb edrych arno fo felly fydden ni ar-lein ond weithiau bydden i yn y fideo a bydde fe yna ond byddai ei wyneb yno [yn pwyntio at ei hysgwydd] ie, felly wnaethon ni drïo, doedden ni ddim yn ei wneud bob dydd roedden ni'n trio ar ddydd Llun a dydd Mawrth gan nad oeddwn i'n gweithio bryd hynny"

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 22, Blwyddyn 1)

Disgrifiodd un rhiant yr heriau a oedd ynghlwm wrth ymgymryd â rôl athro a'r ffaith mai gwneud y ffiniau rhwng y cartref a'r ysgol yn fwy aneglur oedd 'y peth anoddaf i mi orfod ei wneud' (Rhiant/Gofalwr Plentyn 12, Blwyddyn 3). I'r rhiant hwn, roedd ffactorau cyd-destunol wedi dwysáu hyn gan ei bod newydd roi genedigaeth i fabi newydd ac roedd yn wrthi'n mabwysiadu'r plentyn oedran ysgol oedd ag AAA.

"Jyglô babi ac yna ceisio eistedd gyda fy merch ... mae hi ar ei hôl hi ac roedden ni'n ceisio eistedd yno a'i helpu hi gymaint ag y gallwn ni ond dydw i ddim yn athrawes ... Rwy'n ymdopi â babi newydd-anedig... Mae gen i fabi yn crïo ond mae hi'n gofyn cwestiynau i mi... Mae'n swnio'n galed, ond ro'n i eisiau iddi fynd nôl i'r ysgol achos ro'n i'n gwybod ei bod hi angen hynny ac rwy'n gwybod y byddai hi wedi bod yn well ganddi fynd i mewn i'r ysgol... mae bod yn rhiant a bod yn athrawes yn ddwy swyddogaeth wahanol iawn.....allwch chi ddim ymlacio gyda'r nos pan fydd hi wedi mynd i'r gwely, rydych chi'n ceisio cynllunio ar gyfer y diwrnod canlynol. ... roedd yn rhaid i chi gynllunio'r taflenni (gwaith)ar gyfer y cyfnod nesaf."

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 12, Blwyddyn 3)

Gwnaeth tad Plentyn 12 fynegi ymdeimlad o rwystredigaeth dros orfod ymgymryd â rôl yr athro tra hefyd ymdopi ag agweddau eraill ar fywyd:

"Doedden ni ddim yn teimlo ein bod ni'n cyflawni unrhyw beth... Doedd hi ddim yn gallu cofio gwybodaeth...roedd yn teimlo fel brwydr gyson chi'n gwybod ein bod ni'n weithwyr llawn amser ar y pryd hefyd, felly roedd hi'n anodd ceisio cydbwysu'r cyfan... roedden ni'n brysur o hyd a ddim yn gwybod yn iawn beth oedd yr atebion .. sut i ddiwallu ei hanghenion orau."

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 12, Blwyddyn 3)

Darpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Cafwyd rhai trafodaethau'n ymwneud â'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a gwnaeth y rhieni a'r plant sydd ag ADY a gymerodd ran yn yr astudiaeth gyflwyno darlun gwahanol iawn o'u profiadau yn eu hysgolion. Yn Ysgol 4, roedd gan blant ag ADY dwys a chymhleth sesiynau dysgu un-i-un dyddiol ar-lein gyda Chynorthwydd Addysgu yn ystod yr ail gyfnod clo. Ochr yn ochr â'r gefnogaeth wedi'i theilwra hon, gwnaeth y rhieni ganmol yr athrawon yn agored am eu hymrwymiad i ddysgu eu plant.

"Ie, mae hi'n [athrawes] mor dda gyda fe... mae'n ymateb i bopeth y mae hi'n gofyn iddo ei wneud"

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 30, Blwyddyn 1)

Ategwyd y ganmoliaeth hon i gefnogaeth ac ymrwymiad athrawon i blant ag ADY ar draws yr ysgolion:

"Mae'n ysgol wych. Ni fyddai fy mhientyn hynaf wedi datblygu cystal heb y gefnogaeth hon. Mae ganddo anawsterau dysgu a phroblemau lleferydd, felly mae'r ysgol wedi bod yn arbennig o ran rhoi'r amser a'r ymdrech i drefnu help ychwanegol i mi"

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 8, Blwyddyn 1)

Thema 5: Heriau addysgu yn ystod pandemig

Cafodd ystod o heriau o ran addysg rhwng y cyfnodau clo eu nodi gan y plant, y rhieni/gofalwyr a'r athrawon. Roedd y rhain yn cynnwys dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnodau clo, cael mynediad at adnoddau dysgu/ysgol yn ystod y cyfnodau clo, dymuniad plant ac ysgolion i geisio atal lledaeniad COVID-19 ac anawsterau plant â'r 'system swigod' wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Fe wnaeth y pandemig a'r heriau hyn hefyd effeithio ar iechyd meddwl a llesiant plant, a gwnaeth y plant eu hunain ddweud eu bod wedi profi annifyrrwch, diflastod, dryswch a phryder.

Dychwelyd i'r ysgol

Siaradodd y plant am gollu eu teulu wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnodau clo. Nododd y plant "Ro'n i'n colli fy mam a fy chwaer a fy nhad" (Plentyn 16, Blwyddyn 3) a "Ro'n i'n colli fy rhieni oherwydd fy mod wedi treulio cymaint o amser gyda nhw" (Plentyn 17, Blwyddyn 3). Roedd canfyddiadau o safbwyntiau rhieni/gofalwyr yn dangos bod eu plant wedi profi teimladau cymysg iawn mewn perthynas â dychwelyd i'r ysgol, gyda rhai plant yn teimlo'n bositif am ddychwelyd i'r ysgol a rhai plant yn profi teimladau mwy negyddol fel gorbryder. Er enghraifft, siaradodd rhai rhieni am y ffordd y gwnaeth eu plentyn ddychwelyd i'r ysgol yn ddidrafferth iawn a hynny yn fwy na thebyg oherwydd eu bod yn gyffrous ynghylch cael gweld eu ffrindiau neu oherwydd nad oeddent wir wedi deall faint o amser yr oeddent wedi'i dreulio i ffwrdd o'r ysgol. Mae'r darn isod yn rhoi enghraifft o gyfweiliad ar-lein rhwng yr ymchwilydd a Phlentyn 30 a'r rhiant:

"Dydw i ddim yn meddwl, rwy'n credu ein bod yn poeni efallai y byddai'n newid mawr am gymaint o amser, ond wnaeth gartrefu yn syth fel nad oedd erioed wedi bod i ffwrdd... Does ganddo ddim cysyniad o amser felly mae'n debyg nad oedd yn sylweddoli pa mor hir yr oedd wedi bod i ffwrdd. Felly, efallai roedd mynd yn ôl o bosibl fel dychwelyd ar ôl gwyliau arferol chwe wythnos felly ie doedd 'na ddim petruso. Doedd yna ddim problemau wrth fynd yn ôl. Ac roedd e jyst yn falch o weld ffrindiau"

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 30, Blwyddyn 1)

Ar y llaw arall, gwnaeth rhieni eraill drafod sut roedd eu plant wedi cael trafferth addasu wrth ddychwelyd i'r ysgol (gweler y ddau ddyfyniad isod), a'u bod yn teimlo bod y newid hwn wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant eu plant.

"Roedd e'n ei chael hi'n anodd, i ddechrau. Roedd eisiau ros adref, doedd e ddim eisiau mynd i'r ysgol. Unwaith roedd o yno, roedd o'n iawn. Ond roedd hi'n anodd ei gael e yno. Byddai'n dweud nad oedd eisiau mynd yno ac y byddai'n well ganddo aros adref. Roedd hi'n braf iddo weld ei ffrindiau. Roedd yn drefn ryfedd iddo. Ond roedd fel petai'n ymdopi'n eithaf da".

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 8, Blwyddyn 1)

"Rwy'n credu ei fod wedi mynd ychydig yn bryderus, efallai oherwydd y cyfnod clo, herwydd rwy'n cofio pan oedd yn y meithrin, wnaeth o ddim crio wrth fynd i'r ysgol... Maer cyfnod yn sicr wedi'i wneud yn fwy pryderus. Fel y dywedoch chi, mae'n crio

wrth fynd i mewn i'r ysgol ac mae'n gwisgo amddiffynwyr yn ei glustiau yn yr ysgol oherwydd y sŵn a'r pethau eraill, efallai oherwydd roedd hi mor dawel am gymaint o amser adref".

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 22, Blwyddyn 1)

Ar ben hynny, soniodd un rhiant am sut roedd rhai agweddau ar ddychwelyd i'r ysgol nad oedd eu plentyn wedi'u mwynhau:

"Fe wnaeth hi ddweud pan aeth hi nôl i'r ysgol nad oedd hi'n ei hoffi oherwydd nad oedden nhw'n gallu cofleidio eu ffrindiau, na chyffwrdd â'i ffrindiau, doedd e ddim yr un peth. Roedd hi'n mwynhau bod nôl yn yr ysgol, ond doedd hi ddim yn mwynhau cymaint ag oedd hi cyn COVID".

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 21, Blwyddyn 1)

Nododd yr athrawon fod pryderon ynghylch y newid yn ôl i'r ysgol o ran dychwelyd i drefn benodol a gwnaethant nodi "eu bod yn blino'n gyflym iawn. Wyddoch chi, roedd y dwylo'n brifo" (Athro 3, Blwyddyn Derbyn).

"Maen nhw hefyd wedi cael trafferth dod yn ôl i'r drefn o ysgrifennu eto, darllen. Maen nhw'n iawn nawr, ond mae'n debyg i'r gwahaniaeth chi'n gweld pan maen nhw'n dod 'nôl ym mis Medi".

(Athro 1, Blwyddyn 1)

Ar ben hynny, nododd rhiant hefyd sut roedd eu plentyn wedi blino'n gorfforol yn sgil dychwelyd i'r ysgol.

"Buaswn i'n dweud mai'r unig beth negyddol yn yr wythnos gyntaf neu ddwy, oedd y ffaith ei fod e'n eitha' blinedig yn gorfforol. Ond rwy'n meddwl mai'r rheswm am hynny, oedd ei fod yn dychwelyd i ddiwrnod chwech awr a hanner ac aildechrau codi am 6:30/7".

(Rhiant/Gofalwr Plentyn 15, Blwyddyn 3).

Siaradodd yr athrawon hefyd am y ffaith bod plant wedi colli eu gallu i fod yn annibynnol, i fod yn amyneddgar ac i aros eu tro, sydd oll yn sgiliau a allai fod wedi'u datblygu ym mlynnyddoedd cynnar yr ysgol – y blynyddoedd yr oedd y plant wedi'u colli.

"Fel eu sgiliau cymdeithasu, eu gallu nhw i fod yn annibynnol, eu gallu nhw i aros eu tro, mae bron fel bod popeth wedi symud, byddai popeth o'n i'n ei wneud yn y dosbarth derbyn wedi cael ei wneud yn y dosbarth meithrin, fel bod aros eich tro, y chwarae, datrys problemau gyda'ch gilydd sy'n digwydd yn naturiol drwy chwarae achos does dim cymaint o ddysgu ffurfiol, roedd 'na lot mwy o hynny, o'n i'n teimlo fel mod i'n mynd nôl lefel a bod y plant gymaint mwy anghenus, yn y bôn roedden nhw wedi cael blwyddyn ychwanegol adre."

(Athro 6, Blwyddyn 1/2)

Er bod yna bethau cadarnhaol wedi deillio o gefnogaeth un-i-un gan rieni, priodolodd yr athrawon yr heriau yr oedd plant yn eu hwynebu wrth ddychwelyd i'r ysgol i'r ffaith bod plant wedi derbyn cefnogaeth un i un gan rieni o fewn y cartref, a bod plant wedi colli allan ar flwyddyn o addysg sy'n sylfaenol i ddatblygiad y sgiliau hyn.

Camau i atal COVID-19 a masgiau

Roedd y plant yn ymwybodol o'r ffordd yr effeithiodd y coronafeirws ar eu bywydau ac roedd un plentyn yn dangos dealltwriaeth o sut roedd y broses frechu'n allweddol er mwyn gallu dychwelyd i'r gweithgareddau y byddent yn eu gwneud cyn COVID-19.

"Roeddwn i jyst yn aros am rai dyddiau a rhai dyddiau, ond ddaethon nhw byth, ac yna pan ddechreuodd pobl gael y brechiadau a'r triniaethau eraill".
(Plentyn 19, Blwyddyn 2)

Soniodd un rhiant hefyd am sut oedd gan eu plentyn ddiddordeb yn y feirws a deall y gwahanol fathau o feirws.

"Mae e wir eisiau ymchwilio i'r holl firysau... Roedd e eisiau gwybod popeth... ac mae wedi dysgu llawer am y feirws".
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 11, Blwyddyn 1)

Nododd yr athrawon sut roedd rhieni'n teimlo'n bryderus ynghylch y ffaith bod y plant yn dychwelyd i'r ysgol a soniwyd bod rhai rhieni wedi dewis cadw eu plant i ffwrdd o'r ysgol.

"Roedd 'na sawl plentyn oedd yn cael eu cadw i ffwrdd. Roedd llawer o rieni'n hynod bryderus, neu roedd ganddynt aelodau bregus o'r teulu yr oedd yn gofalu amdanynt neu'n byw gyda nhw. Felly, roedd yna ambell i riant a ddywedodd, na, rwyf am gadw fy mhientyn i ffwrdd".
(Athro 1, Blwyddyn 1)

Yn ddiddorol, nododd athro hefyd fod cefnogaeth yr ysgolion i blant a rhieni a chanfyddiad teulu o ddysgu cyfunol wedi newid dros gyfnod y pandemig. Er i'r cyfnod clo cyntaf weld yr ysgol yn canolbwyntio'n bennaf ar gynig cefnogaeth fugeiliol a gwirio llesiant teuluoedd, gwelodd yr ail gyfnod clo fwy o ffocws ar addysg.

"Roedd popeth ar gau, ac roedd pawb yn gwylio'r teledu ac yn aros i'r clefyd angheuol yma ddod i'n lladd ni i gyd. Ac roedd pawb wir yn canolbwyntio ar hynny ac yn aros yn ddiogel. Ac rwy'n credu bod hynny wedi llywio canfyddiadau pobl o'r hyn roedden nhw eisiau o ddysgu cyfunol mewn ysgolion hefyd. Cafodd ei addasu cychydig, yna ar gyfer yr ail un, roedd mwy o ddefnydd o'r sgrin, gan ofyn i ddisgyblion gyflwyno aseiniadau lle nad oedd y pwysau hwnnw mewn gwirionedd yn y cyfnod clo cyntaf. Yn y cyfnod cyntaf roedd o'b fater o gefnogi a gofalu am lesiant er roedd hynny hefyd yn wir am yr ail gyfnod clo".
(Athro 1, Blwyddyn 1)

O ran gwisgo masgiau, fe siaradodd un plentyn am sut na wnaeth y masgiau atal y feirws rhag lledaenu gan ddweud bod angen "gwneud masgiau'n fwy amddiffynnol oherwydd nad oedden nhw yn ei atal" (Plentyn 14, Blwyddyn 3). Gwnaeth Rhiant/Gofalwr y plentyn hefyd nodi sut roedd y plentyn wedi teimlo'n rhwystredig wrth i bobl wisgo masgiau yn ystod y pandemig gan fod hynny wedi golygu nad oedd y plentyn wedi gallu adnabod eraill.

Anawsterau gyda swigod

"Doedden ni ddim yn gallu cymysgu swigod bellach. Doedden ni ddim yn gallu gwneud dim o'r pethau yna a doedden ni ddim yn gallu mynd i'r ffreutur bellach. Doedden ni ddim yn gallu hoffi mynd ar faes chwarae 3D ein gilydd i chwarae gemau

pêl-droed go iawn, doedden ni ddim yn gallu gwneud hynny bellach. Doedden ni ddim yn gallu gwneud dim o'r pethau yna. Nawr gallwn ni ddechrau eto".
(Plentyn 15, Blwyddyn 3)

Roedd bod yn rhan o gymuned ehangach yr ysgol yn bwysig i'r plant, boed o ran rhannu amser cinio a chwarae gyda ffrindiau neu fynychu gwasanaethau ysgol. Dangosodd y data yn glir fod gweithredu 'swigod' mewn ysgolion wedi cael effaith ar allu plant i gymdeithasu ag eraill. Er enghraifft, nododd y plant sut roedd y swigod wedi cyfyngu ar eu rhyddid a'u gallu i gymdeithasu, "Alla i ddim mynd i lawr y grisiau a chymysgu swigod oherwydd bod fy ffrindiau i lawr grisiau" (Plentyn 16, Blwyddyn 3) a "pan ddaeth COVID bu'n rhaid i ni fwyta yn ein hystafelloedd dosbarth yn lle'r neuadd" (Plentyn 18, Blwyddyn 3).

Nododd athro dosbarth hefyd fod y systemau 'swigod' ar ôl dychwelyd i'r ysgol wedi creu heriau gan nad oedd plant yn gallu cymysgu na chymdeithasu gyda phlant y tu allan i'w dosbarth neu swigen.

"O ran y swigod, cawsom ein cloi yn ein dosbarthiadau ein hunain. A phan fydden ni'n mynd allan, dim ond gyda'r flwyddyn nesaf roedden ni'n gallu rhannu'r dosbarth. Ac roedd ein iard wedi'i rannu. Ac roedd hynny'n anodd iawn achos doedd dim modd cymysgu o gwbl. Ond byddai'r plant yn sefyll ger y conau yn chwifio i'r dosbarth arall".
(Athro 1, Blwyddyn 1)

Soniodd un plentyn am orfod addasu sut y bu'n rhaid addasu'r ffordd o chwarae gyda ffrind oherwydd bod y swigod yn eu cadw ar wahân.

"Ry'n ni mewn swigod. Rwy' ar un ochr, ac mae hi ar yr ochr arall, ac rydyn ni'n rasio'n gilydd".
(Plentyn 16, Blwyddyn 3)

Soniodd y rhieni hefyd am effeithiau'r swigod ar hapusrwydd eu plant, gan nodi bod y swigod yn gwneud eu plant yn drist gan eu bod nhw'n cael eu gwahanu oddi wrth ffrindiau.

"Yr hyn sydd wedi peri'r gofid mwyaf eleni yw'r ffaith bod yna ddau ddosbarth mewn blwyddyn. A rhoddwyd ei ffrind gorau yn y dosbarth arall. Felly, nid ydynt yn cael chwarae gyda'i gilydd ar yr iard. Yn amlwg, dydyn nhw ddim yn cael cymysgu dosbarthiadau ac felly rwy'n meddwl bod hynny'n anodd".
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 16, Blwyddyn 3)

Roedd rhiant arall yn cydnabod sut roedd y system swigod a nifer y rheolau a weithredwyd yn yr ysgol yn her i'w plentyn, yn enwedig o ran rhyddid eu plentyn i gymdeithasu.

"Mae e dal i wynebu anawterau yn sgil y swigod. Mae'n blentyn cymdeithasol. Rwy'n meddwl ei fod wedi cymryd amser iddo ddeall nad oedd modd cymysgu swigod, doeddech chi ddim yn cael mynd i lawr y coridor yma. Mae'n rhaid ichi olchi eich dwylo fel ar ôl pob popeth rydych chi'n ei wneud".
(Rhiant/ Gofalwr Plentyn 15, Blwyddyn 3)

Serch hynny, roedd rhai athrawon yn cydnabod bod y system swigod yn cael ei gweithredu er mwyn ceisio sicrhau diogelwch plant sef ystyriaeth hollbwysig. Credai rhai athrawon fod sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel o fewn eu hamgylchedd hefyd yn cefnogi datblygiad plant.

"Hynny yw, rwy'n gwybod bod y swigod wedi achosi ambell i wrthdaro a phroblemau ond, mewn ffordd arall, rydych chi'n gwybod, rydyn ni'n gymuned agos iawn o fewn y dosbarth...Ac mae'r swigen yn ofod diogel i blant sydd ei angen. Mae hynny'n bositif iawn. Ac os yw'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn ddiogel ac yn fodlon, maen nhw'n mynd i allu datblygu, chi'n gwybod, i gyflawni hyd eithaf eu gallu os ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd hwnnw".
(Athro 4, Blwyddyn 3)

Rhwystredigaeth plant ac annhegwch

Siaradodd y plant am y ffaith nad oeddent wedi mwynhau'r cyfnod clo, a sut roedd y cyfnod clo yn creu teimladau o annifyrrwch a rhwystredigaeth mewn perthynas ag addysg a chyfyngiadau yn ehangach, a dywedodd un plentyn, "Roedd yn ofnadwy, rwy'n hoffi, roeddwn i eisiau bod yn ôl yn yr ysgol" (Plentyn 7, Blwyddyn 1). Fe wnaeth plentyn arall ddatgelu rhwystredigaeth arbennig wrth ymwneud â dysgu ar-lein gan ddweud:

"Achos weithiau pan ti ar Zoom, mae'r cyswllt yn annibynadwy felly weithiau mae'n anodd clywed beth mae'r athro'n ei ddweud go iawn".
(Plentyn 12, Blwyddyn 1)

Yn y data gan blant roedd trafodaeth hefyd ynghylch anfodlonrwydd â'r llywodraeth am eu gweithredoedd a'u llywodraethu, sy'n dangos bod gan blant iau rywfaif o ddealltwriaeth o'r llywodraeth a gwleidyddiaeth y tu ôl i benderfyniadau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19. Nododd y plant "Nid ein bai ni yw e, bai Boris yw e" (Plentyn 6, Blwyddyn 1) a "BJ, cafodd ei ddiswyddo oherwydd y cafodd barti yn y cyfnod clo" (Plentyn 5, Blwyddyn 1).

Yn ogystal, bu plentyn a rhiant arall yn trafod sut y gallai eu plentyn fod wedi gwrandao ar sgysiau a gafodd y teulu ynghylch y llywodraeth a Boris Johnson.

Ymchwilydd: "Beth doeddet ti ddim yn ei hoffi?"
Plentyn 13, Blwyddyn 3: "Y llywodraeth."
Rhiant/ Gofalwr Plentyn 13, Blwyddyn 3: "Mae'n rhaid bod hwnna jyst wedi bod fel 'achos ni'n gwyllo mwy o newyddion a phethau felly a beth bynnag. Ac yn amlwg mae 'na lot mwy o graffu nawr drostyn nhw dros y llywodraeth a phethau fel fan'na, 'achos dy'n ni ddim yn hynod wleidyddol yn y tŷ yma. Dydyn ni ddim yn eistedd i lawr i gynnal dadleuon enfawr na dim byd felly. Dim ond os yw'r newyddion ymlaen a'ch bod chi'n gwybod. Mae hynny'n gwneud synnwyr, beth bynnag y gallem fod wedi anghytuno yn ei gylch, efallai y byddai wedi derbyn hynny ac felly byddaf yn anghytuno ag ef hefyd."

Gofid a dryswch plant

Dangosodd y data yn glir fod plant wedi profi teimladau o ofn a dryswch yn ystod pandemig COVID-19, p'un a oedd hyn mewn perthynas â'r pandemig ei hun neu oherwydd effeithiau cyfnod clo'r pandemig, neu rai agweddau ar eu bywydau fel symud i ystafell ddosbarth wahanol.

Ymchwilydd: "Iawn. A beth am profiadau cyffredinol [plentyn] o ran ei ddysgu yn yr ysgol ers i'r pandemig ddechrau?"
Rhiant/Gofalwr Plentyn 28: "Beth ti meddwl cariad? Fe wnest ti ymdopi'n dda, ac roedd symud i ddosbarth gwahanol yn rhyfedd ar y dechrau."
Plentyn 28: "Roedd e mor rhyfedd."

Cafodd y teimladau o ofn hefyd eu trafod gan blentyn wrth drafod y pandemig a'r cyfnodau clo a dywedodd y plentyn "Fel, roeddwn i, yn ei weld e braidd yn frawychus, yn frawychus" (Plentyn 11, Blwyddyn 1). Nododd yr athrawon hefyd sut roedd ysgolion yn canolbwyntio ar gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

"O ran iechyd meddwl, mae'n rhywbeth y mae ein hysgol yn canolbwyntio'n fawr arno ac rydym wedi cefnogi ein disgyblion gyda'u materion emosiynol, unrhyw faterion emosiynol y gallen nhw eu profi. Rydyn ni wedi gwneud llawer o hyfforddiant ac mae llawer o'n staff wedi'u hyfforddi i ddelio â gorbryder, ond rydyn ni i gyd wedi cwblhau hyfforddiant ynghylch gorbryder a rheoli pryderon a phethau felly".
(Athro 2, Blwyddyn Derbyn)

"Felly, rwy'n credu ein bod wedi canolbwyntio llawer ar lesiant yn ogystal ag addysg, yn enwedig yn yr un cyntaf".
(Athro 1, Blwyddyn 1)

Er i rai rhieni godi pryderon ynghylch llesiant plant, roedd rhieni eraill o'r farn fod plant yn gymharol gadarn a gwnaethant nodi sut maen nhw wedi rhyfeddu at y ffordd maen nhw wedi delio â byw drwy bandemig COVID-19.

"Ie, ond dwi'n gwybod bod y plant i gyd wedi teimlo'n nerfus ynghylch dychwelyd, roedd hi'n ddieithr eto, doedden nhw jyst ddim yn gwybod beth oedd o'u blaenau ac roedd popeth i'w weld yn newydd, gyda chymaint o reolau gwahanol yr oedd yn rhaid iddyn nhw eu dilyn. Roedd pethau mor wahanol ac efallai mai dyna oedden nhw'n nerfus amdano, ond roedden nhw'n iawn, mae plant yn eithaf cadarn dydyn; chi'n gwybod eu bod nhw'n eithaf da gyda phethau".
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 21, Blwyddyn 1)

"Mae'n anhygoel i feddwl, chi'n gwybod, pa mor gadarn oedden ni i gyd, y plant hefyd. Roedden ni'n lwcus mewn gwirionedd gyda'r ddau ohonyn nhw. Dydw i ddim yn meddwl bod yr un ohonyn nhw wedi dioddef yn feddylol yn ystod y cyfnod".
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 18, Blwyddyn 3)

Diflastod ac undonedd

Nododd y plant a'r rhieni fod plant wedi profi diflastod ac undonedd yn ystod cyfnod pandemig COVID-19 pan oedd cyfyngiadau ar symud y tu allan i gartrefi pobl. Credid mai'r rheidrwydd i aros o fewn y tŷ a methu gweld y rhai o'r tu allan i'w haelwydydd oedd yn gyfrifol am y diflastod yma.

"Felly wir, roeddwn i wedi diflasu'n llwyr oherwydd doeddwn i ddim yn cael gweld, doeddwn i ddim eisiau gwneud unrhyw un o'r tasgau ar-lein ar y dechrau ond pan ddechreuais ddysgu roeddwn i eisiau".
(Plentyn 15, Blwyddyn 3)

Siaradodd y plant hefyd am ddiflasu gyda'r tasgau dysgu cartref a osodwyd gan yr ysgolion i'w cwblhau yn y cartref a dywedodd un rhiant, "cwisiau fel croeseiriau yn unig oedd rhai o'r tasgau a dechreuodd ddiflasu ar y posau hynny" (Rhiant/Gofalwr Plentyn 16, Blwyddyn 3). Ar ben hynny, nododd un plentyn "weithiau roeddwn i'n gysglyd ac yn flinedig iawn" (Plentyn 4, Blwyddyn 1) wrth fod gartref a dysgu ar-lein.

Siaradodd rhiant arall am sut dirywiodd ymddygiad eu plentyn dros y cyfnodau clo ac fe ddiflasodd y plentyn ar y drefn yr oedd hi a'i rhieni wedi'i sefydlu erbyn yr ail gyfnod clo.

"Dirywiodd ei hymddygiad... Cyn hyn byddai'n codi i wneud dosbarthiadau ffitrwydd Joe Wicks bob bore... Roedd hi'n fodlon ceisio sefydlu trefn ond erbyn yr ail gyfnod clo nid oedd unrhyw gymhelliant ganddi".
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 13, Blwyddyn 3)

Er hynny, trafododd un rhiant sut roedd eu plentyn am gwblhau'r dysgu gartref oherwydd eu bod yn profi diflastod ac roedd angen y strwythur a'r drefn o ddysgu gartref. Mewn perthynas â chwblhau dysgu gartref, nododd un rhiant:

"Roedd hi eisiau ei wneud, roedd yn rhoi trefn i'r dydd. Gan ei bod hi'n hoffi cadw'n brysur, mae angen strwythur arni. roedd hi angen trefn, achos byddai hi jyst yn diflasu fel arall".
(Rhiant/ Gofalwr Plentyn 21, Blwyddyn 1)

Thema 6: Yr effaith fwy hirdymor a'r gwersi a ddysgwyd

Effaith fwy hirdymor COVID

Yn bennaf, oedolion oedd y cyfranogwyr a oedd wedi ystyried rhannu o ran effeithiau posibl mwy hirdymor dysgu ac addysg yn ystod y pandemig. Roedd yr ymatebion ynghylch yr effeithiau hirdymor wedi canolbwyntio ar dri maes: gallu plant i symud y tu hwnt i'r profiad ac adfer ohono, yn arbennig o ran eu sgiliau cymdeithasol a'u llesiant; cynnydd academaidd a dysgu; a chymdeithasu a phrofiadau.

Pan ofynnwyd a oedden nhw'n credu y byddai unrhyw effeithiau ar ddysgu eu plant wrth symud ymlaen, dywedodd nifer o rieni, "Na, dydw i ddim yn meddwl hynny". Awgrymodd Rhiant/Gofalwr Plentyn 12 (Blwyddyn 1) y byddai yna, mewn gwirionedd, "effaith bositif" ar Blentyn 12 oherwydd "[roedden nhw] mewn lle diogel" a'u bod wedi derbyn "mwy o sylw" gan eu rhieni ac wedi "addasu... [i] wahanol ddulliau dysgu a gwahanol bobl yn eu haddysgu [nhw]".

I'r gwrthwyneb, mynegodd rhai rhieni a gofalwyr bryder am "effaith wael [y cyfnod clo] ar hunanhyder plant" (Rhiant/Gofalwr Plentyn 3, Blwyddyn 1):

"Mae'n anodd dweud achos dyw e ddim yn sefyllfa arferol. Yn emosiynol, mae'r pandemig wedi effeithio ar ei ffordd o feddwl a'i deimladau a sut mae'n gweld y byd."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 4, Blwyddyn 1)

Nododd Rhiant/Gofalwr Plentyn 1 (Blwyddyn 1) fod Plentyn 1 (Blwyddyn 1) wedi "treulio cymaint o amser ar ei phen ei hun, ac nid gyda phlant eraill nes [eu bod] bellach yn swil yn yr ysgol" ac nad yw hyn yn cael ei unioni'n llwyddiannus wrth ddychwelyd i'r ysgol a'r ymdrech i "ddysgu, dysgu, dysgu" yn hytrach na "chael cyfle i chwarae fel plant bach ac... arfer cymysgu eto."

Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â llesiant plant a'r profiadau a gollwyd, fel tripiâu preswyl, a gefnogwyd gydag awgrymiadau o flaenoriaethau wrth symud ymlaen:

"Chi'n gwybod, mae tripiâu ysgol mor bwysig."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 8, Blwyddyn 1)

"Dydyn ni ddim wedi mynd ar unrhyw dripiâu. Mae blwyddyn chwech a blwyddyn pump yn enwedig wedi colli allan ar bethau fel tripiâu preswyl, sy'n beth enfawr maen nhw'n edrych ymlaen yn fawr atynt yn yr oedran yna."
(Athro 2, Blwyddyn Derby)

Er bod y mwyafrif o sylwadau gan rieni a gofalwyr ynglŷn ag effeithiau hirdymor y pandemig wedi canolbwyntio ar lesiant ac addysg gymdeithasol ac emosiynol plant, gwnaeth rhai gydnabod effaith bosibl y pandemig ar ddysgu a chynnydd academaidd. Awgrymodd Rhiant/Gofalwr Plentyn 11 (Blwyddyn 1) bod dysgu gartref wedi "arafu [nhw] ychydig" a gwnaeth Rhiant/Gofalwr Plant 15 (Blwyddyn 3) gwestiynu: "A fyddan nhw byth yn dal i fyny?" Roedd cryn bryder am yr hyn nad oedd unrhyw un yn ei wybod eto, ac roedd rhieni a gofalwyr yn ansicr o ran sut i fesur yn gywir a oedd eu plant wedi gwneud cynnydd digonol er gwaethaf y pandemig:

"Rwy'n credu bod angen iddyn nhw wirio eu lefelau. Mae angen iddyn nhw wirio ble maen nhw. I ni, mae angen gwybod a ydyn nhw ar lefel Blwyddyn Dau neu Flwyddyn Un go iawn. I mi, (aneglur) rwy' eisiau gwybod lle maen nhw. Dwi'n poeni am ba mor gyflym maen nhw'n dal i fyny."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 4, Blwyddyn 1)

"Mae'r ffaith eu bod nhw wedi colli cymaint, byddan nhw bob amser ar ei hôl hi. Felly, dydyn nhw ddim yn mynd i fod yn dysgu'r pethau newydd, a byddan nhw yn parhau i geisio dal i fyny ar beth maen nhw wedi'i gollu. Felly, mae 'na ddarnau o addysg efallai na fydden nhw'n eudysgu, neu efallai na fydden nhw'n gwybod amdanynt oherwydd nad ydynt wedi dal i fyny."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 8, Blwyddyn 1)

Roedd hyn yn arbennig o wir i blant ag anghenion ychwanegol dwys a chymhleth a nododd Rhiant/Gofalwr Plentyn 30 (Blwyddyn 1):

"Oherwydd anghenion [Plentyn 30] a'r [eu] oedi o ran dysgu, fyddai [e] wedi datblygu mwy drwy fod yn yr ysgol dros y ddwy flynedd ddiwethaf neu beidio, dy'n ni ddim yn gwybod... Dydyn ni ddim yn gwybod a wnaeth effeithio arno [fe]."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 30, Blwyddyn 1)

"Dydw i ddim yn gwybod a fydden nhw ymhellach ar y blaen nag efallai y bydden nhw wedi bod, mae'n anodd dweud oherwydd [Plentyn 18] yw'r hynaf, gallai ddim ei cymharu â neb arall".
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 18, Blwyddyn 3)

Gwnaeth y rhieni a'r gofalwyr hefyd drafod effeithiau hirdymor posib y pandemig ar sut mae'r ysgol yn gweithredu ac yn cyfathrebu â theuluoedd:

"Mae'n ymddangos ei fod yn fwy cyfeillgar i blant nawr nag o'r blaen."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 8, Blwyddyn 1)

"Ro'n i'n teimlo mod i'n gallu anfon mwy o negeseuon atynt os oedd angen ers iddyn nhw fynd yn ôl neu pan oedden nhw i ffwrdd."
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 7, Blwyddyn 1)

Nododd yr athrawon fod y pandemig wedi arwain at rai effeithiau hirdymor ar ddysgu plant, ac roedd llawysgrifen, rhannu, aros tro a sgiliau rhifedd a llythrennedd sylfaenol – fel ffurfio llythrennau – ymhlith y sgiliau y mae'r pandemig wedi effeithio'n negyddol arnynt.

"Ac rwy'n credu wrth i amser fynd yn ei flaen, rwy wedi gweld bod llawysgrifen wael a phethau fel 'na wedi llithro tipyn, gan gael effaith hirdymor."
(Athro 1, Blwyddyn 1)

"Roedden nhw'n colli allan ar gymaint o'r gwaith ffoneg."
(Athro 2, Blwyddyn Derbyn)

Er hyn, gwnaeth yr athrawon sylwadau ar y pethau da a oedd wedi deillio o'r pandemig, yn enwedig o ran sgiliau TG plant:

"Rwy'n meddwl ein bod ni'n gwneud llawer mwy ar-lein nawr. Ac rwy'n credu gyda nhw yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol Dau, rydyn ni i gyd yn gyfarwydd â defnyddio mwy o TGCh."
(Athro 1, Blwyddyn 1)

"Fydden i'n dweud bod hynny'n bositif iawn, y ffaith eu bod nhw wedi cael mynediad at y dechnoleg hon. Ni fyddai hynny wedi digwydd o'r blaen."
(Athro 2, Blwyddyn Derbyn)

Wrth ragweld problemau cynyddol o ran iechyd meddwl a llesiant, mae ysgolion yn paratoi ar gyfer yr angen cynyddol am gymorth drwy hyfforddi staff:

"Rydyn ni'n ceisio sicrhau bod gennym ni staff a all gefnogi plant, gyda'r math yna o broblemau iechyd meddwl a llesiant emosiynol allai godi o ganlyniad i bandemig."
(Athro 2, Blwyddyn Derbyn)

Y dyfodol: yr effeithiau mwy hirdymor a'r gwersi a ddysgwyd

I lawer o'r cyfranogwyr, un o'r gwersi a ddysgwyd o bandemig COVID-19 oedd sut i ddefnyddio technoleg ar gyfer dysgu. I rai rhieni, gwelwyd bod dysgu digidol yn rhywbeth cadarnhaol, Ar y llaw arall, nid oedd rhieni eraill yn siŵr o ran sut roedd dysgu ar-lein yn cymharu â dysgu wyneb yn wyneb.

"P'un a oedd o'n gynhyrchiol iddyn nhw dydw i ddim yn siwr, dydw i ddim yn meddwl bod dysgu ar-lein wedi yn addas iddyn nhw"
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 11, Blwyddyn 1)

"I mi roedd dysgu ar-lein yn rhywbeth mwy cymdeithasol, ac roedd yn wahanol i ddysgu go iawn ar gyfer yr oedran yma"
(Rhiant/Gofalwr Plentyn 4, Blwyddyn 1)

Gwnaeth y rhieni a'r athrawon gydnabod bod y pandemig wedi effeithio ar ddysgu a datblygiad plant a chanlyniadau hirdymor [Gweler Adran 6.1]. I oresgyn rhai o effeithiau'r amser i ffwrdd o'r ysgol, gwnaeth y rhieni argymhell fod ysgolion yn mabwysiadu dulliau a oedd wedi'u teilwra'n fwy i unigolion er mwyn cefnogi dysgu plant.

Ymchwilydd: "Eich awgrym chi mewn gwirionedd yw bod angen dull wedi'i deilwra'n llwyr, byddai'n rhaid iddo fod ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol?"

Rhiant/Gofalwr Plentyn 30, Blwyddyn 1: "Ie, oherwydd ni allwch gyffredinol i'r galluoedd."

Cafodd pryderon hefyd eu mynegi am gynnydd posib yn y pwysau ar blant a'u dysgu gan eu bod wedi dychwelyd i'r ysgol. Dywedodd un rhiant, "maen nhw wedi mynd yn ôl, ac maen nhw'n dysgu dysgu dysgu dysgu oherwydd bod rhaid iddyn nhw, ond dydyn nhw ddim yn cael cyfle i chwarae fel rhai bach" (Rhiant/Gofalwr Plentyn 1, Blwyddyn 1) Teimlai'r rhiant y byddai dull o ddysgu sy'n canolbwyntio ar chwarae yn fwy addas gan nodi "Fel rhiant, wrth feddwl am fy mhientyn i. Credaf y gallwch ddysgu plant drwy chwarae" (Rhiant/Gofalwr Plentyn 1, Blwyddyn 1).

O ran symud ymlaen, un o'r prif wersi a ddysgwyd o safbwynt yr athro oedd bod mwy o angen i'r ysgol fod yn fwy parod i ddelio ag unrhyw argyfyngau annisgwyl. Nododd un athro y byddai angen i'r ysgol gamu i'r adwy pe bai pandemig arall yn taro. Fodd bynnag roedd gan yr athro farn gymharol negyddol o ran yr ymgysylltu gan rieni, gan awgrymu bod eu hymgysylltiad â dysgu plant yn ystod y pandemig yn gyfyngedig.

"Os byddai cyfnod clo arall byddai'n sicr angen i ni gamu i'r adwy o ran cynorthwyo teuluoedd gartref. Mae angen i ni gefnogi dysgu gartref – nid rhywbeth i'r ysgol yn unig ydyw. Gallwch weld bod yna effaith ar eu haddysg. Mae'n codi ofn arna i pan nad oes ganddyn nhw gefnogaeth gartref. Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw'r ffaith nad yw llawer o rieni'n gwybod sut i gefnogi. Yn y gorffennol roeddem yn gwahodd rhieni i mewn i'w cefnogi. Rydym wedi cynnal sesiynau ar ddarllen a choginio. Roedden ni'n gwybod nad oedd rhieni'n gwybod sut i ddysgu eu plant i ddarllen."
(Athro 1, Blwyddyn 1)

Crynodeb o'r Canfyddiadau

Caiff y canfyddiadau eu cyflwyno mewn chwe thema a ddeilliodd o'r data:

1. Colli ac ymdeimlad o golled
2. Pwysigrwydd y teulu a'r cartref
3. Pwysigrwydd yr ysgol a mwynhad o'r ysgol
4. Dysgu o bell gydol pandemig COVID-19
5. Heriau addysgu rhwng y cyfnodau clo
6. Y dyfodol: yr effeithiau mwy hirdymor a'r gwersi a ddysgwyd.

Colli ac ymdeimlad o golled

Nododd nifer fawr o blant ymdeimlad o golled, gan gollu eu ffrindiau yn bennaf yn ogystal â'r gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon corfforol. Wrth dychwelyd i ysgolion ar ôl y cyfnodau clo, roedd hi'n ymddangos bod gan blant hŷn (y rhai ym mlwyddyn 3) fwy o ymdeimlad o golled a phryderon am swigod. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn oedd oherwydd eu bod yn cofio addysg cyn COVID. Dyma thema gyffredin a fynegwyd gan y plant yn ystod yr ymchwil.

Pwysigrwydd y teulu a'r cartref

Oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd yn ystod pandemig COVID-19, dywedodd y plant eu bod wedi treulio mwy o amser gydag aelodau'r teulu a'u bod wedi hoffi a gwerthfawrogi hynny. Er bod plant wedi mwynhau mwy o amser gydag aelodau'r teulu, dywedon nhw eu bod wedi colli aelodau estynedig o'r teulu er bod technoleg yn aml yn cael ei defnyddio i unioni eu habsenoldeb. Dywedodd y plant eu bod wedi mwynhau treulio amser yn chwarae y tu allan ym myd natur a chyda'u hanifeiliaid anwes neu anifeiliaid.

Pwysigrwydd yr ysgol a mwynhad o'r ysgol

Mae'r data'n dangos pa mor bwysig i blant yw bod yn rhan o gymuned ehangach mewn ysgolion, rhannu amser cinio ac amser chwarae, gweld ffrindiau mewn gwasanaethau a gallu bwyta cinio gyda'i gilydd. Roedd y plant wedi colli gallu mynychu'r ysgol yn gorfforol, gweld athrawon a bod o fewn amgylchedd yr ystafell ddosbarth.

Dysgu o bell gydol pandemig COVID-19

Roedd y data'n dangos bod y newid i ddysgu ar-lein yn heriol, ac yn benodol, yr angen i sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at y we. Nododd yr oedolion a oedd yn fwy positif am y defnydd o dechnoleg nad oedd rhai plant mor awyddus i ddefnyddio mwy o dechnoleg ar gyfer dysgu. Roedd yn gwbl amlwg fod y plant yn ffafrio dysgu wyneb yn wyneb. O ran rhai o effeithiau cadarnhaol dysgu o bell - y teimlad oedd bod pandemig COVID-19 wedi arwain at fwy o reolaeth gan blant dros eu dysgu ac wedi gwella eu sgiliau TG.

Heriau addysgu yn ystod pandemig

Un o'r heriau allweddol a brofwyd gan blant oedd y newid yn ôl i'r ysgol ar ôl y cyfnodau clo. Er y bu'n brofiad positif i rai plant, roedd yn fwy heriol i blant eraill. Nododd yr athrawon a'r rhieni fod y plant yn fwy blinedig yn yr ysgol, gan ei chael hi'n anodd i ysgrifennu am gyfnodau estynedig, sy'n debyg i effeithiau dychwelyd i'r ysgol yn dilyn gwyliau ysgol hir. Siaradodd yr athrawon hefyd am y ffaith fod y plant yn llai annibynnol, yn llai amyneddgar ac yn anfodlon aros eu tro, ac nad oedd y plant yn hoffi'r 'system swigod' ar ôl dychwelyd i'r ysgol. Roedd pandemig COVID a'i effeithiau hefyd wedi effeithio ar iechyd meddwl a llesiant plant; Dywedodd y plant eu bod wedi profi annifyrrwch a rhwystredigaeth gyda'r cyfyngiadau a'r sefyllfa, a hefyd ddiflastod, dryswch a phryder.

Yr effaith fwy hirdymor a'r gwersi a ddysgwyd

Yn gyffredinol, nid oedd y rhieni'n teimlo y byddai COVID-19 yn cael effaith negyddol a hirdymor ar ddysgu eu plentyn. Roedd rhai rhieni, fodd bynnag, yn poeni am 'ddal i fyny' a lefel dysgu eu plentyn. Roedd nifer o rieni'n poeni am effaith COVID ar hunanhyder eu plant; Cafodd datblygiad cymdeithasol ei nodi fel pryder i rai rhieni. Nododd yr athrawon bod rhai effeithiau hirdymor wedi bod ar ddysgu plant, ac roedd llawysgrifen, rhannu, aros tro a sgiliau rhifedd a llythrennedd sylfaenol – fel ffurfio llythrennau – ymhlith y sgiliau y mae'r pandemig wedi effeithio'n negyddol arnynt.

Casgliadau

Nod yr astudiaeth hon oedd archwilio profiadau addysgol plant ifanc a oedd rhwng 3 a 6 oed yng Nghymru yn ystod pandemig COVID-19; yn ystod y cyfnodau clo ac ar ôl dychwelyd i'r ysgol wedi hynny. Dyma gwestiynau'r ymchwil:

1. Beth yw canfyddiadau plant ifanc o'u profiadau addysgol cyffredinol yn ystod y pandemig?
2. Beth yw canfyddiadau plant ifanc o'u profiadau o ddysgu ar-lein yn ystod y pandemig?
3. Beth yw canfyddiadau oedolion a rsn effaith COVID-19 ar blant ifanc a'r gwaith adfer dilynol? (Gall oedolion, er enghraifft, gynnwys staff ysgol a rhieni/gofalwyr).

Mae nifer o faterion rhyng-gysylltiedig yn amlwg yn y broses o ddadansoddi o ran canfyddiadau plant o brofiadau dysgu yn ystod y cyfnod hwn a oedd yn aml yn cael eu hadlewyrchu gan yr oedolion arwyddocaol o'u hamgylch. Rydym yn gweld rhywfaint o debygrwydd yn yr hyn a brofwyd ac a fynegwyd gan blant ac oedolion megis ymdeimlad o ynysu cymdeithasol, effaith negyddol COVID ar lesiant plant a'r heriau i blant a gofalwyr/rhieni o ran dysgu ar-lein. Nid oedd rhai ffactorau ond yn amlwg o safbwynt yr oedolion, er enghraifft, y pryder ynghylch effeithiau negyddol hirdymor posib COVID ar ddysgu a datblygiad cymdeithasol plant ifanc. Mae'r canfyddiadau'n rhoi cipolwg ar brofiadau ein plant iau o ran addysg, ac yn benodol, yn ystod pandemig COVID-19. Mae mewnwelediad o'r fath yn ein galluogi i ystyried darpariaeth ar gyfer y plant hyn o ran llunio cwricwlwm o fewn y Cwricwlwm i Gymru a dulliau asesu.

Cwestiwn 1 yr Ymchwil: Beth yw canfyddiadau plant ifanc o'u profiadau addysgol cyffredinol yn ystod y pandemig?

Profodd plant ddiffyg cymdeithasu ac ymdeimlad o ynysu cymdeithasol: Er i dechnoleg geisio lliniaru ynysu cymdeithasol plant, arweiniodd y diffyg cymdeithasu gyda phobl o'r tu allan i aelwyd plant (ffrindiau, aelodau estynedig o'r teulu ac athrawon) at blant yn adrodd ar deimladau o golled, tristwch ac unigrwydd sy'n nodweddiadol o effeithiau negyddol ar lesiant. Gwnaeth plant golli mynychu'r ysgol yn gorfforol, gweld athrawon a bod o fewn amgylchedd yr ystafell ddosbarth. O ran perthnasau, ystyriwyd bod anifeiliaid anwes yn gyfrannwr cadarnhaol i'w profiad yn ystod y pandemig, ochr yn ochr â'r gallu i dreulio mwy o amser gartref gyda theulu a brodyr a chwiorydd. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau nifer o astudiaethau a grybwyllwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, ac o'r herwydd yn rhoi neges gref am werth profiadau addysgol plentyndod cynnar sy'n cefnogi perthnasoedd, ymdeimlad o berthyn a bod yn rhan o gymuned. Yn ogystal, mae'r cipolwg a ddarperir gan y plant am werth treulio amser gydag anifeiliaid anwes, yn ogystal â theulu, yn cynnig cyfle i athrawon ddefnyddio'r bondiau emosiynol cryf hyn fel sylfeini ar gyfer llunio cwricwlwm o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

Gan fod y Cwricwlwm I Gymru yn cynnig cyfle i athrawon lunio cwricwlwm ar sail diddordebau a chyd-destun profiadau'r plant yn eu dosbarthiadau, mae'r astudiaeth hon yn cynnig negeseuon allweddol am yr hyn sy'n bwysig i'r plant ifanc a brofodd y fath darfu ar eu haddysg gynnar. Gall llunio cwricwlwm sy'n archwilio, sy'n parchu ac sy'n dathlu profiadau amrywiol plant o'r cartref a'r teulu, gan gynnwys profiadau amrywiol o fewn y gymuned ac, yn wir, brofiad cyffredin y pandemig, gefnogi gwaith llunio cynnwys ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant, yn ogystal â chefnogi profiad Cynefin o fewn cwricwlwm y Cwricwlwm I Gymru yn y blynyddoedd cynnar. Rydym wedi defnyddio'r term

Cynefin a'i ddehongli yn unol â'r hyn a nodir yn Cwricwlwm i Gymru (2022): "y lle rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a'r golygfeydd a'r synau'n gysurol o adnabyddadwy. Er y caiff ei gyfieithu'n fel 'habitat' yn aml, nid lle mewn synnwyr ffisegol neu ddaearyddol yn unig yw Cynefin: lle hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol ydyw sydd wedi siapio ac yn parhau i siapio'r gymuned sy'n byw ynddo."

Gwnaeth y plant drafod sut y gwnaeth y cyfyngiadau a osodwyd arnynt yn ystod y cyfnodau clo ac ar eu hól effeithio ar eu bywydau ac yn arbennig ar bwy roedden nhw'n gallu a phwy nad oedden nhw'n gallu eu gweld a beth allen nhw ei wneud beth nad oedden nhw'n gallu ei wneud. Gwnaeth y cyfyngiadau hyn a osodwyd arwain at ddiflastod ac undonedd ymysg plant oherwydd cyfyngder o fewn y cartref a mynegwyd pryderon gan rieni ac athrawon ynghylch effaith y cyfyngder ar lefelau gorbryder plant. Ar ben hynny, mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith neguddol ar lesiant plant oherwydd bod plant yn colli profiadau a phobl yn ystod y pandemig a hefyd yn aml yn teimlo'n ofnus gan negeseuon a mesurau'r cyfnod clo (e.e. gwisgo masgiau a symboliaeth hyn).

Cwestiwn 2 yr Ymchwil. Beth yw canfyddiadau plant ifanc o'u profiadau o ddysgu ar lein yn ystod y pandemig?

Nid oedd rhai plant mor awyddus ag eraill i ddefnyddio mwy ar dechnoleg ar gyfer dysgu, a gwnaeth nifer fynegi'r ffaith eu bod yn ffafrio dysgu wyneb yn wyneb. Ystyriwyd bod yr ysgol yn ffynhonnell o ddysgu arferol ac ymgysylltu cymdeithasol a gwnaeth profiadau'r plant gan gynnwys gorbryder ynghylch mesurau COVID a ffactorau eraill cysylltiedig ac anhysbys adlewyrchu'n glir y ffaith bod y plant wedi colli dysgu arferol a gweld ffrindiau ac athrawon.

Gwnaeth rhai o'r plant dynnu sylw at y manteision a oedd ynghlwm wrth gael mwy o ddewis a rheolaeth dros eu dysgu yn ystod y pandemig. Yn aml roedd y rhyddid ychwanegol mewn dysgu gartref wedi sbarduno plant i wneud penderfyniadau gweithredol dros yr hyn yr oeddent yn dymuno canolbwyntio arno, y tu hwnt i ffiniau amserlenni ysgolion (e.e., arlunio neu fathemateg).

Roedd yr astudiaeth hon yn cydnabod gallu plant ifanc yn glir i fynegi a disgrifio eu profiadau. Mae'r ffaith eu bod wedi gwneud hynny, ac mewn modd huawdl a chlir, yn arwydd pellach y dylid eu galluogi i wneud hynny'n fwy arferol, os nad yn rheolaidd, mewn astudiaethau am brofiadau addysgol. Yn ogystal, mae'r canfyddiad bod rhai plant wedi mynd ati i reoli eu dysgu eu hunain mewn amgylchedd ar-lein a'u bod wedi mwynhau ac wedi elwa ar wneud hynny yn dangos y gall plant wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu, ac yn wir mae ganddynt y gallu metawybyddol i fyfyrion ar y broses hon. Wrth i athrawon ddod i gydnabod galluoedd plant ifanc gall y rhain ddod yn gonglfeini ar gyfer y broses o lunio cwricwlwm. Yn ôl y Cwricwlwm i Gymru dylai lleisiau plant, eu profiadau, a'u diddordebau, fod wrth wraidd y broses o gynllunio'r cwricwlwm; Mae'r astudiaeth hon yn tystio i allu plant ifanc i leisio eu profiadau a hefyd arwain a rheoli wrth lunio cwricwlwm a chyfeiriad eu dysgu.

Cwestiwn 3 yr Ymchwil. Beth yw canfyddiadau oedolion a ran effaith COVID-19 ar blant ifanc a'r gwaith adfer dilynol? (Gall oedolion, er enghraifft, gynnwys staff ysgol a rhieni/gofalwyr).

Safbwynt athrawon ar effaith y cyfnod clo ar blant: Dywedodd yr athrawon fod rhai plant yn arddangos ymddygiadau nad oeddent yn gyffredin mewn carfannau blaenorol, fel torri ar draws, diffyg dealltwriaeth neu wrthod aros eu tro. Fodd bynnag, roedd canfyddiad hefyd bod rhai perthnasau wedi'u hatgyfnerthu: Mae athrawon a'u dosbarthiadau 'clo' yn aml wedi

datblygu bondiau agos; yn aml mae'r berthynas rhwng athrawon a theuluoedd wedi'i hatgyfnerthu ac mae mwy o gyfathrebu dwy ffordd.

Barn rhieni ar ddysgu ar-lein: bu rhai rhieni'n myfyrio ar anawsterau o ran annog eu plant i gymryd rhan mewn dysgu y tu allan i amgylchedd arferol yr ysgol. Roedd rhywfaint o ddata hefyd a oedd yn awgrymu canfyddiad o welliant mewn sgiliau digidol y tu hwnt i ddisgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran a oedd wedi deillio o'r rheidrwydd i blant ymgysylltu â thechnoleg at ddibenion cymryd rhan mewn dysgu gan ysgolion. Dywedodd rhai rhieni eu bod wedi wynebu problemau gyda thechnoleg a mynediad at y we, yn enwedig ar ddechrau'r pandemig.

Pryderon oedolion am yr effeithiau negyddol hirdymor ar blant: Yn arwyddocaol, gwnaeth y rhieni a'r athrawon fynegi pryderon ynghylch gallu plant i symud y tu hwnt i brofiad y pandemig ac adfer mewn perthynas â'r effaith hirdymor ar sgiliau cymdeithasol a chynnydd academiaidd plant. Er enghraifft, nododd yr athrawon rai effeithiau hirdymor posibl ar ddysgu plant, ac yn benodol llawysgrifen, sgiliau rhifedd sylfaenol a llythrennedd a sgiliau cymdeithasol fel rhannu, aros eu tro o'u cymharu â disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran. Er mwyn goresgyn rhai o effeithiau negyddol canfyddedig amser i fwrdd o'r ysgol, mae rhai rhieni'n argymhell bod ysgolion yn mabwysiadu dulliau wedi'u teilwra o gefnogi dysgu plant. Mynegwyd pryderon yn ogystal am gynnydd posib yn y pwysau ar blant a'u dysgu gan eu bod wedi dychwelyd i'r ysgol.

Gellir dadlau bod y Cwricwlwm I Gymru yn cynnig strwythur y gall llunwyr cwricwlwm/athrawon ei ddefnyddio i osgoi pwyslais gormodol ar 'ddal i fyny' academiaidd, ac 'adfer', yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar a'r ysgol gynradd, drwy ymateb i ystyriaeth o'r hyn y gall plant ifanc ei wneud a'r hyn y maent wedi'i brofi fel man cychwyn ar gyfer cynllunio ar gyfer cynnydd. Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod athrawon a theuluoedd wedi adrodd ar rai buddion i blant a pherthnasoedd yn y cartref o ganlyniad i'r cyfnodau clo. Gall y rhain fod yn sylfaen dda i barhau i feithrin perthnasoedd positif rhwng yr ysgol a'r cartref a allai gyfoethogi'r broses o gynllunio'r cwricwlwm, a chreu cyfleoedd ar gyfer cynnwys perthnasol ac addas i'r cwricwlwm. Hefyd, byddem yn nodi, er y gall y rhestr o'r hyn na all plant ei wneud, yn gymdeithasol ac yn emosiynol, yn ogystal ag yn academiaidd, ymddangos yn frawychus, gall hyn gael ei oresgyn os gall ysgolion fabwysiadu model sy'n seiliedig ar gymwyseddau ar gyfer plant. Byddai dull o'r fath yn caniatáu i waith cynllunio'r cwricwlwm fod yn berthnasol i'r plant o flaen yr athro, yn hytrach na rhyw syniad o 'normalrwydd'. Nid yw argymhelliad o'r fath yn gwadu'r angen am gymorth priodol a chyfeirio at asiantaethau cyfeirio pe bai angen, fodd bynnag rydym yn ceisio osgoi labelu carfan o ddysgwyr ar sail yr hyn na allant ei wneud yn hytrach na'u cydnabod am y gwytnwch a ddangoswyd gan blant a'u teuluoedd wrth ymdopi â'r pandemig, a'r hapusrwydd (ymysg y rhan fwyaf) wrth ddychwelyd i fywyd ysgol.

Y gwersi a ddysgwyd o bandemig COVID

I lawer o'r cyfranogwyr, un o'r gwersi a ddysgwyd o bandemig COVID-19 oedd sut i ddefnyddio technoleg ar gyfer dysgu. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r data hyn ddeillio o oedolion yn hytrach na phlant. I rai rhieni, gwelwyd bod dysgu digidol yn rhywbeth cadarnhaol, ond nid oedd rhieni eraill yn siŵr o ran sut roedd dysgu ar-lein yn cymharu â dysgu wyneb yn wyneb. Yn aml roedd hyn yn gysylltiedig â rôl oedolion yn ystod y pandemig ac a oeddent ar gael i gefnogi eu plant.

O ran symud ymlaen, un o'r prif wersi a ddysgwyd o safbwynt yr athrawon oedd bod mwy o angen i'r ysgol fod yn fwy parod ar gyfer ymdrin ag argyfyngau annisgwyl.

Yn unol ag astudiaethau eraill a grybwyllir yn yr adolygiad llenyddiaeth nid yw canfyddiadau o'r fath yn rhai newydd. Fodd bynnag, mae'r astudiaeth hon yn cefnogi'r angen am gyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus i athrawon fel y gallant barhau i chwarae rhan weithredol mewn datblygiadau technolegol a allai fod yn addysgiadol berthnasol ar gyfer addysgu o ddydd i ddydd, a/neu mewn ymateb i argyfwng. Ni ellir cymryd yn ganiataol y gall oedolion eraill (e.e. rhieni) gefnogi dysgu plant, o bell neu yn yr ysgol; Mae angen sicrhau bod pobl yn gyfarwydd â thechnoleg fel y gall pob plentyn gael ei gefnogi'n dda gan y dysgu sydd ar gael yn yr ysgol neu gan yr ysgol. Yn ogystal, mae'r astudiaeth hon yn cefnogi'r angen am brosesau ymgysylltu parhaus ac ystyrion gyda theuluoedd, gan gynnwys darparu caledwedd a meddalwedd technoleg, os oes angen, i deuluoedd os oes angen hyn i hwyluso dysgu.

Argymhellion

Ceir cyfres o argymhellion, sy'n deillio o'r ymchwil hon, sy'n berthnasol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a/neu ysgol. Byddai angen gweithredu ar lefel yr ysgol ar gyfer llawer o'r argymhellion hyn oherwydd dyma ffocws y data - ar brofiadau plant yn yr ysgol a'r cartref.

Argymhelliad 1: Cyfleoedd ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac ailymgysylltu â chymuned ehangach yr ysgol

Canfyddiad o'r astudiaeth hon yw'r pwyslais y mae plant eu hunain yn ei roi ar ffrindiau, cymdeithasu a bod yn rhan o gymuned ehangach yr ysgol, yn enwedig pwysigrwydd perthnasoedd cymdeithasol i'w llesiant. Roedd rhieni hefyd yn llafar am yr angen i ddysgu a chanolbwyntio ar sgiliau cymdeithasol gan fod y rhain wedi'u colli i raddau helaeth. Roedd llawer o blant hefyd yn sôn am deimlo'n swil am fynd yn ôl i'r ysgol ond eu bod hefyd wir wedi colli ffrindiau yn ystod y cyfnodau clo.

Rydym yn argymhell bod angen cydnabod ar bob lefel yr effaith sylweddol y mae'r cyfnod hwn wedi'i chael ar ddatblygiad cymdeithasol yn benodol. Mae angen i ysgolion ac awdurdodau lleol ganolbwyntio ar hyn wrth iddyn nhw ddatblygu cynlluniau adfer, gan fod llesiant yn sail i barthau datblygiadol eraill. Dylai plant (a theuluoedd) gael cyfleoedd amrywiol sy'n eu cefnogi i ailymgysylltu'n llawn â bywyd cymdeithasol ehangach yr ysgol er mwyn ennyn ymdeimlad o berthyn; Byddem yn rhybuddio yn erbyn pwyslais ar ddysgu academaidd ar draul cyfleoedd ar gyfer datblygiad cymdeithasol.

Lefel y gweithredu: Ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gyda chymorth gan y Lywodraeth Genedlaethol.

Mentrau Presennol: Dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant; Cwricwlwm i Gymru; Ysgolion bro.

Argymhelliad 2: Cyfleoedd i chwarae a phrofiadau cymdeithasol

Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn dangos yn glir bod colli allan ar dripiâu, digwyddiadau a phrofiadau chwarae yn cael ei ystyried yn ganlyniad negyddol i'r cyfnod hwn o amser. Digwyddodd hyn mewn cyfnodau clo a hefyd yn ddiweddarach wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol drwy ddefnyddio swigod a llai o gyfleoedd wedyn i gymysgu â chymuned ehangach yr ysgol. Gwnaeth y plant siarad llawer am bwysigrwydd chwarae, ac awgrymodd rhai rhieni a phlant bod y broses o ddychwelyd i'r ysgol wedi bod yn canolbwyntio'n ormodol ar gynnydd academaidd.

Rydym yn argymhell bod angen i ysgolion gydnabod y cyfleoedd hyn a gollwyd a chynllunio i blant chwarae, mynd ar dripiâu a chael profiadau cymdeithasol gyda'i gilydd ac y dylai hyn ddigwydd y tu hwnt i ystod oedran y Cyfnod Sylfaen. Rydym yn rhagweld y bydd cyfleoedd o'r fath yn cefnogi llesiant a datblygiad iach plant. Dylai systemau atebolrwydd ystyried cyfleoedd plant i chwarae a chymdeithasu yn ogystal â datblygu sgiliau academaidd i gydnabod bod datblygiad sgiliau academaidd yn tueddu i gael ei gefnogi pan fydd plant yn

gallu hunanreoleiddio. Ni ddylid rhoi plant o dan bwysau i ennill sgiliau academaidd mewn cyfnodau amser mympwyol ar draul cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymdeithasol a chwarae.

Lefel y gweithredu: Lefel ysgol gyda chymorth gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a'r Llywodraeth Genedlaethol)

Mentrau Presennol: Haf o Hwyl; Llesiant y Gaeaf; Rhaglen cyfoethogi gwyliau ysgol; Diwygio'r diwrnod/wythnos ysgol

Argymhelliad 3: Cyfleoedd i blant siarad yn sensitif am eu pryderon

Heb os, mae hwn wedi bod yn gyfnod o bryder mawr i blant a'u hanwyliaid, ac mae rhai plant yn parhau i boeni am agweddau ar bandemig COVID. Er eu bod yn cydnabod nad yw athrawon yn gwmselwyr, rydym ni'n argymhell, pan fo hynny'n briodol, bod plant yn cael cyfleoedd i drafod eu pryderon, a/neu ymgymryd ag ymyriadau sy'n seiliedig ar chwarae neu ymyriadau therapiwtig os yw plant yn parhau i fod yn bryderus iawn, a/neu'n ei chael hi'n anodd cymdeithasu. Efallai y bydd angen cefnogi ysgolion ac athrawon i wneud hyn yn hyderus trwy hyfforddiant a ariennir yn allanol neu gallai arbenigwyr allanol fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Lefel y gweithredu: Ysgol ysgol gyda chefnogaeth gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a'r Llywodraeth Genedlaethol.

Mentrau Presennol: Dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant (cwnsela a hyfforddiant mewn ysgolion).

Argymhelliad 4: Cyfleoedd i dawelu meddyliau a gweithio gyda rhieni

Mae cydnabyddiaeth bellach fod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar ddysgu academaidd hefyd; mae data'n dangos rhywfaint o bryder ymysg rhieni/gofalwyr am gynnydd mewn mathemateg, darllen ac ysgrifennu yn benodol. Roedd hyn yn deillio'n aml o gymharu â disgyblion eraill, carfanau blaenorol a thargedau lleol a rhai gan y llywodraeth. Mae rhieni a gofalwyr eisiau deall ble mae eu plant o ran cynnydd – gwnaeth bron pob rhiant (ac athrawon) gyflwyno sylwadau ar hyn boed o ran cyfeirio at ddysgu academaidd neu gymdeithasol-emosiynol – gwnaeth rhai fynegi pryder am eu hanallu i fesur a oedd eu plentyn yn 'gwneud yn iawn'. Mae hyn yn golygu y bydd angen cyfleoedd hefyd i gael sicrwydd a mwy o gyfathrebu gan ysgolion ar gyfer rhieni a gofalwyr, a byddai hyn yn helpu i gynnal ymgysylltu â thelueoedd yn dilyn y cyfnodau clo. Mae angen i ysgolion gyfathrebu mewn modd mwy clir ac eglur.

Lefel y gweithredu: Lefel ysgol gyda chefnogaeth gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a'r Llywodraeth Genedlaethol.

Mentrau Presennol: Ysgolion bro – swyddogion ymgysylltu â thelueoedd.

Argymhelliad 5: Ymchwil i'r defnydd o dechnoleg i wella dysgu

Datblygodd llawer o blant sgiliau digidol yn ystod y cyfnod hwn a llwyddodd athrawon i 'uwchsgilio' a datblygu eu haddysgeg mewn ffordd nad oedd efallai wedi cael ei hystyried ar gyfer y grŵp oedran hwn o'r blaen. Byddem yn awgrymu bod angen mwy o ymchwil yn y maes hwn er mwyn (a) cynnal a datblygu sgiliau digidol plant ar gyfer y grŵp oedran hwn

(b) sicrhau y gellir parhau i archwilio'r defnydd posibl o dechnoleg i wella arferion addysgegol mwy traddodiadol.

Lefel y gweithredu: Lefel y Llywodraeth Genedlaethol

Argymhelliad 6; Ymchwil pellach sy'n canolbwyntio ar godi lleisiau plant mewn perthynas â materion sy'n arwyddocaol iddynt

Anaml iawn y caiff lleisiau plant ifanc eu cynnwys o fewn astudiaethau ymchwil, a byddem yn argymhell bod angen mwy o ymchwil i godi lleisiau plant ifanc, nid yn unig mewn perthynas â phrofiadau o bandemig COVID ond ymhellach, mewn perthynas ag agweddau eraill ar eu bywydau. Mae'r astudiaeth hon wedi dangos y gall plant, o gael cynnig cyfle i roi eu barn, nid yn unig wneud hynny ond hefyd gymryd y peth o ddifrif. Yn unol â'r Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, dylai ymchwil hefyd archwilio awgrymiadau plant eu hunain o'r hyn ddylai ddigwydd nesaf. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer grwpiau sydd ar y cyrion fel plant ag ADY a'u teuluoedd.

Lefel y gweithredu: Gyda chefnogaeth ar lefel y Llywodraeth Genedlaethol, wedi'i weithredu ar Lefel Ysgol

Argymhelliad 7: Ymchwil pellach sy'n canolbwyntio ar godi lleisiau rhieni a gofalwyr mewn perthynas ag adfer ar ôl COVID

Mae'r astudiaeth hon yn cydnabod na ellir ystyried lles plant fel mater unigol a bod eu profiadau yn y cartref yn cael effaith fawr arnynt. Mae hyn yn golygu bod lefelau'r pryder y mae rhieni/gofalwyr yn ei deimlo yn arwyddocaol iawn. Rydym yn argymhell bod angen archwilio canfyddiadau rhieni a rhieni/ gofalwyr ymhellach ac y dylid ymgynghori â nhw hefyd mewn perthynas â chynlluniau adfer ar ôl COVID ar gyfer plant.

Lefel y gweithredu: Lefel y Llywodraeth Genedlaethol

Sylw i gloi

Yn olaf, hoffem ddiolch eto i'r plant yr ydym wedi ceisio codi eu lleisiau yn yr adroddiad hwn. Mae hefyd yn bwysig pwyso a mesur y cwestiwn, *'pa effaith y gall llais ei chael os nad oes unrhyw un yn gwrando?'* (Alexandra, 2015 t.43). Yn unol â chyfarwyddyd y plant rydym wedi 'adrodd wrth Lywodraeth Cymru' a gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn a'n gweithgareddau lledaenu pellach yn creu cyfleoedd i leisiau'r plant hyn gael eu clywed a bod camau yn cael eu cymryd yn eu cylch, gan sbarduno polisiau ac ymarfer.

Cyfeiriadau

Aasen, W., a Waters, J. (2006) *'The New Curriculum in Wales: A New View of the Child?'*. Education 3–13: International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education. 34 (2), t. 123–129.

Adams, C. (2020) *'Is a Secondary Pandemic on Its Way?'* Institute of Health Visiting [Online]. Ar gael o: [new and views: voice is a secondary pandemic on its way](#) [Darllenwyd: 13/01/2022].

Alexandra, D. (2015). Are we listening yet? Participatory knowledge production through media practice: Encounters of political listening. In A. Gubrium, K. Harper, a M. Otanez (Eds.), *Participatory visual and digital research in action* (t. 41–56). Walnut Creek, CA: Left Coast Press.

Andrew, A., Cattan, S., Dias, M., Farquharson, C., Kraftman, L., Krutikova, S., Phmister, A. a Sevilla, A. (2020) *'Learning during the lockdown: real-time data on children's experienced during home learning.'* Institute for Fiscal Studies [Online]. Ar gael o: [Learning during the lockdown: real-time data on children's experiences during home learning – Institute For Fiscal Studies – IFS](#) [Darllenwyd: 23/03/2022].

Atilas. J., Almodovar, M., Chavarria Vargas, A., Dias, M. a Zuniga Leon, I. (2021) *'International responses to COVID-19: challenges faced by early childhood professionals.'* European Early Childhood Education Research Journal. 29 (1), t 66–78. DOI: 10.1080/1350293X.2021.1872674

Auerbach, S. (2007) *'From Moral Supporters to Struggling Advocates: Reconceptualizing Parent Roles in Education Through Experience of Working-Class Families of Colour.'* Urban Education. 42 (3), t 150–283.

Bernier, A., Calkins, D. a Bell, A. (2016) *'Longitudinal Associations between the Quality of Mother-Infant Interactions and Brain Development across Infancy.'* Child Development. 87 (4), t 1159–1174.

Boffey, M., Mannay, D., Vaughan, R., a Wooders, C. (2021) *The Fostering Communities programme Walking tall: Stage one evaluation. Project Report.* Caerdydd: Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru.

Bond, M a Bolan, F. (2021) *'What have we learned about online learning? UK and global evidence on the emergency remote education of school children during COVID-19.'* [Online]. Ar gael yn: [IPPO: IPPO \(andsociety.com\)](#) [Darllenwyd: 13/01/2022].

British Educational Research Association (2018) *Ethical Guidelines for Educational Research.* [Ar-lein]. Ar gael yn [Bera Researchers resources ethical guidelines for educational research](#) [Darllenwyd: 13/01/2022].

Braun, V., a Clarke, V. (2021) *Thematic Analysis: A Practical Guide.* London: SAGE Publications Ltd.

Bunn, S. a Lewis, S. (2021) *Children's mental health and the COVID–19 pandemic*. UK Parliament [Ar-lein]. Ar gael o: [Children's Mental Health and the –19 Pandemic \(parliament.uk\)](https://parliament.uk) [Darllenwyd: 23/03/2022].

Child Poverty Action Group (2020) *The Cost of Learning in Lockdown Family Experiences of School Closures* [Ar-lein]. Ar gael o: [Child Poverty Action Group The cost of learning in lockdown UK.pdf](#) [Darllenwyd: 24/03/2022].

Christie, H., Hiscox, L., Candy, B., Vigurs, C., Creswell, C. Halligan, S. (2021) *Mitigating impacts of the COVID–19 pandemic on parents and carers during the school closures a rapid evidence review* [Ar-lein]. Ar gael o: [COVID-19 Parents](#) [Darllenwyd: 25/03/2022].

Clark, A. (2001) 'How to listen to very young children: The mosaic approach.' *Child Care in Practice*. 7(4), 333–341. Ar gael o: [Access to article How to listen to very young children](#) [Darllenwyd: 28/07/2022].

Clark, A. a Moss, P., (2011). *Listening to young children: The mosaic approach*. Jessica Kingsley Publishers. NCB.

Clark, A., a Moss, P. (2017) *Listening to young children: A guide to understanding and using the mosaic approach*. [Ar-lein] Ar gael o: [Ebook central proquest](#) [Darllenwyd: 25/03/2022].

Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Coronafeirws a Fi*. *Comisiynydd Plant Cymru* [Ar-lein]. Ar gael o: [COVID and me survey pdf](#) [Darllenwyd 23/03/2022].

Conti, G. (2020) *Supporting parents and children in the early years during (and after the COVID–19 crisis* [Ar-lein]. Ar gael o: [Supporting parents and children in the early years during \(and after\) the –19 crisis](#) [Darllenwyd 25/03/2022].

Cucinotta, D. a Vanelli, (2020) *Who Declares COVID–19 a Pandemic* [Ar-lein]. Ar gael ynt: [WHO Declares –19 a Pandemic](#) [Darllenwyd: 14/03/2022].

Cullinane, C., Montacute, R., (2020) *COVID–19 and Social Mobility Impact Brief #1 School Closures*. [Ar-lein]. The Sutton Trust. Ar gael o: [Suttontrust School Shutdown 19.pdf](#) [Darllenwyd: 06/04/2021].

Dayal, H. C. a Tiko, L. (2020) *When are we going to have the real school? A case study of early childhood education and care teachers' experiences surrounding education during the COVID–19 pandemic*. *Australasian Journal of Early Childhood*. 45 (4) t 336–347. DOI: 10.117/1836939120966085.

Department for Education (2022) *Understanding Progress in the 2020/21 Academic Year Extension report covering the first half of the autumn term 2021/22* [Ar-lein]. Department for Education. Ar gael o: [Gov.uk Uploads Understanding Progress in the 2020 to 2021 Academic Year](#) [Darllenwyd: 05/05/2022].

Driscoll, J., Hutchinson, A., Lorek, A., Kiss, K. a Kinnear, E. (2021) *Hearing the Voice of the Child through the Storm of the Pandemic: The Impact of COVID–19 Measures on the Detection of and Response to Child Protection Concerns*. *The International Journal of Children's Rights*. 29. DIO: 10.1163/15718182–29020005.

Einarsdóttir, J. (2007) *Research with children: Methodological and ethical challenges*. *European Early Childhood Education Research Journal*. 15(2), t 197–211.

- Engzell, P., Frey, A. a Verhagen, M. (2021) *Learning loss due to school closures during the COVID-19 pandemic*. Proceedings of the National Academy of Sciences. 118(17).
- Ferguson, N. M.T., Cummings, D., Fraser, C., Cajika, J. C., Cooley, P. C., Burke, D. S. (2006) *Strategies for Mitigating an Influenza Pandemic*. *Nature*. 442 (27), t 448– 452.
- Fernández–Santín, M., a Feliu–Torruella, M. (2020). *Developing critical thinking in early childhood through the philosophy of Reggio Emilia*. *Thinking Skills and Creativity*, 37, 100686. <https://doi.org/10.1016/j.tsc.2020.100686>
- Ford, T., John, A. a Gunnell, D. (2021) *Mental health of children and young people during pandemic*. *British Medical Journal*. [Ar-lein]
- Garbe, A., Ogurlu, U., Logan, N. a Cook, P. (2020) *COVID-19 and Remote Learning: Experiences of Parents with Children during the pandemic*. *American Journal of Qualitative Research*. 4 (3), t 45–65. [Ar-lein]
- Goodall, J. (2018) *A toolkit for parental engagement: from project to process*. *School Leadership and Management*. 38 (2), t 222–238.
- Goodman, A., a Sianesi, B. (2005). *Early Education and Children's Outcomes: How Long Do the Impacts Last?* *Fiscal Studies*, 26, 513–548.
- Groundwater–Smith, S., Dockett, S. a Bottrell, D. (2014) *Participatory Research with Children and Young People*. SAGE Publications.
- Hawliau Plant Cymru (2021) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Cyflwyniad i Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig. Llywodraeth Cymru. [iChildren's Rights Booklet \(llyw.cymru\)](#) [Darllenwyd 8.10.22]
- Hobbs, A. a Bernard, R. (2021) *Impact of COVID-19 on Early Childhood Education and Care*. UK Parliament. [Ar-lein] Ar gael yn: [Impact of –19 on Early Childhood Education and Care – POST \(parliament.uk\)](#) [Darllenwyd: 23/03/2022]
- Huttenlocher, P. R. (2002). *Neural plasticity: The effects of environment on the development of the cerebral cortex*. Harvard University Press.
- Institute for Government (2020) *Coronavirus and Devolution*. Institute for Government. [Ar-lein] Ar gael yn: [Institute for government explains coronavirus and devolution](#) [Darllenwyd 05/05/2022]
- Ishimaru, A. M., Torres, K. E., Salavador, J. E., Williams, D. M. C. a Tran, C. (2016) *Reinforcing Deficit, Journeying Toward Equity: Cultural Brokering in Family Engagement Initiatives*. *American Educational Research Journal*. 53 (4), t 850–882.
- James, M., Marchant, E., Defeyter, M A., Woodside, J. a Brophy, S. (2020) *Impact of school closures on health and wellbeing of primary school children in Wales UK; a routine data linkage study using the HAPPEN survey (2018–2020)*. *British Medical Journal*. [Ar-lein] Ar gael yn: [Impact of school closures on the health and well-being of primary school children in Wales UK: a routine data linkage study using the HAPPEN Survey \(2018–2020\) | BMJ Open](#) [Darllenwyd: 24/03/2022]

Kara, H., Lemon, N., Mannay, D., a McPherson, M. (2021). *Creative research methods in education: Principles and practices*. Policy Press.

Kartushina, N., Mani, N., Aktan-Erciyes, A., Alaslani, K., Aldrich, N.J., Alroqi, A.A.H., Anderson, L.M., Andonova, E., Aussems, S., Babineau, M. a Barokova, M., (2022). –19 first lockdown as a window into language acquisition: associations between caregiver– child activities and vocabulary gains. *Language Development Research*, 2 (1), t 1–36.

Kaushik, V., a Walsh, C. A. (2019). *Pragmatism as a Research Paradigm and Its Implications for Social Work Research*. *Social Sciences*, 8(9), 255.

Khan, T. a Mikuska, E. (2021) *The first three weeks of lockdown in England: The challenges of detecting safeguarding issues amid nursery and primary school closures due to COVID–19*. *Social Sciences and Humanities Open*. 3.

Lancaster, Y. P. a Kirby, P. (2010) *Listening to Young Children*. Open University Press: London.

Lloyd, J. E. V a Li, L. and Hertman, C. (2010) *Early experiences matter: lasting effect of concentrated disadvantage on children’s language and cognitive outcomes*. *Heath Place*. 16 (2), t 371–380.

Lomax, H. (2012) *Contested voices: Methodological tensions in creative visual research with children*. *International Journal of Social Research Methodology*. 15 (2),t 105– 117.

Lomax, H., Smith, K., McEvoy, J., Brickwood, E., Jensen, K., a Walsh, B. (2022). *Creating online participatory research spaces: Insights from creative, digitally mediated research with children during the COVID–19 pandemic*. *Families, Relationships and Societies*, 11(1), 19–37.

Llywodraeth Cymru (2015) *Hawliau Plant yng Nghymru*. Llywodraeth Cymru. [Ar-lein] Ar gael yn: [Children’s Rights in Wales pdf](#) [Darllenwyd: 28/03/2022]

Llywodraeth Cymru (2019) *Gofal plant i blant 3 i 4 oed*. Llywodraeth Cymru. [Ar-lein] Ar gael yn: [childcare–3–and–4–year–olds](#) [Darllenwyd: 23/03/2022]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Rights in Action Implementing Children and Young People’s Rights in Wales*. Llywodraeth Cymru. [Ar-lein] Ar gael yn: [Rights in Action](#) [Darllenwyd: 23/03/2022]

Mannay, D. (2013). ‘*Who put that on there ... why why why?*’ *Power games and participatory techniques of visual data production*. *Visual Studies*, 28(2), 136–146.

Mannay, D. (2016). *Visual, narrative and creative research methods: Application, reflection and ethics* (1 Edition). Routledge, Taylor and Francis Group.

Mannay, D., Staples, E., Hallett, S., Roberts, L., Rees, A., Evans, R. ac Andrews, D. (2019). *Enabling talk and reframing messages: working creatively with care experienced children and young people to recount and re–represent their everyday experiences*. *Child Care in Practice* 25(1), t 51–63.

Masi, A., Mendoza Diaz, A., Tully, L., Azim, S. I., Woolfenden, S., Efron, D., ac Eapen, V. (2021). *Impact of the COVID -19 pandemic on the well-being of children with*

neurodevelopmental disabilities and their parents. Journal of Paediatrics and Child Health, 57(5), 631–636.

Melhuish, E. (2016) *Longitudinal research and early year policy development in the UK*. International Journal of Child Care and Education Policy. 10 (3)

Moore, G., Anthony, R., Angel, L., Hawkins, J., Morgan, K., Copeland, L., Murphy, S., Van Godwin, J. a Shenderovich, Y. (2022) *Mental health and life satisfaction among 10–11-year-olds in Wales, before and one year after onset of the COVID–19 pandemic*. BMC Public Health. 22 (37)

Moss, G., Allen, R., Bradbury, A., Dunca, S., Harmey, S. a Levy, R. (2020b) *Primary teacher's experience of the COVID–19 lockdown– Eight key messages for policymakers going forward*. UCL Institute of Education. [Ar-lein] Ar gael yn: [Moss Report 1 Final.pdf](#) [Darllenwyd 18/03/2022]

Moss, G., Bradbury, A., Duncan, S., Harmey, S. a Levy, R. (2020a) *Responding to COVID–19, Briefing Note 2: Learning in Lockdown*. Institute of Education. [Ar-lein] Ar gael yn: [Moss Briefing Note 2 Responding to C-19 learning through disruption](#) [Darllenwyd: 18/03/2022]

Moss, G., Bradbury, A., Harmey, S., Mansfield, R., Candy, B., France., R. a Vigurs, C. (2021) *Mitigating impacts of the COVID–19 pandemic on primary school and lower secondary children during school closures a rapid evidence review*. UCL Institute of Education. [Ar-lein] Ar gael yn: [Link to Mitigating impacts of the COVID–19 pandemic](#) [Darllenwyd: 24/03/2022]

NHS (2020) *Co–Space study early results– increase in mental health difficulties among children during COVID–19 Lockdown*. [Ar-lein] Ar gael yn: [Co–SPACE study early results – increase in mental health difficulties among children during –19 Lockdown – Oxford Health NHS Foundation Trust](#) [Darllenwyd: 23/03/2022]

Nicholls, M., Neale, I., Joyner, O. a Sheikh, M. (2020) *Kindred²– School Readiness*. YouGov. [Ar-lein] Ar gael yn: [Kindred2 YouGov School Readiness.pdf](#) [Darllenwyd: 23/03/2022]

Nikolopoulou, K. (2022) *Online Education in Early Primary Years: Teachers' Practices and Experiences during the COVID–19 Pandemic*. Education Sciences. 12 (76). [Ar-lein] Ar gael yn: [Education Sciences | Free Full–Text | Online Education in Early Primary Years: Teachers' Practices and Experiences during the –19 Pandemic | HTML \(mdpi.com\)](#) [Darllenwyd: 16/03/2022]

NSPCC (2020) *What children are saying to Childline about the coronavirus: A summary of young people's key concerns about coronavirus raised in Childline counselling sessions*. NSPCC. [Ar-lein] Ar gael yn: [learning.nspcc.org.uk what–children–are–saying–childline–about–coronavirus.pdf](#) [Darllenwyd: 07/01/2022]

OECD (2020) *Combating COVID–19's effects on children*. Organisation for Economic Cooperation and Development. [Ar-lein] Ar gael yn: [oecd.org coronavirus policy responses combatting COVID 19 effect on children](#) [Darllenwyd: 24/03/2022]

Patel, J. A., Nielsen, F. B. H., Badiani, A. A., Assi, S., Unadkat, V. A., Patel, B., Ravindrane, R., ac Wardle, H. (2020). *Poverty, inequality and COVID–19: The forgotten vulnerable*. Public Health, 183, 110–111

Pickering, D. (2021). *Beyond physiotherapy: voices of children and young people with cerebral palsy and their carers about 'Participation' in recreational activities (VOCAL)*. Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd.

Platt, L., ac Warwick, R. (2020). *COVID-19 and Ethnic Inequalities in England and Wales*. *Fiscal Studies*, 41(2), 259–289.

Pokhrel, S. a Chhetri, R. (2021) *A Literature Review on Impact of COVID–19 Pandemic on Learning ang teaching*. Higher Education for the Future.

Richards–Belle, A., Orzechowska, I., Gould, D. W., Thomas, K., Doidge, J. C., Mouncey, P. R., Christian, M. D., Shankar–Hari, M., Harrison, D. A., Rowan, K. M., the ICNARC COVID–19 Team, Banjo, Y., Borowczak, K., Cousins, T., Cummins, P., Dalemo, K., Darnell, R., Demissie, H., Drikite, L., Saull, M. (2020). *COVID–19 in critical care: Epidemiology of the first epidemic wave across England, Wales and Northern Ireland*. *Intensive Care Medicine*, 46(11), 2035–2047.

Roberts, L., Mannay, D., Rees, A., Bayfield, H., Corliss, C., Diaz, C. a Vaughan, R. (2021). *'It's been a massive struggle': Exploring the experiences of young people leaving care during COVID–19*. *YOUNG*, 29 (4), 81–99.

Rose, S., Badr, K., Flether, L., Paxman, T., Lord, P., Rutt, S., Styles, B. a Twist, L. (2021) *Impact of School Closures and subsequent support strategies on attainment and socio–emotional wellbeing in Key Stage 1 Research Report*. Education Endowment Foundation. [Ar-lein] Ar gael yn: [Impact–on–KS1–Closures–Report.pdf](#) [Darllenwyd: 18/03/2022]

Senedd Cymru. (2020). *Cadernid meddwl: Ddwy flynedd yn ddiweddarach*. Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Shoari, N., Ezzati, M., Baumgartner, J., Malacarne, D., a Fecht, D. (2020). *Accessibility and allocation of public parks and gardens in England and Wales: A COVID–19 social distancing perspective*. *PLOS ONE*, 15(10), e0241102.

Shonkoff, J. P. (2016). *Capitalizing on Advances in Science to Reduce the Health Consequences of Early Childhood Adversity*. *JAMA Paediatrics*. 170 (10), t 1003–1007.

Spencer, G., Hood, P., Agboola, S. a Pritchard, C. (2018) *Parental engagement in school–based health promotion and education*. *Health Education*. 118 (6), t 513–527.

Staples, E., Roberts, L., Lyttleton–Smith, J., and Hallett, S. (2019). Enabling care–experienced young people's participation in research: CASCADE Voices. In *Children and young people 'looked after'? Education, intervention and the everyday culture of care in Wales*. (t 196–209). Gwasg Prifysgol Cymru.

Steed, E. A. a Leech, N. (2021) *Shifting to Remote Learning During COVID–19: Differenced for Early Childhood and Early Childhood Special Education Teachers*. *Early Childhood Education Journal*. 49, t 479–498.

Thorn, W. a Vincent–Lancrin, S. (2022) Education in the time of COVID–19 in France, Ireland, the United Kingdom and the United States: the nature and impact of remote learning. In Reimer, F.M eds. *Primary and Secondary Education During COVID–19: Disruptions to Educational Opportunity during a Pandemic*. Cambridge: Springer, t 383–420.

Thomas, E.M., Lloyd-Williams, S. W., Parry, N.M., ap Gruffudd, G.S., Parry, D., Williams, G.M., Jones, D., Hughes, S., Evans R.A., a Brychan, A. (2021). *Cael mynediad i'r Gymraeg yn ystod pandemig COVID-19: heriau a chefnogaeth i aelwydydd di-Gymraeg*. Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Timmons, K., Cooper, A., Bozek, E. a Braund, H. (2021) *The Impacts of COVID-19 on Early Childhood Education: Capturing the Unique Challenges Associated with Remote Learning and teaching in K-2*. Early Childhood Education Journal. 49, t 887-901. DIO: 10.1007/10643-021-01-01207-z

Tyrie, J. a Beauchamp, G. (2018) '*Children's Perceptions of Their Access to Rights in Wales: The Relevance of Gender and Age*'. The International Journal of Children's Rights. 26(4), t 781-807.

Tyrie, J., Knight, C. a Borrás, M. (2021) *Astudiaeth Delphi Study i Ddeall yr Opsiynau o sydd ar gael a fydd yn helpu i Ganfod Effaith COVID-19 ar Blant o dan 5 oed, Ymdrin â'r Effaith honno, neu ei Lliniaru*. Llywodraeth Cymru. [Ar-lein] Ar gael yn: [Astudiaeth Delphi i Ddeall yr Opsiynau sydd ar gael a fydd yn helpu i Ganfod Effaith COVID-19 ar Blant o dan 5 oed, Ymdrin â'r Effaith honno, neu ei Lliniaru \(llyw.cymru\)](#) [Darllenwyd: 18/03/2022]

UNESCO (2020) *Reopening Schools: When, where and how?* UNESCO. [Ar-lein] Ar gael yn: [parents-experiences-with-remote-education-during-19-school-closures](#) [Darllenwyd: 14/03/2022]

UNICEF (2020) *Children in Lockdown: What Coronavirus Means for UK Children*. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2020/04/Unicef-UK-Children-In-Lockdown-Coronavirus-Impacts-Snapshot.pdf> [Darllenwyd: 24/03/2022]

Vincent, C. a Maxwell, C. (2016) *Parenting priorities and pressures: furthering understanding of 'concerted cultivation'* Discourse: Studies in the Cultural Politics of Education. 37 (2), t 269-281.

Walters, T., Simkiss, N. J., Snowden, R. J. a Gray, N. S. (2021) *Secondary school students' perception of the online teaching experience during COVID-19: The impact on mental wellbeing and specific learning difficulties*. British Journal of Educational Psychology.

Waters-Davies, J., Davies, P., Underwood, C., a Lloyd-Williams, S. (2021). Archwilio effaith pandemig COVID-19 ar ddysgwyr yng Nghymru.[Adroddiad Prosiect]. . [Ar-lein] Ar gael yn: [Dolen ar-lein i covid-rs2-final-cy.pdf \(gov.wales\)](#)

White, E. J. (Ed.). (2020). *Seeing the world through children's eyes: Visual methodologies and approaches to research in the early years*. Brill Sense.

WHO (2020) *COVID-19 Public Health Emergency of International Concern (PHEIC) Global research and innovation forum*. WHO. [Ar-lein] Ar gael yn: [COVID-19 Public Health Emergency of International Concern \(PHEIC\) Global research and innovation forum](#) [Darllenwyd: 14/03/2022]

Williams, K. (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Meini prawf ar gyfer defnyddio'r ddarpariaeth barhaus ar gyfer plant sy'n agored i niwed, neu y mae eu rhieni'n hanfodol ar gyfer ymateb i COVID-19*. Llywodraeth Cymru. [Ar-lein] Ar gael yn: [328769601.pdf \(core.ac.uk\)](#) [Darllenwyd: 18/03/2022]

Withers A. (2020) *Not in this together*. Social Work 2020–21 under COVID –19 Magazine. Ar-lein. Ar gael yn: [5th-edition July 2020 not in it together](#) [Darllenwyd 05/05/2022]

Yildirim, B. (2021) *Preschool education in Turkey during COVID –19 pandemic: A phenomenological study*. Early Childhood Education Journal. 49, pp. 947–963. [Ar-lein] Ar gael yn: [Preschool Education in Turkey During the –19 Pandemic: A Phenomenological Study](#) [Darllenwyd: 16/03/2022]

Atodiad 1: Tabl o Nodweddion y Cyfranogwyr

Ysgol 1

Cyfranogwr	Cenedl	Grŵp Blwyddyn
Disgybl 1	Merch	1
Disgybl 2	Merch	1
Disgybl 3	Bachgen	1
Disgybl 4	Bachgen	1
Disgybl 5	Bachgen	1
Disgybl 6	Bachgen	1
Disgybl 7	Bachgen	1
Disgybl 8	Bachgen	1
Disgybl 9	Merch	1
Disgybl 10	Bachgen	1
Disgybl 11	Bachgen	1
Disgybl 12	Merch	1
Athro 1	Menyw	Amh
Athro 2	Menyw	Amh
Athro 3	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 1	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 2	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 3	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 4	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 7	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 8	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 11	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 12	Menyw	Amh

Ysgol 2

Cyfranogwr	Cenedl	Grŵp Blwyddyn
Disgybl 13	Merch	3
Disgybl 14	Bachgen	3
Disgybl 15	Bachgen	3
Disgybl 16	Merch	3
Disgybl 17	Merch	3
Disgybl 18	Bachgen	3
Athro 4	Menyw	Amh
Athro 5	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 13	Gwryw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 14	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 15	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 16	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 17	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 18	Menyw	Amh

Ysgol 3

Cyfranogwr	Cenedl	Grŵp Blwyddyn
Disgybl 19	Bachgen	2
Disgybl 20	Merch	2
Disgybl 21	Merch	1
Disgybl 22	Bachgen	1
Disgybl 23	Merch	1
Athro 6	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 20	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 21	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 22	Menyw	Amh

Ysgol 4

Cyfranogwr	Cenedl	Grŵp Blwyddyn
Disgybl 24	Bachgen	Derbyn
Disgybl 25	Bachgen	Derbyn
Disgybl 26	Merch	Derbyn
Disgybl 27	Merch	Derbyn
Disgybl 28	Merch	1
Disgybl 29	Merch	1
Disgybl 30	Bachgen	1
Athro 7	Menyw	Amh
Athro 8	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 24	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 28	Menyw	Amh
Rhiant/Gofalwr Disgybl 30	Menyw	Amh

Atodiad 2: Gweithgaredd 1 i'r Plant: Beth sydd yn fy Myd?

Ar gyfer ymchwilyr: trosolwg byr o'r gweithgaredd	Yr adnoddau sydd eu hangen* (fesul ysgol): Ymchwilydd A
<ul style="list-style-type: none"> • Bwriad y gweithgaredd hwn yw rhoi cipolwg ar yr hyn sydd ym myd bob dydd plant a sut y gwnaeth y Coronafeirws effeithio arnynt. • Mae pob plentyn yn derbyn darn o bapur arlunio. Bydd gan y ganolfan ffotograff polaroid ohonynt. • Y nod yw defnyddio'r gweithgaredd hwn i archwilio'n llawn ganfyddiadau plant o bobl, lleoedd a phethau pwysig yn eu bywyd bob dydd. • Pan fydd y lluniau wedi'u cwblhau bydd gofyn i'r plant roi sticer wyneb yn gwenu wrth ymyl y pethau a nad oeddent yn rhan o'u byd bob dydd dros dro yn sgil y pandemig. • Dylai'r gweithgaredd gymryd tua 1 awr. 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Ffurflenni caniatâd i blant (dylid argraffu fersiynau papur i'w dosbarthu). 2. Cylchgronau ychwanegol i athrawon eu defnyddio gyda'r dosbarth os ydynt yn ddefnyddiol. 3. Copi o ddisgrifiad o'r gweithgaredd i athrawon os hoffent gynnal y gweithgaredd gyda'r dosbarth cyfan. <p>Deunyddiau</p> <ul style="list-style-type: none"> • 7 darn papur A3 (1 fesul plentyn) • 7 ffon glud (1 fesul plentyn) • 7 pensil (1 fesul plentyn) • 7 siswrn (1 fesul plentyn) • Cylchgronau • 14 dalen o sticeri wyneb yn gwenu (2 fesul plentyn) • 1 pecyn o binau ffelt • 1 pecyn o bensiliau lliwio • Beiro a phapur i'r ddau ymchwilydd ar gyfer gwneud nodiadau <p>Dyfeisiau technolegol</p> <ul style="list-style-type: none"> • 1 camera polaroid • 1 pecyn o ffilm Polaroid (8 delwedd) • 1 camera digidol (gwiriwch fod cerdyn SD ynddo) • 1 recordydd sain (gwnewch yn siwr ei fod wedi'i wefru/fod y batris yn gweithio)

Unwaith y bydd y plant yn bresennol a'u bod wedi cydsynio ar lafar:

- Gwnewch yn siwr fod y plant yn gwybod y gallant ymuno â'r gweithgaredd a'i adael os oes angen (toiled, egwyl o ran canolbwyntio ac ati)
- Tynnwch lun o bob plentyn gan ddefnyddio'r camera polaroid a rhowch hwn gyda'u deunyddiau.
- Rhowch y recordydd sain yng nghanol y bwrdd a dechreuwch recordio.

Dechrau'r gweithgaredd (5 munud):

Darllenwch y canlynol i'r plant:

- *"Heddiw hoffwn i chi ddangos i mi beth sydd yn eich byd.*
- *"I wneud hyn, rhowch eich llun yng nghanol eich darn o bapur. Gallwch dynnu llun o'r pethau sy'n bwysig i chi yn eich bywyd o amgylch y llun.*
- *"Pa bobl, llefydd a phethau rydych chi wir yn eu caru yn eich bywyd?*
- *"Er enghraifft, mae rhai pobl wir yn caru eu ci ac yn mynd â nhw i'r parc, neu mae rhai pobl wir wrth eu boddau yn darllen llyfr yn y gwely. Beth sy'n bwysig? Beth rydych chi'n ei garu yn eich bywyd?"*
- *"Byddaf yma i'ch helpu gyda hyn a byddaf yn tynnu rhai lluniau hefyd – ydy hyn i gyd yn swnio'n iawn?*
- *"Reit, gadewch i ni ddechrau arni!*

Yn ystod y gweithgaredd (hyd at 45 munud i 1 awr):

Cam Un:

Bydd un ymchwilydd yn tynnu lluniau â chamera digidol ac yn ysgrifennu nodiadau wrth i'r gweithgaredd gael ei gynnal, a bydd yr ymchwilydd arall yn:

- Hwyluso neu helpu'r plant i dynnu llun ac ysgrifennu am yr hyn sydd yn eu byd, rhywbeth maen nhw'n ei fwynhau/ caru.
- Parhau i wirio bod y plant yn fodlon drwy wyllo iaith eu corff, a yw unrhyw blant yn edrych yn anghyfforddus, gwirio eu bod yn iawn a pharhau i'w hatgoffa o'r hawl i adael y gweithgaredd.
- Yn ystod y gweithgaredd bydd yn awgrymu eu bod nhw'n meddwl am ystod o bethau yn eu bywyd gan gynnwys pobl, lleoedd, pethau, amseroedd (e.e. yr haf). Bydd hefyd yn siarad â nhw am yr ysgol a'u barn amdani.

Cam Dau:

Gofynnwch i'r plant:

"Gan ein bod wedi gorffen ein lluniau fe allwch chi roi sticer dros y pethau yn eich bywyd a ddaeth i ben neu a oedd ar goll neu wedi digwydd yn llai aml yn ystod y pandemig"

(defnyddiwch y geiriau maen nhw'n eu defnyddio yn eu bywydau) - e.e. *pan oedd yr ysgol ar gau, neu'r holl gyfnod, siaradwch â nhw am hyn.*

Pan fydd hi'n amser gosod y sticeri gwenu, gwnewch yn siŵr fod y plant yn meddwl am bob peth mewn perthynas â'r pandemig (e.e., Ro'n i'n gallu gwyllo'r teledu, ond doeddwn i ddim yn gallu gweld ci fy ffrindiau).

Cam Tri:

Pan fydd amser y gweithgaredd ar ben, **esboniwch i'r plant y byddwch chi nawr yn trafod beth maen nhw'n ei roi neu y byddan nhw'n dychwelyd i'r rhain yn nes ymlaen heddiw.**

Gallwch wneud hyn gyda phlentyn unigol neu grwpiau bach – dim mwy na 2/3 o blant.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn datgan enw(au) y plentyn/plant ar ddechrau'r recordiad.

Cwestiynau sbarduno:

- *Allwch chi ddisgrifio'r hyn wnaethoch chi?*
- *Sut brofiad oedd peidio cael y peth yma?*
- *Roedd gan lawer ohonoch/roedd gennych y peth yma, pam hynny?*
- *Oedd unrhyw un ohonoch chi hefyd yn teimlo X ond heb nodi hynny? Pam hynny?*
- *Hoffech chi nodi unrhyw beth arall am yr hyn wnaethon ni heddiw?*

Atodiad 3: Gweithgaredd 2 i'r Plant: Hedfan i ffwrdd a chreu ysgol newydd

Ar gyfer ymchwilwyr: trosolwg byr o'r gweithgaredd	Yr adnoddau sydd eu hangen* (fesul ysgol): Ymchwilydd A
<ul style="list-style-type: none"> • Bwriad y gweithgaredd hwn annog y plant i ystyried pa brofiadau y byddent yn eu cael yn yr ysgol os na fyddai'r pandemig wedi digwydd. • Bydd y plant yn creu ysgol newydd ar blaned lle nad oes pandemig ac yn tynnu sylw at beth sy'n bwysig iawn am eu haddysg. • Y nod yw defnyddio'r gweithgaredd hwn i archwilio yn llawn ganfyddiadau'r plant o'r hyn a fyddai'n newid a'r hyn na fyddai'n newid pe na bai'r pandemig wedi digwydd. • Bydd y plant yn adeiladu awyren ac yn creu darlun i 	<p>1. Ffurflenni caniatâd i blant (dylech argraffu fersiynau papur i'w dosbarthu).</p> <p>2. Copi o ddisgrifiad o'r gweithgaredd i athrawon os hoffent gynnal y gweithgaredd gyda'r dosbarth cyfan..</p> <p>Deunyddiau</p> <ul style="list-style-type: none"> • 7 o becynnau awyren ffôm (1 fesul plentyn) neu ddigon ar gyfer dosbarth cyfan • 7 dalen o bapur A1 siart troi • 7 o bensiliau (1 fesul plentyn) • 1 pecyn o binau ffelt • 1 pecyn o bensiliau lliwio • 12 taflen o sticeri amrywiol • Beiro a phapur fel y gall yr ymchwilydd wneud nodiadau <p>Dyfeisiau technolegol</p>

<ul style="list-style-type: none"> • hwyluso nod y gweithgaredd hwn. Dylai'r gweithgaredd gymryd tua 1 awr. 	<ul style="list-style-type: none"> • 1 camera polaroid • 1 pecyn o ffilm Polaroid (8 delwedd) • 1 camera digidol (gwiriwch fod cerdyn SD ynddo) • 1 recordydd sain (gwnewch yn siwr ei fod wedi'i wefru/fod y batris yn gweithio)
--	---

Unwaith y bydd y plant yn bresennol a'u bod wedi cydsynio ar lafar:

- Gwnewch yn siwr fod y plant yn gwybod y gallant ymuno â'r gweithgaredd a'i adael os oes angen (toiled, egwyl o ran canolbwyntio ac ati)
- Tynnwch lun o bob plentyn gan ddefnyddio'r camera polaroid a rhowch hwn gyda'u deunyddiau.
- Rhowch y recordydd sain yng nghanol y bwrdd a dechreuwch recordio.

Dechrau'r gweithgaredd (5 munud):

Darllenwch i'r plant:

- *"Ar gyfer ein gweithgaredd nesaf byddwn yn adeiladu ein hawyrennau ein hunain a'u hedfan i blaned wahanol. Ar y blaned hon does dim pandemig coronafeirws nac ychwaith ysgolion.*
- *Allwch chi hedfan i'r blaned hon ac adeiladu ysgol newydd. Felly gallwch dynnu llun o sut le fyddai eich ysgol newydd pe na bai pandemig*
- *Yn gyntaf byddwch yn adeiladu eich awyren ac yna byddwch yn ei hedfan i'ch blaned ar y papur ac yna'n dechrau adeiladu eich ysgol newydd yn llawn pethau yr hoffech i ysgol eu gwneud, nad yw'r pandemig yn caniatáu iddynt ddigwydd.*
- *Byddwn yma i'ch helpu gyda hyn a byddwn yn tynnu rhai lluniau hefyd – ydy hyn i gyd yn swnio'n iawn?*
- *Reit, gadewch i ni ddechrau arni!"*

Mwy manwl...

- Beth fyddai gan yr ysgol?
- Beth na fyddai ganddi?
- Ystyriwch yn ofalus yr hyn rydych yn ei fwynhau am yr ysgol a'r hyn yr hoffech ei ddysgu.
- Ystyriwch hefyd beth allai'r pandemig fod wedi eich atal rhag gwneud yn eich ysgol a beth y gallai'r ysgol newydd hon ei gynnig yn ei le!
- Efallai eich bod chi eisiau cofleidio'ch ffrindiau a doeddech chi ddim yn gallu gwneud hynny - ond gallwch chi wneud hynny yn eich ysgol newydd!

Yn ystod y gweithgaredd (45 munud i 1 awr):

Cam Un:

Bydd un ymchwilydd yn tynnu lluniau â chamera digidol ac yn ysgrifennu nodiadau wrth i'r gweithgaredd fynd rhagddo a bydd yr ymchwilydd arall yn gwneud y canlynol:

- Cynorthwyo gyda gwaith adeiladu'r awyrennau a darlunio/creu'r ysgol newydd. Gan ddefnyddio gwybodaeth eich ymchwilydd, gan wirio'n barhaus fod y plant yn gyfforddus drwy edrych ar iaith y corff, os oes unrhyw blant yn edrych yn anghyfforddus, bydd yn gwirio eu bod yn hapus i barhau.
- Yn ystod y gweithgaredd bydd yn sicrhau bod y plant yn canolbwyntio'n llwyr ar ysgol newydd heb y pandemig – bydd ystyried yr hyn na allant ei wneud o ran eu haddysg bresennol yn helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o'u haddysg yn ystod y pandemig.

Cwestiynau ysgogi pellach:

- *Beth nad oeddech yn gallu eu gwneud â ffrindiau yn yr ysgol yn ystod y pandemig?*
- *Beth oeddech chi eisiau dysgu amdano nad oedd yn bosibl oherwydd y pandemig?*
- *Beth ydych chi'n ei charu am yr ysgol hon yr hoffech chi ei chadw yn eich ysgol newydd er bod yr ysgol hon mewn pandemig?*

Pan fydd amser y gweithgaredd ar ben, **esboniwch i'r plant y byddwch chi nawr yn trafod beth maen nhw'n ei roi neu y byddan nhw'n dychwelyd i'r rhain yn nes ymlaen heddiw.**

Cam Dau:

Dewch â'r plant i mewn yn unigol neu mewn grwpiau bach – dim mwy na 2/3 o blant. Bydd gofyn i'r plant egluro sut olwg sydd ar eu hysgol newydd gan gynnwys beth a phwy fydd o fewn yr ysgol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn datgan enw(au) y plentyn/plant ar ddechrau'r recordiad.

Cwestiynau sbarduno:

- *Allwch chi ddisgrifio'r hyn wnaethoch chi?*
- *Pam wnaethoch chi gynnwys X?*
- *Gwnaeth llawer ohonoch chi ddangos yr hoffech chi Y, beth yw'r rheswm am hyn?*
- *Oedd unrhyw un ohonoch chi hefyd yn teimlo Z hefyd ond heb nodi hynny? Os na, pam ddim?*
- *Hoffech chi nodi unrhyw beth arall am yr hyn wnaethon ni heddiw?*

Atodiad 4: Gweithgaredd 3 i'r Plant: Bocsys Cadw a Thafllu

Ar gyfer ymchwilwyr: trosolwg byr o'r gweithgaredd	Yr adnoddau sydd eu hangen* (fesul ysgol): Ymchwilydd A
<ul style="list-style-type: none"> Nod y gweithgaredd hwn yw annog y plant i feddwl am eu profiadau pan oeddent yn dysgu ar-lein yn ystod y pandemig. Y nod yw defnyddio'r gweithgaredd hwn i archwilio yn llawn ganfyddiadau'r plant o ddylanwad y pandemig ar eu dysgu ar-lein, pan nad oeddent yn cael dod i'r ysgol. Bydd bocsys a nodiadau <i>post-it</i> amrywiol yn cael eu defnyddio i hwyluso nod y gweithgaredd hwn. Dylai'r gweithgaredd gymryd tua 1 awr. 	<ol style="list-style-type: none"> Ffurflenni caniatâd i blant (dylech argraffu fersiynau papur i'w dosbarthu). Copi o ddisgrifiad o'r gweithgaredd i athrawon os hoffent gynnal y gweithgaredd gyda'r dosbarth cyfan.. <p>Deunyddiau</p> <ul style="list-style-type: none"> Digon o focsys ar gyfer y dosbarth cyfan os oes angen 16 o focsys siâp seren (2 flwch fesul plentyn x 7 o blant a 2 focs i'r ymchwilydd) 1 pecyn o binâu gel gliter 9 tiwb o gliter 7 o ffyn glud 2 pad o nodiadau <i>post-it</i> 12 taflen o sticeri amrywiol Dau gerdyn fflach ar gyfer cydsynio Beiro a phapur i'r ymchwilydd wneud nodiadau <p>Dyfeisiau technolegol</p> <ul style="list-style-type: none"> 1 camera digidol (gwiriwch fod cerdyn SD ynddo) 1 recordydd sain (gwnewch yn siwr ei fod wedi'i wefru/fod y batris yn gweithio)

Unwaith y bydd y plant yn bresennol a'u bod wedi cydsynio ar lafar:

- Gwnewch yn siwr fod y plant yn gwybod y gallant ymuno â'r gweithgaredd a'i adael os oes angen (toiled, egwyl o ran canolbwyntio ac ati)
- Tynnwch lun o bob plentyn gan ddefnyddio'r camera polaroid a rhowch hwn gyda'u deunyddiau.
- Rhowch y recordydd sain yng nghanol y bwrdd a dechreuwch recordio.

Dechrau'r gweithgaredd (5 munud):

Darllenwch i'r plant:

- Heddiw, rydyn ni'n mynd i fod yn gwneud gweithgaredd lle byddwch chi'n addurno eich bocsys eich hun ac yn llenwi eich 2 focs gyda llawer o eiriau am yr hyn rydych chi'n ei feddwl.*
- Ar gyfer y gweithgaredd hwn hoffem i chi feddwl yn ôl i gyfnod clo'r coronafeirws, a doedd llawer ohonoch chi ddim yn cael dod i mewn i'r ysgol. Rhowch eich llaw i fyny*

os ydych chi'n cofio hyn? Arhoswch i'r plant godi eu dwylo ac efallai bydd rhai'n cyflwyno sylwadau.

- *Felly ie, roeddech chi naill ai gartref neu efallai bod rhai ohonoch wedi gallu dod i mewn i'r ysgol, ond roedd yn wahanol iawn.*
- *Hoffem i chi feddwl yn ôl i'r cyfnod hwn, pan oeddech chi'n dysgu ar-lein ac nid mewn ysgol mewn gwirionedd. Hoffem i chi gofio beth oeddech chi'n ei hoffi bryd hynny a rhoi beth oeddech chi'n ei hoffi mewn un bocs (codwch un bocs i'w ddangos) ac yn y bocs arall hoffem i chi roi'r hyn nad oeddech chi'n ei hoffi. Byddwch i gyd yn addurno'ch bocsys gyda'r pinau, y gliter a'r sticeri ac yn rhoi'r geiriau o ran yr hoffech yn ei hoffi a'r hyn nad oeddech yn ei hoffi ynddynt.*
- *Byddwn yma i'ch helpu gyda hyn a byddwn yn tynnu rhai lluniau hefyd – ydy hyn i gyd yn swnio'n iawn? Reit, gadewch i ni ddechrau arni!*

Yn ystod y gweithgaredd (hyd at 45 munud- 1 awr):

Cam Un:

Bydd un ymchwilydd yn tynnu lluniau â camera digidol ac yn ysgrifennu nodiadau wrth i'r gweithgaredd fynd rhagddo, a bydd yr ymchwilydd arall yn gwneud y canlynol:

- Cynorthwyo gydag addurno bocsys. Efallai yr hoffech addurno eich 2 focs eich hun i helpu i greu mwy o drafodaeth.
- Parhau i wirio bod y yn gyfforddus drwy iaith y corff, os oes unrhyw blant yn edrych yn anghyfforddus, gwirio eu bod yn hapus i barhau.
- Yn ystod y gweithgaredd bydd yn sicrhau bod y plant yn rhoi geiriau am yr hyn yr oeddent yn ei hoffi a'r hyn nad oeddent yn ei hoffi mewn perthynas â'r pandemig wrth ddysgu ar-lein gartref.

Cwestiynau sbarduno:

- o *Oedd yna unrhyw beth oeddech chi'n ei hoffi'n fawr/ddim yn ei hoffi am fod gartref gyda theulu/gofalwyr?*
- o *Oedd yna unrhyw beth oeddech chi'n ei hoffi/ddim yn ei hoffi am beidio â gweld eich ffrindiau?*
- o *Oedd yna unrhyw beth oeddech chi'n ei hoffi/ddim yn ei hoffi am beidio â dod i mewn i'r ysgol yn unol â'r arfer?*

Pan fydd amser y gweithgaredd ar ben, **esboniwch i'r plant y byddwch chi nawr yn trafod beth maen nhw wedi'i roi yn y bocsys neu byddwch yn dychwelyd i'r gweithgaredd yn nes ymlaen heddiw.**

Cam Dau:

Dewch â'r plant i mewn yn unigol neu mewn grwpiau bach – dim mwy na 2/3 o blant. Bydd gofyn i'r siarad am yr hyn y gwnaethant ei ysgrifennu/ei arlunio a'u rhoi yn eu bocsys cadw neu daflu.

Cwestiynau sbarduno:

- o *Allwch chi ddisgrifio'r hyn wnaethoch chi?*
- o *Pam wnaethoch chi nodi eich bod yn hoffi X?*
- o *Gwnaeth nifer ohonoch nodi Y, beth yw'r rheswm am hyn?*
- o *Oedd yna unrhyw un ohonoch chi hefyd yn teimlo Z ond nad oeddech wedi'i nodi? Os ddim, pam ddim?*
- o *Hoffech chi nodi unrhyw beth arall am yr hyn wnaethon ni heddiw?*

Atodiad 5: Amserlen Cyfweld Rhieni

COVID a Lleisiau Pobl Ifanc (CYCV) Amserlen Cyfweld Rhieni/Gofalwyr

Gweithdrefn

- 1 Sicrhewch fod y cyfranogwyr (rhieni/gofalwyr) wedi darllen y ddalen wybodaeth, llofnodi'r ffurflen ganiatâd, ac yn hapus ac yn gallu siarad. Cofiwch gael cydsyniad geiriol gan y plentyn i gymryd rhan.
- 2 Cyflwynwch eich hun (enw a phrosiect) ac eglurwch y canlynol:
Nod: Nod y cyfweiliad yw clywed mewn ychydig mwy o fanylder am eich canfyddiad o addysg a dysgu plant ifanc yn ystod pandemig COVID-19 a'r broses ddilynol o ddychwelyd i'r ysgol.
Proses: Bydd y cyfweiliad yma'n cymryd tua 1 awr i gyd - lle byddwch chi a'ch plentyn yn cymryd rhan mewn tasg fer 5 munud gartref, gyda chyfweiliad i ddilyn; Bydd y cyfweiliad yn cael ei rannu'n ddwy ran:
Rhan 1: cyfweiliad â chi a'ch plentyn (20 munud): Yn gyntaf, bydd sgwrs rhyngoch chi a'r plentyn a'r un ymchwilydd/ymchwilydd a wnaeth weithio gyda'ch plentyn yn yr ysgol. Bydd y cwestiynau'n ymwneud â'r gweithgareddau y gwnaeth eich plentyn yn yr ysgol.
Rhan 2: cyfweiliad â chi (30 munud): Dim ond yn ystod rhan gyntaf y cyfweiliad hwn y bydd angen i'ch plentyn fod yn bresennol, gan y bydd yr ail ran gyda chi ar eich pen eich hun. Yn y broses hon gofynnir cyfres o gwestiynau i chi a'r person ifanc a bydd gofyn i chi ymateb iddynt mor onest ac agored â phosib. Gwnewch yn siŵr eu bod yn hapus i ymateb i'r cwestiynau.
Cyfrinachedd: Caiff recordiad sain ei wneud fel bod modd gwranddo ar yr wybodaeth yn ddiweddarach, ni fyddwch chi a'r person ifanc yn cael eich adnabod. Bydd ffugenwau'n cael eu defnyddio mewn unrhyw adroddiadau neu gyhoeddiadau.
Gwirfoddol: Gallwch ddewis faint rydych chi am ei ddweud, ac nid oes rhaid i chi ateb unrhyw beth nad ydych yn dymuno ei wneud.
- 3 Dechreuwch y recordiad sain a chynnal y cyfweiliad gan ddefnyddio'r amserlen cyfweiliad lled-strwythuredig isod fel canllaw ar gyfer trafodaeth.
- 4 Pan fydd yr amser ar ben, diolchwch i'r rhiant/gofalwr a'r person ifanc am eu cymorth wrth gynnal yr ymchwil hon.

Tasg:

- Annog y plentyn i rannu eitemau o weithgaredd(au) a gwblhawyd yn yr ysgol – wythnos 2 efallai
NEU
- Efallai annog y plentyn a'r rhiant i wneud y 'Gweithgaredd Bocsys Cadw a Thafllu' gyda'i gilydd.

Cwestiynau ar gyfer cyfweld rhiant/gofalwr a phlentyn:

Plentyn

- Beth oeddet ti'n ei hoffi am wneud y gweithgareddau hyn yn yr ysgol?
- Beth nad oeddet ti'n ei hoffi am wneud y gweithgareddau hyn yn yr ysgol?
- Beth wnest ei ei ddysgu wrth wneud y gweithgareddau hyn?
- Wyt ti'n meddwl bod pethau wedi bod yn wahanol pan nad oeddet yn mynd i'r ysgol gan aros gartref gyda (rhiant/gofalwr) i ddysgu? Pam hynny?
- Beth oeddet ti'n ei hoffi am ddysgu gartref gyda (rhiant/gofalwr)?

- Beth oeddet ti'n ei golli neu ddim yn hoffi cymaint am ddysgu gartref gyda (rhiant/gofalwr)?
- Wyt ti'n meddwl ei fod yn wahanol pan est ti nôl i'r ysgol i ddysgu ar ôl bod gartref am gyfnod hir? Pam hynny?
- Beth oeddet ti'n ei hoffi am ei ddysgu wrth fynd yn ôl i'r ysgol?
- Beth oeddet ti'n ei golli neu ddim yn ei hoffi gymaint pan est ti nôl i'r ysgol i ddysgu?

Rhiant

- Beth ydych chi'n ei feddwl am ymatebion y person ifanc i'r dasg?
- Yn eich barn chi i ba raddau y mae ymatebion y person ifanc yn adlewyrchu ei brofiad yn ystod y cyfnod hwnnw?
- A wnaeth unrhyw beth penodol eich synnu?
- Beth oeddech chi'n ei hoffi am wneud y dasg hon?
- Beth nad oeddech chi'n ei hoffi gymaint am wneud y dasg hon?

Cwestiynau ar gyfer y rhiant/gofalwr yn unig:

Ar-lein:

- Faint o ddysgu ar-lein mae'ch plentyn wedi ei gael ers dechrau'r pandemig?
- Ar ddechrau'r pandemig i ba raddau y gwnaeth eich plentyn ymdopi â'r newid i ddysgu ar-lein? A oedd unrhyw ffactorau a effeithiodd arnynt yn ystod y cyfnod hwn o newid?
- Beth yn eich barn chi oedd profiadau cyffredinol eich plentyn yn ystod y pandemig o ran dysgu ar-lein?
- Pa heriau y gwnaeth eich plentyn eu hwynebu o ran dysgu ar-lein yn ystod y pandemig?
- Yn eich barn chi pa ganlyniadau cadarnhaol y profodd eich plentyn o ganlyniad i ddysgu ar-lein?
- Ydych chi'n meddwl bod profiadau addysgol eich plentyn wedi newid o ganlyniad i ddysgu ar-lein? Os felly sut?
- Pa mor dda wnaethoch chi fel rhiant/gofalwr ymdopi yn ystod y cyfnod o newid i ddysgu ar-lein?

Ysgol:

- Yn ystod y cyfnod o ddychwelyd i'r ysgol, pa mor dda y gwnaeth eich plentyn ymdopi â'i addysg yn yr ysgol yn ystod y pandemig? A wnaeth unrhyw ffactorau effeithio arnynt yn ystod y cyfnod hwn o newid?
- Beth yn eich barn chi oedd profiadau cyffredinol eich plentyn o ran addysg yn yr ysgol yn ystod y pandemig?
- Pa heriau y gwnaeth eich plentyn eu hwynebu o ran dysgu yn yr ysgol yn ystod y pandemig?
- Pa ganlyniadau cadarnhaol a gafodd eich plentyn o ganlyniad i ddysgu yn yr ysgol yn ystod y pandemig?
- Ydych chi'n meddwl bod profiadau addysgol eich plentyn wedi newid o ganlyniad i ddysgu yn yr ysgol yn ystod y pandemig? Os felly sut?
- Pa mor dda wnaethoch chi fel rhiant/gofalwr ymdopi yn ystod y cyfnod o ddychwelyd i'r ysgol?

Adfer a symud ymlaen...

- Pa wersi pwysig a ddysgwyd o ran effaith COVID-19 ar addysg eich plentyn?
- Yn eich barn chi pa effaith hirdymor y gallai COVID-19 ei chael ar addysg eich plentyn?

- Wrth symud ymlaen, sut ydych chi'n meddwl y gall eich plentyn gael ei gefnogi o fewn ei addysg o ran effaith hirdymor posib pandemig COVID-19?

Oes unrhyw beth na wnaethon ni ei drafod yr hoffech chi ei ychwanegu?

Atodiad 6: Amserlen Cyfweld Athrawon

COVID a Lleisiau Pobl Ifanc Amserlen Cyfweld Athrawon

Gweithdrefn

1. Sicrhewch fod y cyfranogwr wedi darllen y ddalen wybodaeth, wedi llofnodi'r ffurflen ganiatâd, a'i fod yn hapus ac yn gallu siarad.
2. Cyflwynwch eich hun (enw a phrosiect) ac eglurwch y canlynol:
 - **Nod:** Nod y cyfweiliad yw clywed mewn ychydig mwy o fanylder am eich canfyddiadau o addysg a dysgu yn ystod pandemig COVID-19 a'r broses ddilynol o ddychwelyd i'r ysgol.
 - **Proses:** Bydd y cyfweiliad hwn yn cymryd tua X. Yn y broses hon gofynnir cyfres o gwestiynau i chi a byddwch yn ymateb iddynt mor onest ac agored â phosib. Gwnewch yn siŵr eu bod yn hapus i ymateb i gwestiynau.
 - **Cyfrinachedd:** Caiff recordiad sain ei wneud o'r cyfweiliad fel bod modd gwrandao ar yr wybodaeth yn ddiweddarach, ni fyddwch yn cael eich adnabod. Bydd ffugenwau'n cael eu defnyddio mewn unrhyw adroddiadau neu gyhoeddiadau.
 - **Gwirfoddol:** Gallwch ddewis faint rydych chi am ei ddweud, ac nid oes yn rhaid i chi ateb unrhyw beth nad ydych yn dymuno ei wneud.
3. Dechreuwch y recordiad sain a chynnal y cyfweiliad gan ddefnyddio'r amserlen cyfweiliad lled-strwythuredig isod fel canllaw i drafod.
4. Pan fydd yr amser ar ben, diolchwch i'r athrawon am eu cymorth wrth gynnal yr ymchwil hon.

Cwestiynau/meysydd i'w harchwilio:

Effaith yr amgylchedd ar-lein

- Ar ddechrau'r pandemig pa mor dda y gwnaeth plant eich ysgol ymdopi â'r newid i ddysgu ar-lein? A wnaeth unrhyw ffactorau effeithio arnynt yn ystod y cyfnod hwn o newid?
- Yn eich barn chi beth oedd profiadau cyffredinol plant yn ystod y pandemig o ran dysgu ar-lein?
- Pa heriau y gwnaeth plant eich ysgol eu hwynebu o ran dysgu ar-lein yn ystod y pandemig?
- Yn eich barn chi pa ganlyniadau cadarnhaol y profodd plant eich ysgol o ganlyniad i ddysgu ar-lein?
- Ydych chi'n credu bod y pandemig wedi cael effaith gyfartal ar brofiadau addysgol ar-lein plant ifanc? Os do/naddo, pam?
- Ydych chi'n meddwl bod profiadau addysgol plant eich ysgol wedi newid o ganlyniad i ddysgu ar-lein? Os do sut?

Effaith amgylchedd yr ysgol

- Yn ystod y cyfnod o ddychwelyd i'r ysgol, pa mor dda y gwnaeth plant eich ysgol ymdopi â'i addysg yn yr ysgol yn ystod y pandemig? A wnaeth unrhyw ffactorau effeithio arnynt yn ystod y cyfnod hwn o newid?
- Beth yn eich barn chi oedd profiadau cyffredinol plant o ran addysg yn yr ysgol yn ystod y pandemig?
- Pa heriau y gwnaeth plant eich ysgol eu hwynebu o ran dysgu yn yr ysgol yn ystod y pandemig?
- Pa ganlyniadau cadarnhaol a gafodd plant eich ysgol o ganlyniad i ddysgu yn yr ysgol yn ystod y pandemig?

- Ydych chi'n meddwl bod y pandemig wedi cael effaith gyfartal ar brofiadau addysgol plant ifanc yn yr ysgol? Os do/naddo, pam?
- Ydych chi'n meddwl bod profiadau addysgol plant eich ysgol wedi newid o ganlyniad i ddysgu yn yr ysgol yn ystod y pandemig? Os do, sut?

Adfer a symud ymlaen...

- Pa wersi pwysig a ddysgwyd o ran effaith COVID-19 ar addysg plant ifanc?
- Yn eich barn chi pa effaith hirdymor y gallai COVID-19 ei chael ar addysg plant ifanc?
- Wrth symud ymlaen, sut ydych chi'n meddwl y gall plant ifanc gael eu cefnogi o fewn eu haddysg o ran effaith hirdymor posib pandemig COVID-19?
- Beth y byddai'n ddefnyddiol i lunwyr polisi ac ysgolion ei weithredu yn y dyfodol o ganlyniad i'r pandemig?
- Oes unrhyw beth na wnaethon ni ei drafod yr hoffech chi ei ychwanegu?